



**GWOBRAU
TAI
CYMRU
2017**

**COMPENDIWM
ARFER DA**

Rhannu'r gwersi a ddysgwyd wrth
Gwobrau Tai Cymru 2017



Adnewyddu Cymunedau Trawsnewid Bywydau

O fewn Lovell, rydym yn adeiladu, yn adnewyddu, yn adfywio ac yn cynnal cartrefi a chymunedau ledled y DU.

Beth bynnag yr ydym yn ei wneud - boed yn adeiladu ac yn gwerthu cartrefi newydd, gosod cegin newydd neu adfywio cymuned – rydym yn anelu am ddim llai na rhagoriaeth yn y gwasanaeth a gynigiwn.

Ond ein pobl sydd yn gwneud y gwahaniaeth. Rydym yn ymrwymo i adael argraff gadarnhaol lle bynnag yr ydym yn gweithio, ac mae pob un ohonom eisiau chwarae eu rhan wrth newid bywydau pobl er gwell.

Mae Lovell yn falch iawn o noddi Gwobrau Tai Cymru eleni.



LOVELL

lovell.co.uk

A MORGAN SINDALL GROUP COMPANY

Gwobrau Tai Cymru 2017 - ymgeiswyr ar y rhestr fer

Gwobr adeiladu cymunedau mwy diogel

Linc STRIVE	Cymdeithas Tai Linc Cymru	4
Rhannu gwybodaeth ar gyfer cymunedau mwy diogel	Trivallis gyda Heddlu De Cymru a Chyngor Caerdydd	5
Teuluoedd cryfach ar gyfer cymunedau mwy diogel	Charter Housing Association	7

Gwobr ymgyrchoedd, cyfathrebu a chyhoeddiadau

Profiad o Gredyd Cynhwysol – safbwynt tenant	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gyda Chartrefi Cymunedol Cymru	9
Diwrnod Allan MAWR	Cartrefi Conwy	10
Prosiect Persona	Cymoedd i'r Arfordir	12

Gwobr contractwr sydd â ffocws ar y gymuned

Adeiladu dyfodol yn Sir y Fflint	Wates Residential gyda Chyngor Sir y Fflint a phartneriaid	14
Walters Terrace	Keepmoat Regeneration gyda Chymdeithas Tai Merthyr Tudful	15
The Mill	Lovell gyda Chymdeithas Tai Tirion a Cadwyn	17
Ymgyrch yn ôl i'r gymuned	Morganstone	18

Gwobr rhagoriaeth cwsmeriaid

Newid, ymgysylltu, gwella	Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf	20
Together we can	Cartrefi Melin	21
Gweithio ar ran Tai Tarian	Mi-Space (UK) Limited	23

Gwobr grymuso a chynnwys cymunedau

Shaftesbury Youf Gang	Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Heddlu Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd a phartneriaid	25
UNITY	Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Charter Housing a Chyngor Dinas Casnewydd	26
Own 2 feet...living	Cartrefi Cymunedol Bron Afon	28
Tim TAG	Cymdeithas Tai Rhondda	29

Gwobr cynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn tai

Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent	Gwalia Care and Support (Grŵp Pobl)	31
WISH Professional Development Network	WISH Rhanbarth Gogledd Cymru gyda WISH GB	32
Equality Street	Tai Calon Community Housing	34

Gwobr datblygiad newydd

Wenallt Uchaf, Dolgellau	Cartrefi Cymunedol Gwynedd	36
Leonard Charles	Morganstone gyda Coastal Housing Group	37
Pentref Gardd Loftus	Lovell gyda Grŵp Pobl a Chyngor Dinas Casnewydd	39

Gwobr syniadau a dulliau newydd

Outside in – preventing homelessness together	Charter Housing (Grŵp Pobl) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	41
Tim Cartrefi Newydd MHA	Tai Sir Fynwy	43
Achubwyr Lle Gwag	Cymoedd i'r Arfordir a phartneriaid	44

Gwobr defnyddio technoleg a hyrwyddo cynhwysiant digidol

Taith weithio chwim Melin	Cartrefi Melin	46
Dull Charter Housing o droi at gymunedau digidol	Charter Housing (Grŵp Pobl) a phartneriaid	47

Gwobr gweithio gyda sectorau eraill

Heol Brynteg	United Welsh gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	49
Nes Adref	Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf	50
Dewisiadau tai'r tîm camu i lawr	Datrysiadau Tai Conwy a phartneriaid	52
Rheoli'n well	Gofal a Thrwsio Cymru a phartneriaid	53

GWOBR ADEILADU CYMUNEDAU MWY DIOGEL

Mae'r wobwr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n gweithio i adeiladu cymunedau mwy diogel trwy fynd i'r afael â phroblemau penodol a chefnogi pobl sydd wedi cael profiad o'r materion hynny. Cynhwysant bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phartneriaid / gwasanaethau di-sector perthnasol er mwyn mynd i'r afael ag ystod o faterion, a dangos canlyniadau sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd.



Linc STRIVE

Cymdeithas Tai Linc Cymru

Mae camdriniaeth ddomestig yn parhau i fod yn un o'r troseddau mwyaf y cedwir yn dawel amdanynt yn y DU. Yn aml iawn, teimla'r dioddefwyr yn unig, efallai nad ydynt yn cydnabod eu bod yn destun camdriniaeth ddomestig a gallant fod yn ansicr ynghylch sut, neu gallai fod arnynt ormod o ofn troi at gefnogaeth. Fel darparwr tai, roedd Linc mewn sefyllfa unigryw i helpu dioddefwyr. Datblygwyd y gwasanaeth yn 2015 yn y lle cyntaf, ac ers hynny, mae Linc wedi ailasesu'r gwasanaeth yn barhaus i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y tenantiaid. Adwaenir y gwasanaeth fel Linc STRIVE heddiw. Ymgorfforwyd y gwasanaeth yn swyddogaeth fusnes graidd ar ôl cyflawni canlyniadau llwyddiannus niferus. Y nod yw estyn allan i'r bobl hynny sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig, cynnig help a chefnogaeth i'w cynorthwyo i fyw'n rhydd o ofn. Nid yn unig y mae'r prosiect wedi cefnogi tenantiaid, mae wedi cefnogi staff ac wedi darparu cefnogaeth ac arweiniad i adrannau eraill e.e. Adnoddau Dynol mewn achosion o ddadleniadau gan staff.

Gwneud gwahaniaeth: "Diolch yn fawr am bopeth rydych chi wedi'i wneud. Rwy'n caru fy nghartref a doeddwn i ddim eisiau symud a datod gwreiddiau fy mab o'i ysgol. Teimlaf ei bod hi bellach yn ddiogel i mi a'm mab a theimlaf fy mod wedi cael fy ngrymuso i helpu pobl eraill sy'n mynd trwy'r hyn y bûm innau drwyddo."

Mae Linc STRIVE yn sicrhau bod y rhai sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig yn cael ymateb effeithiol, a'u bod yn gwybod ble i chwilio am help a chefnogaeth pan fyddant yn barod. Mae nifer yr achosion camdriniaeth ddomestig y mae Linc wedi delio â nhw wedi codi'n ddramatig i un o'r problemau mwyaf toreithiog a wynebir gan gynifer o denantiaid. Mae Linc yn ymroi i adeiladu cymunedau diogel, cryf a gwydn ac felly wedi ymroi adnoddau i Linc STRIVE er mwyn sicrhau y gall Linc beri canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr. Ymhlith yr adnoddau mae swyddog achosion cam-drin domestig arbenigol, system rheoli achosion, cyllideb gwella diogelwch a Thîm Diogelwch Cymunedol cefnogol a all hefyd ddarparu cyngor a chyngor cyfreithiol arbenigol mewn achosion lle mae angen cymryd camau yn erbyn y tramgwyddwyr.

Gwneud gwahaniaeth: "Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr delio ag un aelod o staff a pheidio â dweud y stori drosodd a throsodd"

Gweithreda Linc STRIVE waith rheoli achosion effeithiol a gyflawnir gan Swyddog Grymuso Cymunedau Linc, Kerry Lee. Mae hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr. Gall wneud y gwahaniaeth rhwng rhywun yn parhau i ymgysylltu â gwasanaethau a theimlo bod ganddynt y gwydnwch a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen i orffen perthynas gamdriniol. Fframwaith cynhwysfawr sy'n seiliedig ar anghenion y tenantiaid yw'r pecyn cymorth cychwynnol. Mae'n cynnwys asesiad risg DASH, cyngor, arweiniad a sicrwydd. Sefydli'r rhwydweithiau cymorth a hwylusir gwell diogelwch personol ac yn y cartref (gwella diogelwch). Lle mae angen llety arall, darperir cymorth a chefnogaeth. Cynhelir cyswllt cyson ac anogir dweud wrth rywun, mewn rhai achosion dweud ar ran y tenantiaid. Tynnir sylw at bwysigrwydd diogelu a gwasanaethau eraill e.e. yr Heddlu.

Gwneud gwahaniaeth: "Doeddwn i ddim yn gwybod bod hyn i gyd (gwella diogelwch) yn bodoli. Rwy'n dioddef o orbryder ac maen nhw wir yn helpu"

Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd allweddol; hwyluso atgyfeiriadau priodol at asiantaethau arbenigol, rhaglenni cymorth allanol a mewnol, presenoldeb ym MARAC a sgrinio DACC (Galwad Cynadledda Dyddiol ar Gamdriniaeth Ddomestig). Caiff

tenantiaid wybod ble i gael cyngor cyfreithiol ac mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn cynorthwyo mewn achosion lle mae camau yn erbyn y tramgwyddwr yn briodol e.e. gwaharddeb / cymryd meddiant eiddo.

Mae achosion Linc STRIVE yn parhau'n agored tan i'r holl faterion tenantiaeth sy'n weddill gael eu datrys e.e. atgyweiriadau, a bod y cynllun gweithredu'n gyflawn. Cynhelir cyfweiliadau ymadael a theimla'r tenantiaid yn sicr ynghylch sut i ailgysylltu â'r gwasanaeth.

Gwneud gwahaniaeth: "Ar y dechrau, doeddwn i ddim wir yn gwybod pam roeddech chi'n dod. Ond erbyn hyn, rydw i mor falch eich bod chi yno i'm cefnogi"

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Linc STRIVE wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar ganlyniadau cadarnhaol i ddiodeffwyr trwy ei swyddog ymroddedig gan gynnig pecyn cymorth wedi'i deilwra'n seiliedig ar angen y tenantiaid. Cynigiwyd cymorth mewn 168 o achosion camdriniaeth ddomestig yn ei 2 flynedd gyntaf, gan bron i dreblu nifer yr achosion yr ymdriniwyd â nhw yn y 2 flynedd flaenorol. Mae ymgysylltiad Linc STRIVE â thenantiaid wedi cynyddu gwydnwch, lles, annibyniaeth ac, yn y pen draw, yn cynorthwyo unigolion i fyw heb ofn.

Gwneud gwahaniaeth: "Rydw i mor hapus fy mod i wedi symud, teimlaf y gallaf ymlacio nawr, diolch i chi am eich holl help"

Canlyniadau STRIVE:

- Teimlo'n fwy diogel
- Llai tebygol o symud o eiddo/cymuned a rhwydweithiau cymorth

- Lle mae angen symud, darperir cymorth cyflym a diogel
- Mae ymwybyddiaeth gynnar o help a chymorth ar gael
- Un cyswllt
- Lleihau risg ac yn atal camdriniaeth rhag dwysáu
- Cymorth wedi'i deilwra'n seiliedig ar angen y tenantiaid
- Ymateb cydlynol rhwng asiantaethau
- Mwy o les
- Meithrin perthynas ddibynadwy rhwng y landlord a'r tenant.

Gwneud gwahaniaeth: "Teimlaf gymaint yn fwy diogel yn fy nghartref gyda phopeth rydych chi wedi'i roi ar waith. Teimlaf yn barod i'r adeg y daw allan o'r carchar."

Mae Linc yn aelod o brosiect Free From Fear www.freefromfear.cymru. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys esiampl arfer da Linc ar reoli achosion.

Rachel Stevens

Rheolwr Diogelwch Cymunedol a Grymuso

Cymdeithas Tai Linc Cymru

Ff: (029) 2047 4756

E: rachel.stevens@linc-cymru.co.uk



Rhannu gwybodaeth ar gyfer cymunedau mwy diogel

Trivallis gyda Heddlu De Cymru a Chyngor Caerdydd

Mae Trivallis yn darparu bron i 11,000 o gartrefi i dros 12,000 o gwsmeriaid yn Rhondda Cynon Taf (RhCT). Mae gan RhCT yr ail boblogaeth fwyaf o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Gweithia tîm diogelwch cymunedol ymroddedig Trivallis (sy'n cynnwys 1 rheolwr a 4 swyddog) yn agos gyda sefydliadau partner fel Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Y Peilot Rhannu Gwybodaeth.

Bu rhannu gwybodaeth yn elfen graidd o weithio mewn partneriaeth effeithiol erioed, gyda cham sylweddol ymlaen yn cael ei gymryd yn sgil deddfu Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf, mae rhannu gwybodaeth wedi parhau'n un o'r pynciau mwyaf dadleuol i sefydliadau sy'n rheoli troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; gydag anghysonderau enfawr ar draws y DU.

Datblygodd Trivallis, Heddlu De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chyngor Caerdydd beilot rhannu gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â'r

mater hwn, gyda'r nod o ymyrryd yn gynnar i wella diogelwch y rheiny mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r peilot yn cynnwys uwchlwytho rhestrau cyfeiriadau i'r system arbenigol; yna mae cydlynwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol Heddlu De Cymru'n codi unrhyw achosion sy'n cynnwys Trivallis ac yn darparu crynodeb o'r digwyddiad trwy gyfeiriad e-bost diogel yn ddyddiol.

Anfonir y data trwyddo ar ffurf excel ac mae'n cwmpo i 1 o 3 chategori:

1. Lles
2. Diweddarau achosion parhaus
3. Creu achosion newydd

Er mis Hydref 2016, rhannwyd 3295 o ddigwyddiadau. Glanhawyd y wybodaeth i gynnwys dim ond yr achosion hynny sy'n gysylltiedig ag eiddo Trivallis. Yn ystod yr adeg hon, bu dros 1000.

Pan ddaw data i law, caiff ei adolygu gan Trivallis er mwyn gallu dynodi unrhyw faterion sy'n ailgodi'n hawdd. Eir ati i ymyrryd ar ffurf gweithio cydweithredol gyda rheolwyr tai lle bo hynny'n addas.

Arweiniodd hyn at weithredu ac ymyrryd effeithiol, gan arwain at well gwasanaeth a diogelwch yn y cymunedau. Yn ogystal, mae wedi lleihau'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus i Heddlu De Cymru a Trivallis.

Digwyddodd un enghraifft o hyn ar waith pan gafodd Heddlu De Cymru adroddiadau bod tenant gwrywaidd Trivallis yn aml yn achosi aflonyddwch mewn maes parcio lleol tra'r oedd dan ddylanwad. I ddechrau, cafodd hyn ei drin fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwnaed Trivallis yn ymwybodol o'r digwyddiadau trwy'r offeryn trosglwyddo data. O ganlyniad, cynhaliodd y tîm ymarfer cnocio ar ddrysau a darganfuwyd bod pryderon aruthrol am y gwryw yn y gymuned.

Yn dilyn hynny, rhoddwyd gwybod i Trivallis trwy'r offeryn trosglwyddo data bod yr adroddiadau wedi stopio'n sydyn ac felly gwnaed ymweliad ar y cyd â'r gwryw. O ymweld ag ef, daeth i'r amlwg ei fod yn agored i niwed a bod ganddo broblemau camddefnyddio sylweddau; trwy gydweithio, cofrestrodd y gwryw i raglen cefnogi tenantiaeth Trivallis.

Un esiampl yw'r uchod o'r ffordd y mae'r offeryn trosglwyddo data'n mynd i'r afael â theimladau'r gymuned o ddiogelwch a phryder gan ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth gynnar i denantiaid ar yr un pryd.

Mae'r peilot hwn yn gweddu i gylch gwaith Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles ar gyfer 'Ymyrraeth iawn ar yr adeg iawn gyda phwyslais ar atal' ac mae'n profi y gall ac y mae rhannu gwybodaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Ddiogelwch Cymunedol.

Wrth symud ymlaen, mae Trivallis yn gweithio i ganfod atebion sy'n galluogi ar gyfer anfon camau a gymerwyd trwy system rheoli achosion Trivallis, sef Locality, yn ôl yn syth at yr heddlu wrth iddynt ddiwydd. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflwyno gwasanaethau'n cael ei gydlyn yn y rheng flaen.

Bu'r offeryn trosglwyddo data'n allweddol wrth ddelio â phroblemau tymor hwy ac mae wedi arwain at rai canlyniadau cadarnhaol iawn. Mae'n ymddwyn fel rhwyd diogelwch, gan sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu; gan alluogi ar gyfer dynodi achosion lefel isel parhaus a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y ddau sefydliad.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Rhannwyd dros 1000 o achosion rhwng Heddlu De Cymru a Trivallis trwy'r peilot er mis Hydref 2016.

Nododd y gymuned fod cwsmer Trivallis yn gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol a honnwyd ei fod yn delio mewn cyffuriau. Roedd gan Heddlu De Cymru adroddiadau deallusrwydd a chynhaliwyd gwarantau yn yr eiddo, fodd bynnag nid oedd Heddlu De Cymru'n derbyn unrhyw adroddiadau gan y gymuned.

Nid adlewyrchodd hyn wybodaeth yr oedd Trivallis yn ei chael gan drigolion, a awgrymai fod y cymdogion yn ofni'r canlyniadau o roi gwybod am ddigwyddiadau i'r heddlu.

Roedd yr offeryn trosglwyddo data'n hollbwysig wrth nodi'r anghysonder mewn adroddiadau, dechreuodd hyn broses rhannu gwybodaeth rhwng Trivallis a Heddlu De Cymru.

Gweithiodd Trivallis, Heddlu De Cymru a'r cyngor ar y cyd i gael gorchymyn cau ar yr eiddo. Yn dilyn hynny, ildiodd y tenant y denantiaeth a olygai fod y gymuned o amgylch yn llawer mwy diogel.

Cynigiodd Trivallis gefnogaeth i'r tenant am y materion a ddyndwyd.

Dywedodd Bonni Navara, Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a Throseddau: **"Dyma ateb arloesol, cynaliadwy i rannu gwybodaeth rhwng yr Heddlu a'r sector tai sy'n dangos gwir lwyddiant. Dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud yn y DU ac rydym yn gyffrous o weld sut y gall wella'r dull o ddynodi pobl ddiamddiffyn ac atal problemau rhag dwysáu cyn gynted â phosibl."**

Jonathan Tumelty

Rheolwr Diogelwch Cymunedol

Trivallis

Ff: (01443) 494674

E: jonathan.tumelty@trivallis.co.uk



Teuluoedd cryfach ar gyfer cymunedau mwy diogel

Charter Housing (Grŵp Pobl)

Mae gennym angerdd yn Charter Housing i weithio gyda phobl i fagu hyder, hunan-barch a chred i gyflawni pobl lwyddiannus, hapus, gwydn a chymunedau mwy diogel. Mae tîm Pobl Ifanc a Theuluoedd arbenigol yn gweithio gyda phobl i gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am sut i effeithio'n gadarnhaol ar eu bywydau eu hunain, trwy sefydlu strategaethau a datblygu sgiliau am oes.

Mae'r tîm yn gweithio gyda phobl ddiameddiffyn, llawer ohonynt wedi bod yn destun camdriniaeth ddomestig, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, camddefnyddio sylweddau neu wedi bod yn ddiodefnyddwr neu'n dramgwyddwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae lles pobl yn ganolog i'r dull, gan adeiladu prosiectau'n organig ac addasu i ddiwallu gofynion newidiol mewn cymuned, annog ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â phobl eraill. Nod y tîm yw mynd i'r afael â phroblemau penodol a chefnogi pobl trwy dynnu ymaith rwystrau i ymgysylltu, darparu gwasanaethau priodol yn gynnar, cyn dod i argyfwng.

Mae prosiectau'n cydfodoli gan ddarparu rhwydwaith cefnogaeth gofleidiol, gan fynd i'r afael â datblygiad iechyd, lles a sgiliau. O fabwysiadu dull datblygu cymunedol seiliedig ar asedau, gall Charter nodi a lliniaru risgiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r tîm, sy'n credu yng nghryfderau a galluoedd pobl, yn eu meithrin i fagu gallu a hyder i gyflawni canlyniad cadarnhaol.

Uchafbwyntiau'r prosiect:

OK Kids – Prosiect magu plant a ddeilliodd o gwynion y cymdogion o'r plant ifanc iawn allan ar y stryd yn hwyr yn y nos heb oruchwyliaeth. Creodd pryderon lles wrthdaro rhwng y cymdogion. Mae OK Kids yn cynnig dull cyfrinachol heb fod yn feirniadol o weithio yn y cartref gyda theuluoedd i ddatblygu strategaethau a thechnegau i ddelio ag ymddygiad heriol plant. Mae'r

dull o fantais i'r teulu i gyd ac i'r gymuned ehangach, gyda ffocws ar nodi a lliniaru risgiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gefnogi'r teulu i ddod o hyd i graidd yr achosion ac anghenion sylfaenol yn hytrach na thrin yr ymddygiad ymatebol.

Gweithdai grŵp Karma Kids – Mae a wnelo'r rhain ag iechyd, lles a meddwl gofalgarg, dysgu sgiliau gyda'i gilydd fel teulu, a chael cefnogaeth gan OK Kids i sefydlu'r technegau yn ôl yn y cartref. Mae'r gweithdai'n cael effaith gadarnhaol ar leihau straen, syniadau dryslyd a lefelau pryder.

Growing Together - Partneriaeth gyda Gingerbread, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol rhieni sengl ifanc 14 i 25 oed yn holl feysydd bywyd, lle mae magu plant yn un ohonynt. Cynigia gyfleoedd sy'n cymell ac yn ysbrydoli rhieni i wneud dewisiadau cadarnhaol am y cam nesaf yn eu bywydau. Trwy gymryd rhan, maen nhw'n magu hyder a hunan-ffeithlonrwydd i osod nodau y mae modd eu cyflawni ac yn cael eu cefnogi'n llawn i weithio tuag atynt.

“Mae pobl yn credu pan ydych chi'n fam ifanc, rydych chi fel y stereoteip, ond dydw i ddim. Mae Growing Together wedi rhoi'r cyfle i mi wella fy hun cyn i mi allu gweithio. Bydd y cyflogwyr yn gweld fy mod i wedi gwneud pethau, dydw i ddim yn eistedd adref yn byw ar fudd-daliadau, rydw i am fod yn fodel rôl da i'm plentyn.”

“Mae rhai menywod ifanc wedi bod trwy drais domestig sydd wedi niweidio'u hyder a'u hunan-barch. Mae Growing Together yn meithrin yn ogystal â chynnig offer i ddysgu strategaethau hunan-helpu. Allen nhw ddim â bod wedi gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud nawr flwyddyn yn ôl.” (Atgyfeiriwr)

Brothers - Prosiect sy'n gweithio gyda dynion ifanc 15-25 oed i fagu hyder, gwydnwch, mynd i'r afael â phroblemau fel camdriniaeth ddomestig, iechyd meddwl ac anghydraddoldeb. Mae Brothers, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â phryder diogelwch cymunedol yn ymwneud â lefelau cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn herio stereoteipiau a'r diwylliant gwrywaidd sy'n rhoi pwysau ar ddynion ifanc i gydymffurfio, cadw'u teimladau dan gaead ac i 'fod yn ddyn!' gan arwain at lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais, anghydraddoldeb o ran rhywedd, iechyd meddwl gwael a hunanladdiad ymhlith dynion ifanc. Mae Brothers yn annog dynion ifanc sydd o bosibl wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a nifer gyfyngedig o fodlau rôl gwrywaidd i fod yn rhan o grŵp gweithredu cymdeithasol cadarnhaol, gan newid agweddau ac ymddygiadau trwy gyflawniad dan arweiniad cymheiriaid a dull mentora 1 i 1.

Canlyniadau a chyflawniadau:

OK Kids: 162 o deuluoedd yn gysylltiedig

- Mae 92% yn fwy hyderus wrth ymdopi ag ymddygiad eu plant a'i reoli
- Gostyngiad o 89% yn y teimladau o unigedd cymdeithasol
- Gwelliant o 91% yn ymddygiad plant yn y cartref a'r gymuned leol
- Gwelliant o 92% mewn iechyd/lles.

<http://www.charterhousing.co.uk/parenting-project-makes-positive-impact-on-our-tenants-lives/>

Karma Kids: 49 yn gysylltiedig

- Mae 78% yn dweud iddynt ddysgu strategaethau sy'n eu helpu i gadw'n bwylllog mewn sefyllfaoedd llawn straen.
- Gwellodd 89% eu hyder wrth reoli eu lles emosiynol eu hunain a'u teulu
- Teimlai 89% eu bod yn fwy abl i ymdopi â theimladau o orbryder a hwyliau isel.

www.karmakids.blog

Growing Together: 182 o rieni ifanc wedi cymryd rhan

- 93 o ddilyniannau cadarnhaol
- 57 yn gysylltiedig ar hyn o bryd.

<https://vimeo.com/199807611> Cyfrinair: GROWING2017

<https://stepsintothefuture.co.uk/wp-content/uploads/2016/12/Jessica-Hemmings-English.pdf>

'Mae Growing Together wedi cael effaith enfawr ar rieni ifanc. Dywedant fod y prosiect wedi'u galluogi i dyfu a newid eu bywydau er gwell. Bydd annog rhwydweithiau cymorth ymhlith cymheiriaid sy'n ffynnu y tu allan i'r prosiect yn golygu y bydd Growing Together yn gadael gwaddol a fydd yn parhau i leihau'r unigedd cymdeithasol a deimlir gan nifer fawr o rieni ifanc, gan eu galluogi i symud ymlaen, gyda'i gilydd.'
(Arfarnwr Allanol, Gorffennaf 2017)

Brothers: 46 o ddynton ifanc yn gysylltiedig

- datblygwyd adnodd theatr fforwm digidol ar gam-drin domestig
- cynnydd o 100% mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig
- teimlai 100% y bydd y gweithdy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu hymddygiad

<https://www.youtube.com/watch?v=ui8HnfO4Ric>

<http://www.charterhousing.co.uk/faqs/we-are-the-aspirations-youth-team/>

Samantha Howells

Rheolwr Datblygu Cymunedol
(Pobl Ifanc a Theuluoedd)

Charter Housing (Grŵp Pobl)

Ff: (01633) 678513

E: samantha.howells@charterhousing.co.uk

YMGYRCHOEDD, CYFATHREBU A CHYHOEDDIADAU

Mae'r wobwr hon yn rhoi llwyfan i sefydliadau sy'n cydnabod y rôl bwysig y mae cyfleu newid a hyrwyddo cymunedau'n ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau tai. Mae'r ceisiadau'n dangos ymgysylltiad effeithiol a lefel uchel gyda thenantiaid neu drigolion ac/neu'r cyhoedd yn gyffredinol.



Profiad o Gredyd Cynhwysol: safbwynt tenant

Astudiaethau Tai, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gyda Chartrefi Cymunedol Cymru

Comisiynwyd Tîm Astudiaethau Tai Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gan CHC, trwy gyllid yr Oak Foundation, i ymgymryd â darn o ymchwil i effaith y Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Yn deillio o'r gwaith hwn, cyhoeddwyd 'Profiad o Gredyd Cynhwysol: safbwynt tenant' sef y darn o ymchwil academiaidd cyntaf ar y pwnc hwn yng Nghymru.

Roedd a wnelo'r dull a gymerwyd yn yr ymchwil ag ymchwil gan gymheiriaid, lle mabwysiadodd aelodau'r grŵp ymchwil targed (yn yr achos hwn tenantiaid a hawlwyd) rôl ymchwilwyr gweithgar. Hwylusodd yr ymchwilwyr cymheiriaid grwpiau ffocws oedd yn cynnwys tenantiaid rhwng 18 a 60 oed oedd yn hawlio'r credyd cynhwysol neu'n gymwys amdano. Trwy'r grwpiau hyn, ymgysylltodd 7 o ymchwilwyr cymheiriaid â 19% o'r boblogaeth sampl.

Canfyddiadau craidd yr ymchwil oedd bod 94% o'r cyfranogwyr wedi cael gwybodaeth am gredyd cynhwysol, ond bod gan 91% ohonynt farn negyddol am y budd-dal newydd. Amlygodd y tenantiaid fod yr aros am arian yn achosi pryder a bod sawl cyfranogwr

yn defnyddio cronfeydd bwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r amserau aros hyn.

"Rwy'n byw o wythnos i wythnos, pan fydd yn digwydd byddwn ni mewn sefyllfa hynod anodd"

Yn ogystal, trafodwyd yr ymgysylltiad â'u landlord. Llythyrau oedd y dull cyfathrebu a ddefnyddiwyd amlaf rhwng y landlord a'r tenantiaid am rent neu fudd-daliadau, fodd bynnag, daeth mater llythrennedd i fyny'n aml mewn grwpiau ffocws.

Roedd y mater cyfathrebu rhwng landlord a thenant yn ganfyddiad allweddol yn yr ymchwil. Tynnodd y tenantiaid sylw bod llythyrau ffurfiol ar ôl-ddyledion rhent yn aneffeithiol ac yn eu hatal rhag cysylltu â'r sefydliad. Yn hytrach, gofynnodd y tenantiaid am lythyrau oedd yn:

"addfwyn, yn garedig, yn atgof personol"

"yn dyner"

"cofiwch mai bodau dynol yn eistedd yn eu cartref yw'r rhain..beth sy'n digwydd yn eu bywyd"

Mae'r cyhoeddiad yn amlinellu pwyntiau allweddol i'w hystyried o gwmpas y canfyddiadau:

- Effaith ac effeithiolrwydd y broses ôl-ddyledion rhent ffurfiol
- Rheoli, cyfathrebu Credyd Cynhwysol, amseru a chefnogaeth
- Ailosod y berthynas rhwng landlord a thenant a sut i symud yn agosach at denantiaid

Sut mae'n diwallu'r meini prawf?

Bu'r cyhoeddiad hwn yn ganolog i gymell trafodaethau yn y sector o gwmpas rôl a fformat y broses ôl-ddyledion rhent ffurfiol. Gan ddefnyddio lleisiau'r tenantiaid, mae wedi hyrwyddo trafodaethau'n effeithiol o gwmpas arferion a dulliau gwaith yn y sector. Mae'r tîm ymchwil hefyd wedi hwyluso sgysiau'n ymwneud ag arloesedd ac arfer gorau.

Amcanion penodol a fodlonwyd gan y gweithgaredd.

Nod yr ymchwil oedd ceisio deall profiad y tenantiaid o Gredyd Cynhwysol, a'r rhwystrau i ymgysylltu â landlordiaid.

Trwy ddilyn dull ymchwil gan gymheiriaid, caiff llais dyls yr hawlwr a'r tenantiaid ei gadw yn y cyhoeddiad gan roi dealltwriaeth i'r sector o Gredyd Cynhwysol o safbwynt tenant. Amlinella'r ymchwil nifer o rwystrau rhwng y landlord a'r tenantiaid, ac mae'n awgrymu pwyntiau i sefydliadau eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

Mae'r rhan canlyniadau sy'n cyd-fynd yn dangos lefel ymgysylltiad uchel gan gynulleidfa fwriadedig yr ymchwil. Mae'r cyhoeddiad yn parhau i ennill momentwm, gyda gwahoddiadau i gyflwyno'r canfyddiadau o bob cwr o'r DU.

Dull creadigol o gyflwyno'r neges

Croesawodd Paul Langley, cyn Bennaeth Datblygu Busnes prosiect Mae Eich Budd-daliadau'n Newid CHC ganfyddiadau'r adroddiad. Dywedodd: **“Yr adroddiad hwn yw'r un cyntaf o'i fath ar effaith Credyd Cynhwysol o safbwyntiau'r tenantiaid, a gynhaliwyd yn unigryw gan y tenantiaid eu hunain. Mae aelodau'r CHC wrthi'n gweithio i liniaru effaith Credyd Cynhwysol ac, er ei bod hi'n galonogol darllen y ganmoliaeth i staff cymorth gan denantiaid, mae llawer i'w ddysgu o'r ymchwil hon.”**

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae'r cyhoeddiad wedi cael ymateb cadarnhaol gyda'r sector gyda'r awduron yn cael eu gwahodd i amrywiaeth o ddigwyddiadau sector a amlinellir isod.

- Lanswyd yr ymchwil yn y Senedd dan nawdd Jane Bryant AC ac fe'i mynychwyd gan amryw denantiaid, gweithwyr proffesiynol y sector ac ACau.
- Dau fforwm CHC
- Tri ymweliad â chymdeithasau tai i drafod yr ymchwil a sut gallai fod yn berthnasol yn eu sefydliadau
- Mae dau sefydliad wedi stopio'u gwaith ail-saernio ôl-ddyledion rhent ac adennill incwm yn dilyn ymgysylltiad â'r ymchwil
- Mae'r ymchwilwyr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar fformat llythyrau'r ôl-ddyledion rhent
- Cyflwynwyd seminar fel rhan o ddigwyddiad Shelter Cymru
- Mae'r digwyddiadau canlynol wedi'u cynllunio i'r dyfodol:
 - Cyflwyniad o'r ymchwil i gynhadledd Ffederasiwn Cenedlaethol Gogledd Iwerddon
 - Presenoldeb yng nghynhadledd Shelter Cymru
 - Digwyddiad yn Nhŷ'r Cyffredin i gyflwyno'r ymchwil

Amanda Protheroe

Prif Ddarlithydd

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Ff: (029) 2020 5963

E: aprotheroe@cardiffmet.ac.uk



Diwrnod Allan MAWR

Cartrefi Conwy

Diwrnod hwyl blynyddol i denantiaid Cartrefi Conwy yw'r diwrnod allan MAWR. Ond mae mwy iddo na bod yn ddiwrnod 'hwyl'. Nod y diwrnod yw ymgysylltu gyda thros 1000 o denantiaid mewn perthynas ag amcanion busnes allweddol, ond ni fyddai'r tenantiaid yn gwybod hynny. Gweithia Cartrefi Conwy'n wirioneddol galed i wneud yn siŵr fod y tenantiaid yn cael diwrnod rhyngweithiol, cyffrous, llawn hwyl gyda'u teulu gan roi iddynt wybodaeth werthfawr i'w cefnogi.

Mae'r digwyddiad yn cynnwys anadlwyr tân, acrobataid, artistiaid awyr, rhedwyr rhydd, dawnswyr stryd, ystudfachwyr, peintwyr wyneb, gweithdai syrcas, sesiynau pêl-droed a rygbi gyda thimau uchel eu proffil, reslo, pryfetach, sioeau cerdd (a arferai cynnwys Joe Woolford a Richard ac Adam), llawer o hwyl ar ddyfeisiau gwynt, waliau dringo (mae'r rhestr yn parhau).

Ond yn ogystal â'r 'pethau hwyl' hyn i gyd, mae neges ddifrifol i'r diwrnod allan MAWR.

Mae Cartrefi Conwy'n cydlynu ystod o ryngweithiadau gyda thenantiaid. Dyma rai enghreifftiau:

- Taith gerdded o gwmpas y 'tŷ arswyd' yn llawn gwrthrychau peryglus a gasglwyd gan denantiaid dros y blynyddoedd i gael pobl i feddwl am ddiogelwch yn eu cartref.
- Cystadleuaeth hunlun gyda phobl enwog ar Facebook i annog tenantiaid i gofrestru i lleisiau @ cartrefi a dweud eu dweud wrth gynyddu nifer y dilynwyr ar Facebook.
- Codi cartref breuddwydion o ddeunyddiau sbâr i hyrwyddo datblygiadau newydd Cartrefi Conwy
- Helfeydd trysor i hyrwyddo yswiriant cynnwys.
- Rhoddion candi-fflos i annog tenantiaid i gymryd rhan yn yr arolwg bodlonrwydd tenantiaid.
- Annog tenantiaid i gofrestru i'r porth ar-lein trwy gystadleuaeth caban tynnu ffotograffau
- Cystadleuaeth celf 'blêr' i hyrwyddo diogelwch nwy.

Mae'r diwrnod allan MAWR wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd diwethaf a llynedd cymerodd bron i 1000 o denantiaid ran ar y diwrnod.

Mae gwaith cynllunio'r digwyddiad yn dechrau ym mis Ionawr bob blwyddyn ac mae grŵp cynllunio prosiect bach ond ymroddgar gyda chynrychiolwyr o bob maes o'r busnes (gan gynnwys eu prentisiaid) yn arwain ar feysydd gwaith penodol. Fodd bynnag, mae'r HOLL gydweithwyr yn torchi llewys; boed trwy anfon y gwahoddiadau at denantiaid trwy law, yn codi sbwriel ar y diwrnod, yn bresennol yn y meysydd parcio, yn gofalu am eu stondinau neu wedi'u gwisgo fel "masgotiaid" yn y digwyddiad.

Mae gwahoddiad i nifer o stondinwyr allanol i'r digwyddiad a llynedd arweiniodd hyn at 30 o sefydliadau partner yn mynychu.

Adborth a roddwyd gan y sefydliadau partner:

- **"Gwelsom fod y digwyddiad yn llwyddiannus iawn o ran ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth a rhoi adborth i ystyried y negeseuon y mae angen i ni eu cyflwyno wrth hyrwyddo digwyddiadau presennol"**
– tîm Digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- **"Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn gyda 33 o bobl yn dangos diddordeb yn y cyrsiau"**
– Grŵp Llandrillo Menai
- **"Rhyngweithiwyd gyda thros 150 o bobl"**
– SP Energy Networks
- **Cysylltwyd â 127 o deuluoedd"**
– tîm Benthycy Arian Anghyfreithlon
- **"Llwyddiannus iawn. Cysylltwyd â chyfanswm o 250 o bobl, a gwnaed rhyw 150 o fagiâu traeth. Darparwyd rhagor o wybodaeth fanwl i 27 o oedolion"** – Cymunedau yn Gyntaf
- **"Dyma'r nifer fwyaf o ymwelwyr rydym wedi'i chael i'n stondin gydag amcangyfrif o 102 o bobl yn ymweld â'n stondinau gyda'r rhan fwyaf yn holi am ein gwasanaethau"**
– Undeb Credyd

Mae'r diwrnod allan MAWR yn rhoi cyfle i ni ryngweithio ac ymgysylltu gyda'n tenantiaid mewn amgylchedd hwyliog a 'rhydd o straen'. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim (gan gynnwys cinio). Mae'n holl 'negeseuon allweddol' ar y dydd yn 'ddifrifol' (diogelwch nwy, diogelwch tân, yswiriant cynnwys, cyflwr yr eiddo, ôl-ddyledion rhent, dyled, budd-daliadau, diogelwch plant ac ati) ond cyflwynwn y negeseuon mewn ffyrdd hwyliog a rhyngweithiol.

Rydym wedi cael llawer o adborth cadarnhaol gan y tenantiaid:

"Hoffwn ddiolch i chi am ddiwrnod gwych ac i'r holl staff oedd yn bresennol, roeddent o gymorth mawr, a'r holl arddangoswyr"

"Diolch yn fawr iawn i chi am ddiwrnod rhyfeddol"

"Hoffwn ddiolch i chi gyd o waelod calon am ddiwrnod rhyfeddol ym Mharc Eirias. Rwy'n siŵr y cafodd pawb ddiwrnod wrth eu boddau. Roedd y staff a phawb a gymerodd ran i wneud i'r diwrnod ddigwydd yn wych, ac o gymorth mawr i'r tenantiaid a aeth allan ar y diwrnod allan am ddim. Unwaith eto, diolch yn fawr ar fy rhan i ac ar ran pawb a gafodd ddiwrnod hyfryd."

"Da iawn"

"Roedd yn ddiwrnod gwych a gobeithio y byddwch yn cael un blwyddyn nesaf – bydda i'n sicr o fynychu"

"Diolch i chi am ddiwrnod hyfryd. Roedd eich staff yn garedig ac yn llawn cymorth. Cawsom amser wrth ein boddau a chrëwyd argraff fawr arnom. Llonyfarchiadau am 'ddiwrnod allan' gwych a da iawn chi! :)"

Gallwch wylio uchafbwyntiau'r diwrnod allan MAWR llynedd fan hyn: <https://vimeo.com/186390320>

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae'r diwrnod allan MAWR yn uchafbwynt ar galendr digwyddiadau Cartrefi Conwy ac yn denu dros 1000 o denantiaid y flwyddyn. Mae pawb yng Nghartrefi Conwy'n 'torchi eu llewys' o wneud y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan arwain at ennill digwyddiad y flwyddyn yng Ngwobrau Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus Cartrefi Cymunedol Cymru llynedd.

Galluoga'r digwyddiad hwn i Gartrefi Conwy wir ymgysylltu â thenantiaid mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol ac mae wedi profi'n ffordd wych o gael y negeseuon allweddol i denantiaid.

Cofnododd stondinwyr (o ystod o sefydliadau partner) bron i 3000 o ymgysylltiadau effeithiol (h.y. cofrestron nhw i rywbeth neu cytunon nhw i gael rhagor o wybodaeth ac ati) gyda thenantiaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig ac mae'r galw gan sefydliadau allanol i fynychu'n cynyddu un flwyddyn ar ôl y llall.

Dewisir thema i'r digwyddiad bob blwyddyn. Yn 2016, 'Gwobrau Cartref' ydoedd i hyrwyddo cynllun cymhelliant i denantiaid newydd. Y thema eleni yw 'Ymgysylltu' a bydd y ffocws ar annog tenantiaid i gofrestru i'r Porth Tenantiaid newydd. Yn ogystal, bydd 'tŷ arswyd' cyfan er mwyn atgyfnerthu negeseuon diogelwch tân gyda thenantiaid.

Ond yn anad dim, diwrnod hwyl i'r tenantiaid yw hwn, a ddyluniwyd gan y tenantiaid. Mewn gwirionedd, trodd y tenantiaid at y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at y diwrnod gwych a gawsant.

Ewch i gael gwybod mwy fan hyn: <https://vimeo.com/186390320>



Prosiect Persona

Cymoedd i'r Arfordir

Un o brif egwyddorion Cymoedd i'r Arfordir (V2C) yw rhoi 'cwsmeriaid wrth wraidd' popeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Yr her yw gwybod pwy yw'r cwsmeriaid. Mae V2C wedi rhoi cynnig ar sawl ffordd o gadw diweddarau'r data proffilio tenantiaid ond gall hyn fod yn dasg feichus a chymryd amser.

Cred V2C ei bod hi'n hollbwysig adnabod eich cwsmeriaid: eu cefndir diwylliannol, dyheadau, anghenion, arferion a phrofiadau. Os deallwch pam y mae'ch cwsmeriaid yn gwneud yr hyn a wnânt a pha broblemau allen nhw eu hwynebu wrth ryngweithio gyda'ch gwasanaeth, mae gennych fwy o gyfle o wella profiad cyffredinol eich cwsmeriaid.

Llynedd, gweithiodd V2C gyda Satori Labs i ddatblygu Personâu Cwsmeriaid. Paratowyd y rhain gan ddefnyddio gwybodaeth a mewnwediadau a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau gyda chwsmeriaid go iawn yn eu cartrefi. Y nod oedd deall bywyd a ffordd o fyw'r cwsmeriaid a deall beth, pryd, sut a pham maen nhw'n defnyddio gwasanaethau V2C. Gwnaeth aelod o Satori Lab gyfweild yn annibynnol ag ystod o wahanol bobl o wahanol aelwydydd er mwyn dynodi'r prif grwpiau o gwsmeriaid.

Annette Hennessey

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

Cartrefi Conwy

Ff: (01745) 335506

E: annette.hennessey@cartreficonwy.org

Hyd yn oed o'r dasg hon, dysgodd V2C pa mor gyflym dyddiodd data'r tenantiaid. Yn ogystal, roedd V2C eisiau targedu'r tenantiaid hynny nad ydynt yn cymryd rhan yn y sefydliad fel rheol a chlywed eu holl safbwyntiau, boed y rheiny'n dda neu'n ddrwg.

Cynhaliwyd gweithdai i drafod beth oedd y prosiect gyda'r holl staff, trafod y gwahanol Personâu a ddynodwyd ac ystyried a oedd unrhyw 'grwpiau' eraill o gwsmeriaid i edrych iddynt. Roedd modd i'r staff gyfrannu eu profiad a chwilio am ffyrdd y gallent ddefnyddio'u Personâu yn eu maes gwasanaeth.

O'r holl wybodaeth a gasglwyd, creodd Satori Lab 8 Persona, sef cymeriadau ffuglennol a grëwyd gan ddefnyddio prif nodweddion y grwpiau cwsmeriaid mawr a ddynodwyd:

1. Amanda
2. Brenda
3. Chris
4. George
5. Jenny a Mike (a Buster y ci!)
6. Jess
7. Marta a Tomek
8. Mary a David

Nid oedd dynodi'r Personâu yn ddigon. Er mwyn gwneud yn siŵr fod y neges yn cael ei deall ac nad oedd y staff yn eu hanghofio, rhoddwyd pecyn o gardiau i'r holl aelodau staff. Mae gan bob cerdyn bersona gwahanol sy'n rhoi cefndir i'w sefyllfa, ffordd o fyw ac uchelgeisiau, yn ogystal â ffyrdd yr hoffent ymgysylltu trwyddynt, sut maen nhw'n talu eu biliau a pha mor ddigidol gynhwysol ydyn nhw.

Yn ogystal, gwnaed y Personâu yn ddarnau cardbord maint go iawn ac yn gynfasau mawr sydd wedi'u gosod o gwmpas swyddfeydd V2C fel atgof cyson i feddwl amdanynt ac am y gwasanaethau y mae V2C yn eu darparu. Mae hyn yn rhoi 'offeryn' arall i staff ei ddefnyddio wrth adolygu gwasanaethau, polisiau neu

syniadau prosiect newydd i wneud yn siŵr bod yr effaith i wahanol grwpiau o gwsmeriaid yn cael ei hystyried.

Ers i'r Personâu gael eu cyflwyno, maen nhw wedi'u defnyddio i ddiweddarau polisiau a strategaethau, megis Strategaeth Cyfranogiad y Tenantiaid yn ogystal â gwthio'r agenda ar gyfer 'Blaenraglen' V2C. Mae hon yn rhaglen waith newydd gyffrous a fydd yn cael ei chynnal dros y 18 mis nesaf – bydd yn moderneiddio'r busnes, yn gwneud V2C yn fwy effeithlon ac yn esgor ar newidiadau i'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau ac yn cyflwyno ffyrdd newydd i gwsmeriaid ymgysylltu a rhyngweithio.

Dywedodd Paul Ryall-Friend, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a noddwr Gweithredol y rhaglen, **“Bydd y Personâu a ddatblygwyd gennym yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y newidiadau a gyflwynwn yn bodloni anghenion a dewisiadau'n sail gwsmeriaid amrywiol ac yn eu galluogi i ddewis sut maen nhw am ddelio â ni. Bydd deall ein cwsmeriaid fel hyn yn ein helpu ni i ddatblygu cyfathrebiadau wedi'u teilwra a gwahanol i'r grwpiau hyn i sicrhau eu bod yn gwybod am y newidiadau hyn a beth mae'n ei olygu iddynt hwy.”**

Canlyniadau a chyflawniadau:

Nodau Prosiect Persona oedd dynodi cwsmeriaid V2C a llunio nifer o Personâu sy'n dangos gwahanol ffyrdd o fyw, uchelgeisiau a disgwyliadau cwsmeriaid i staff yn ogystal â beth mae'r cwsmeriaid yn disgwyl ei gael gan y gwasanaethau a gânt. Dosbarthwyd cardiau Persona i 150 o aelodau staff i'w defnyddio fel pecyn cymorth ac mae'r staff wedi bod yn defnyddio'r cardiau persona wrth adolygu gwasanaethau, polisiau a phrosiectau newydd. Wrth ddylunio cyfathrebiadau newydd neu adolygu prosiect, y cwestiynau a ofynnir yw 'Ydy George yn mynd i allu cymryd rhan?' neu 'A fydd Marta'n gallu deall y daflen?'

Ers hynny, defnyddiwyd y prosiect i wthio prosiectau mewnol sy'n gwneud y mwyaf o'r ffordd y mae V2C yn cyflwyno gwasanaethau ac yn cyfathrebu trwy'r Blaenraglen. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno dros y 18 mis nesaf. Fe'i defnyddiwyd hefyd i nodi meysydd allweddol y mae angen i V2C fynd i'r afael â nhw fel rhan o Strategaeth Cyfranogiad y Tenantiaid. Canlyniad pellach y prosiect oedd y pwyslais ar ddata tenantiaid a pha mor hen ydoedd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn fanylach, mae'r Panel Craffu wrthi'n ymchwilio i 'Pa mor dda mae V2C yn adnabod eu tenantiaid?'.

Bydd rhagor o ganlyniadau'n dod o'r prosiect dros y blynnyddoedd nesaf.

Joanne Thomas

Cynorthwydd Adfywio Cymunedol a Rheoli Asedau

Cymoedd i'r Arfordir

Ff: (01656) 762528

E: joanne.thomas@v2c.org.uk

CONTRACTWR SYDD Â FFOCWS AR Y GYMUNED

noddir gan:



Mae'r wobwr hon yn cydnabod contractwyr sydd wedi dangos ymrwymiad i ymgorffori buddiannau i'r gymuned yn eu rhaglenni gwaith. Byddan nhw wedi dangos creadigedd a byddant wedi cofleidio'r agenda recriwtio a hyfforddi targedig ehangach. Bydd ganddynt ystod o enghreifftiau ymarferol o sut maen nhw wedi cyflwyno amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i wella bywydau cymunedau Cymru.



Adeiladu dyfodol yn Sir y Fflint

Wates Residential gyda Chyngor Sir y Fflint, Cymunedau yn Gyntaf, Futureworks Wales

Ymgorffori Buddiannau Cymunedol: Penodwyd Wates Residential gan Gyngor Sir y Fflint yn 2015 fel partner strategol i gyflawni 500 o gartrefi mawr eu hangen ar draws y sir erbyn 2020, a adwaenir fel RhTAS - Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol. Gan gydweithio, cyd-gynhyrchoedd y sefydliadau'r 'Fframwaith Adfywio sydd nid yn unig yn gosod targedau ond sydd hefyd yn sefydlu cyfundrefn monitro ac archwilio gyfan sy'n canolbwyntio ar adfywiad i'r economi, buddiannau i'r gymuned a chyfraniad at addysg. Bob mis, cynhyrchir adroddiad sy'n rhoi manylion effaith a chanlyniadau hyd yma, gan ddangos Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

Effaith Leol: Ers i'r gwaith ddechrau ar y safle ym mis Mai 2016, mae gwerth rhyfeddol o £8.9m o werth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wedi'u creu trwy'r holl raglenni targedig a fanylir isod:

TR&T: Aeth Cyngor Sir y Fflint i gytundeb gyda Futureworks Wales, Cwmni Budd Cymunedol, i gyflwyno 'Academi Prentis ar y Cyd'. Mae'r academi wedi gwneud y mwyaf o greu sgiliau medrus y mae eu hangen dros y pum mlynedd nesaf, nid yn unig i gyflwyno rhaglen

adeiladu newydd RhTAS ond hefyd rhaglenni adnewyddu SATC. Hyd yma, mae wedi cyflogi 11 prentis.

Y llwyddiant mwyaf hyd yma fu'r Rhaglen Adeiladu Dyfodol. Cyflwynwyd y rhaglen hyfforddiant arloesol hon ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf. Recriwtiwyd 11 ymgeisydd lleol trwy fenter 'LIFT' Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu sesiynau masnach sgiliau adeiladu ymarferol i geiswyr gwaith (e.e. gwaith saer a gwaith brics) yn ogystal â gweithdai CV a chyfweld gyda Wates a'i bartneriaid cadwyn gyflenwi. Cafodd yr ymgeiswyr set lawn o offer diogelu personol a chawsant gyfle i sefyll prawf CSCS i'w helpu i ddiogelu hyfforddiant i'r dyfodol a phrofiad gwaith ar safleoedd adeiladu.

Mae Adeiladu Dyfodol (Building Futures), a lansiwyd gan Wates yn 2005, wedi'i achredu gan y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau a hyd yma, mae wedi gweld dros 1,000 o geiswyr gwaith yn cael profiad gwaith ar draws y DU.

Er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr y gael y mwyaf allan o'r Rhaglen Adeiladu Dyfodol hon, clustnododd Wates gyfleoedd i ymgeiswyr LIFT a oedd wedi ymrestru i'r rhaglen cymorth cyn y cwrs. Helpodd hyn yr ymgeiswyr i fod yn 'barod i'r gwaith' ac o'r herwydd, roedd modd iddynt gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus heb unrhyw rwystrau. Sicrhodd y gwaith o flaen llaw hwn gyda LIFT gyfradd lwyddo o 100% i'r holl ymgeiswyr.

Mae wyth o'r ymgeiswyr bellach wedi sicrhau swyddi gyda chwmnïau lleol ar ôl cwblhau. Mae'r tri unigolyn sy'n weddill yn parhau i gael cefnogaeth gan LIFT a Chymunedau yn Gyntaf Sir y Fflint i sicrhau gwaith cyflog.

"Roedd y cwrs Adeiladu Dyfodol yn wirioneddol dda i fi a llwyddais i gael rhai cymwysterau nad oeddwn i erioed yn credu y byddwn yn eu cael. Mae hyn yn golygu y gallaf nawr ddechrau'r swydd hon gyda Wates a chael rhywfaint o brofiad a fydd, gobeithio, yn arwain at fwy o gyfleoedd i mi yn y dyfodol. Heb y cyfle hwn trwy LIFT a Chymunedau yn Gyntaf, ni fyddai hyn byth wedi digwydd ac maen nhw yno o hyd i gefnogi, sy'n wych".

Richard Morgan, Ymgeisydd Adeiladu Dyfodol

Bu'r rhaglen yn gymaint o lwyddiant wrth gael pobl leol ddi-waith tymor hir yn ôl i gyflogaeth, ariannodd Llywodraeth Cymru ail raglen trwy LIFT a Chymunedau yn Gyntaf.

Bod o fantais i economi Cymru: Prif gymhellwr oedd sicrhau nad dim ond busnesau bach a chanolig eu maint lleol oedd yn elwa ar fuddsoddiad y cyngor ond microfusnesau hefyd. Gweithiodd Wates gyda thîm busnes Cyngor Sir y Fflint i greu cyfleoedd i'r microfusnesau hyn na fyddai ganddynt fel rheol yr adnoddau na'r gallu i gymryd pecynnau mwy o faint. Mae rhoi'r busnesau hyn mewn tîm gyda'n cadwyn cyflenwi busnesau bach a chanolig eu maint cyson nid yn unig wedi sicrhau gwaith iddynt ond hefyd wedi rhoi iddynt help a chyngor ar sicrhau rhagor o gyfleoedd. Hwyluswyd hyn gan Gwerthwchi Gymru a thrwy Fentrau Cymdeithasol Lleol.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Gan fod cynllun RhTAS wedi cychwyn 15 mis yn ôl, cyflawnwyd rhai canlyniadau gwych yn sgil gweithio fel partneriaeth:

- Mae 343 o bobl leol wedi elwa ar fentrau cyflogaeth a hyfforddiant trwy Adeiladu Dyfodol, prentisiaethau, cyfleoedd gwaith a chyflogaeth trwy BBaChau.
- Creu Cynllun Prentisiaethau ar y Cyd gydag 11 prentis yn cael eu cyflogi gan gynnwys creu rôl newydd a chydariannu cyflog Rheolwr Cynllun.
- Crëwyd 3,709 o wythnosau cyflogaeth i bobl leol.
- Cefnogwyd 60 o fyfyrwyr trwy weithgareddau addysg fel profiad gwaith ac ymweliadau ysgol.

- Gwariwyd £4.4m gyda BBaChau lleol.
- Gwariwyd £20,000 gyda mentrau cymdeithasol lleol.
- Rhoddwyd 4,455 o oriau gwirfoddoli gan staff Wates a Chyngor Sir y Fflint i gefnogi 20 o achosion lleol gan gynnwys ymweld ag ysgolion lleol, noddi tîm pêl-droed a menter gyfeillgar i ddementia.
- Sicrhodd 73% o ymgeiswyr Adeiladu Dyfodol gyflogaeth amser llawn wrth gwblhau
- Rhagorwyd ar y dangosyddion perfformiad allweddol contract gyda chydymffurfiaeth o 100% o feincnodau CITB.
- Cyd-gynhyrchwyd Cynlluniau Buddsoddi Cymunedol wedi'u Teilwra i bob safle unigol gan ystyried y blaenoriaethau adfywio ar gyfer pob ardal.

Yn ei hanfod, sicrhau bod pob ceiniog o'r arian a fuddsoddir mewn tai yn cael ei wario'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n cyflwyno'r budd mwyaf i bobl a'u cymunedau.

Liam Manton

Rheolwr Buddsoddiad Cymunedol

Wates Residential

Ff: (07876) 398577

E: liam.manton@wates.co.uk



Walters Terrace

Keepmoat Regeneration gyda Chymdeithas Tai Merthyr Tudful

Cymuned: mae wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Yn Keepmoat Regeneration, sy'n rhan o Grŵp ENGIE, mae cymunedau wrth wraidd gwaith y sefydliad. Â hyn y tu hwnt i frics a mortar. Mae Keepmoat yn cydnabod ei bod hi'n hynod bwysig cefnogi pobl leol a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae Keepmoat yn integreiddio'n llawn mewn cymunedau ac yn gweithio'n agos gyda thrigolion a phartneriaid i adael effaith gadarnhaol tymor hir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sefydliad wedi ymroi dros £12,000 i brosiectau cymunedol ac elusennol yn Ne Cymru.

Mae Keepmoat yn ymroi i ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol, gyda 40% o'r gweithlu yn y rhanbarth naill ai'n hyfforddeion neu'n brentisiaid.

O wasanaethau i ymweliadau safle, gweithiant gydag ysgolion a cholegau i roi gwybod iddynt am beryglon chwarae ar safleoedd adeiladu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddoniau adeiladu.

Astudiaeth Achos – Walters Terrace

Penodwyd Keepmoat Regeneration gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful i adeiladu datblygiad tai £2.5 miliwn yn Aber-fan, De Cymru.

Mae datblygiad Walters Terrace yn cynnwys 23 cartref, cymysgedd o fflatiau a chartrefi teuluol am rent fforddiadwy. Mae'r cynllun yn cynnwys saith cartref wedi'u haddasu'n arbennig i fodloni anghenion symudedd trigolion.

Yn ogystal â dod â chartrefi newydd mawr eu hangen i'r ardal, mae'r cynllun wedi galluogi Keepmoat Regeneration i ddarparu cyfleoedd gwaith/hyfforddiant i bobl leol, gan gynnwys:

- Saith prentisiaeth.
- Tri lleoliad profiad gwaith.
- Gweithdai thema adeiladu ac ymweliadau safle i ysgolion cynradd lleol.
- Rhaglen cyflogadwyedd Cyflwyniad i Adeiladu ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith a Chymdeithas Tai Merthyr Tudful a ddarparodd weithdai sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith i bobl ddi-waith tymor hir.
- Sesiynau cyfweiliadau ffug i fyfyrwyr chweched dosbarth ar y cyd â Gyrfa Cymru.

Dywedodd Lee Jones, Rheolwr Datblygu Cymunedol Cymdeithas Tai Merthyr Tudful: **“Gweithiodd Keepmoat Regeneration gyda phartneriaid i sicrhau bod lleoliadau gwaith ar y cwrs ‘Rhagarweiniad i Adeiladu’ yn llwyddiant mawr. Arweiniodd hyn at aelodau cymunedol yn cael cymwysterau, hyder a chyflogaeth amser llawn. Yn ogystal, trefnon nhw sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch a chreon nhw westy pryfed gydag aelodau’n grŵp ieuencid i’w cynorthwyo i ehangu ar eu rhaglen cynnwys y gymuned. Rhagorodd y rhaglen digwyddiadau cymunedol a hwyluswyd gan Keepmoat Regeneration ddisgwyliadau’r gymdeithas tai; maen nhw’n glod i’r byd adeiladu.”**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Keepmoat Regeneration wedi ymroi dros 1400 o oriau dyn i brosiectau cymunedol/elusennol yn ne Cymru, gan gynnwys:

- Ymgysylltiad gyda thros 20 o ysgolion i ddarparu dros 200 o sesiynau sy’n cynnwys; cyflwyniadau a chystadlaethau iechyd a diogelwch, adeiladu gwestai pryfed i dynnu sylw at faterion amgylcheddol, plannu bylbiau a dylunio prosiectau gan gynnwys gweithgareddau peintio wyau Pasg a sesiynau STEM ar y cyd â Chanolfan Addysg Eden gan ddefnyddio LEGO.
- Noddwyd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful trwy roi wyth sosban araf (slow cooker) i’w dosbarthiadau coginio.
- Mynychwyd dros 40 o ffeiriau gyrfaedd i addysgu’r myfyrwyr am eu gyrfaedd mewn adeiladu.
- Ar y cyd â’r dosbarth Busnes, sy’n rhan o Gyrfa Cymru, cydweithredodd Keepmoat gyda Blackwood School tros gyfnod o dair blynedd, i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu ag ysgolion i’r ysgol gyfan, gan gynnwys prosiect dylunio a gweithdai cyflogadwyedd.
- Yn ogystal, cymerodd y staff gymwysterau ychwanegol i fod yn Llysgenhadon Pont ICE a chynhaliwyd sesiynau yn Ysgol Gynradd Penllwyn i godi pont 12 troedfedd i hyrwyddo gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu.

- Yn ogystal, mae staff wedi codi arian i sawl elusen dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys yr elusen ddigartrefedd The Wallich a’r elusen trais domestig Hafan Cymru, yn ogystal â’r elusen gorfforaethol enwebedig yn 2017 – Canolfan Ganser Felindre. Cymerodd y staff ran a threfnu gweithgareddau i’r elusennau hyn gan gynnwys; diwrnod golff, nennblymio, ciniawau codi arian, a chynnal dawns fasnau. Cododd y tîm swm sylweddol o £35,000 i elusennau dros y blynyddoedd diwethaf.

Canlyniadau a chyflawniadau:

- Mae rhyw 40% o weithlu Keepmoat yn ne Cymru’n cynnwys prentisiaid a hyfforddeion.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd dros 1400 o oriau llaw dyn i brosiectau cymunedol ac elusennol. Treulia staff amser y tu allan i’r gwaith a defnyddiant ddiwrnodau gwirfoddoli i roi’n ôl i’r gymuned hefyd.
- Mae gwerth cyfraniad CSR Keepmoat yn ne Cymru am y flwyddyn yn fwy na £12,000.
- Coladwyd adborth o’r ysgolion/colegau y mae Keepmoat yn gweithio gyda nhw a saif y sgôr bodlonrwydd ar 99% ar hyn o bryd.
- Daeth sylwadau cadarnhaol i law hefyd: **“Roedd y sgwrs iechyd a diogelwch a’r sesiwn gwesty pryfed yn llwyddiant ysgubol o ran darparu pryfociaid ar gyfer dysgu a hwy! Pan ofynnwyd y plant ynghylch beth hoffon nhw fod pan fyddan nhw’n hŷn, roedd pedwar o’r plant am fod yn adeiladwyr; gan adeiladu amrywiaeth o bethau o dai i angenfilod sy’n stompio o gwmpas y lle, gan ddangos bod y sesiynau wedi bod yn ysbrydoledig hefyd.”** – Pennaeth yn Ysgol Gynradd a Meithrin Westfield
- Enillodd un myfyriwr profiad gwaith swydd hyfforddai gyda ni. Yn ogystal, enillodd hi’r Wobr Dysgwr Ymgysylltu â Hyfforddeiaeth y Flwyddyn yn y People Plus Awards.
- Mae dros 1000 o fyfyrwyr o ysgolion sy’n lleol i ble mae Keepmoat yn datblygu cartrefi bellach yn ymwybodol o beryglon safleoedd adeiladu.
- Cododd y tîm £35,000 i elusennau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Charlie Hargreaves

Rheolwr Buddsoddi Cymunedol

Keepmoat Regeneration

Ff: (07970) 740052

E: charlie.hargreaves@keepmoatregen.com



The Mill

Lovell gyda Chymdeithas Tai Tirion a Cadwyn

Pedwar congflaen ymrwymiad Lovell i fuddiannau cymunedol cynaliadwy yw cymuned, addysg, cyflogaeth a chynaliadwyedd. Ynghyd â'r partneriaid Tirion a Cadwyn, mae Lovell yn datblygu un o raglenni adfywio trefol mwyaf erioed Cymru yn The Mill, Treganna gydag 800 o gartrefi newydd. Â'r datblygiad i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy oherwydd bydd hanner y cartrefi'n destun gostyngiad mewn rhent a rhent cymdeithasol a reolir gan Cadwyn ar gyfer Grŵp Tirion, tra bydd y cartrefi sy'n weddill ar gael i'w gwerthu yn y farchnad agored trwy Lovell.

Mae Lovell wedi sefydlu 'Grŵp Cyflogaeth a Hyfforddiant The Mill' gyda chynrychiolwyr The Prince's Trust, Grŵp Tirion, Tai Cadwyn, Cymunedau yn Gyntaf, Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, CITB, Construction Trust, Y Prentis, y Bartneriaeth Gyrfaoedd a Thrawsnewid i Gyn Aelodau'r Lluoedd. Darpara'r grŵp hwn ddull cydlynol o gyflwyno cynllun cyflogaeth a sgiliau ac sy'n sicrhau y cyflwynir yr ymyriadau iawn ar yr adeg iawn.

Mae'r prosiectau cymunedol a gyflwynwyd hyd yma'n cynnwys rhaglen 'Get Into Construction' llwyddiannus The Prince's Trust. Rhoddodd y cwrs dwys tair wythnos o hyd gyfle i 16 o bobl leol ddi-waith 18-25 oed wella'u rhagolygon cyflogadwyedd. Cynigiodd Lovell sgiliau cyffredinol oedd yn cynnwys cyfweiliadau ac ysgrifennu CV ynghyd â sgiliau penodol i adeiladu trwy samplu'r amryw greffttau sydd eu heisiau yn safle The Mill, eu helpu i gael cardiau CSCS a chwblhau Lefel 1 Iechyd a Diogelwch, Cymorth Gyntaf a Thrafod â Llaw. Ar ôl i'r rhaglen orffen, cawsant eu cyfweld am swyddi a chyfleoedd am hyfforddiant.

Fel rhan o ymrwymiad Lovell i addysg, cymerodd y sefydliad ran yn 'wythnos Agorwch eich Llygaid i Yrfaoedd' Cyngor Caerdydd, lle cafodd ddisgyblion o ysgolion cynradd lleol, Radnor Road, Landsdown, Severn Road a Kitchener sgyrsiau am y sector adeiladu. Yn

Ysgol Gymraeg Treganna ar Heol y Feddygfa, crëwyd sied feiciau er mwyn storio holl feiciau'r ysgol yn ddiogel, rhoddwyd tarmac ar rodfa newydd er diogelwch rhieni a gwarcheidwaid wrth iddynt gasglu eu plant a heriwyd y disgyblion gyda phrosiect i enwi un o'r strydoedd ar y datblygiad - yn sicr, cafodd Lovell enwau llawn dychymyg! Ynghyd â busnesau lleol eraill, rhoddodd Lovell wobrau raffl fel talebau Amazon a chefnogwyd y CRhA trwy gymryd rhan yn eu diwrnod golff i godi arian am fws mini'r ysgol, a arweiniodd at elw o dros £900. Mae Bernie, Cydlynnydd Cyswllt Cymunedol Lovell wedi bod yn brysur yn ymweld ag ysgolion uwchradd, yn Fitzalan lle cymerodd y myfyrwyr ran yn 'Her Adeiladu Tŷ Lovell' a gwnaed trefniadau i fyfyrwyr o Dreganna ymweld â safle The Mill.

Mae Lovell yn mwynhau cymryd rhan yn y gymuned, gan ddod â bywyd newydd i'r ystafelloedd newid ym Mharc y Jiwbilí yn Nhhreganna sy'n anniogel ac yn amhosibl eu defnyddio. Byddant yn barod i dimau chwaraeon lleol o bob oedran eu defnyddio ar hyd y tymor. Yn ogystal, mae Lovell wedi cefnogi gŵyl Caerai a Threlái, wedi cymryd rhan ym 'Menter Rhoi ac Ennill' lle mae 5 aelod o staff wedi gwirfoddoli fel dyfarnwyr yng ngŵyl rygbi tag blynyddol Gleision Caerdydd a chodwyd dros £1400 i Ymchwil Canser Cymru yng Ngŵyl Gychod Dreigiau Caerdydd.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Lovell ei 24ain diwrnod golff elusennol yn olynol yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd a chodwyd £7250 i'r elusennau Shelter Cymru ac Ymchwil Canser Cymru. Yn ogystal, codwyd ymwybyddiaeth ac arian i Canser y Fron Cymru trwy gynnal digwyddiad te prynhawn yn swyddfa Lovell.

Yn natblygiad The Mill, mae Lovell yn ymroi i gefnogi economi Cymru trwy annog contractwyr lleol i ddod yn rhan o gadwyn gyflenwi'r sefydliad. Cynhaliwyd digwyddiad cadwyn gyflenwi yn Stadiwm Dinas Caerdydd, lle mynychodd dros 150 o bobl ac mae nifer o gwmnïau lleol wedi'u hychwanegu at gadwyn gyflenwi Lovell a bellach yn gweithio i The Mill.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Lovell yn ymroi i adael 'Gwaddol Lovell' trwy bob datblygiad. Dros y 12 mis diwethaf yn The Mill, cyflawnwyd hyn trwy:

- Ddarparu 58 wythnos o brofiad gwaith.
- Sicrhau bod 61% o'r cyfanswm gwariant sy'n gyfwerth â £886,516.33 wedi'i sicrhau gyda chwmnïau Cymru.
- Ymweld â 7 ysgol o fewn radiws o 2 filltir i safle The Mill.
- Siarad â thros 500 o blant ysgol lleol.
- Creu swydd i'r Rheolwr Safle Graddedig 21 oed, Jac Evans, sy'n byw yn lleol ym Mae Caerdydd ac a gafodd ei ddirchafu'n ddiweddar i Reolwr Safle Cynorthwyol.

- Darparu 16 lle ar y rhaglen 'Dechrau Adeiladu'. Mae 13 mynychwr wedi cwblhau'r rhaglen a byddant yn cael eu mentora am chwe mis arall i'w helpu i wneud y mwyaf o'r profiad. Mae 3 hyfforddai wedi dechrau rolau gydag isgontractwyr Lovell. Mae Kayleigh Nasir, 22 oed ac un o bedair merch sy'n hyfforddai wedi sicrhau rôl gydag arbenigwr plastro a leinin sych lleol - NTJ Plasterers Ltd. Sicrhaodd Lizzie Williams swydd yn uniongyrchol gyda Lovell yn gweithio fel saer prentis yn The Mill. Yn dilyn llwyddiant y rhaglen, penderfynodd Lovell redeg y rhaglen unwaith eto y flwyddyn nesaf.

Gemma Clissett

Cyfarwyddwyr Partneriaethau Rhanbarthol

Lovell

Ff: (07816) 138239

E: gemma.clissett@lovell.co.uk



Ymgyrch yn ôl i'r gymuned

Morganstone Limited

Mae Morganstone, a sefydlwyd yn 2008, yn BBaCh Cymraeg ac yn Gyflogwr Cyflog Byw gyda swyddfeydd yn Llanelli a Chaerdydd. Cydweithreda Morganstone yn agos gyda chymdeithasau tai ledled Cymru i ddatblygu ystod o ddewisiadau tai ar draws Cymru i ddatblygu ystod o ddewisiadau tai sy'n bodloni anghenion cymunedau lleol. Mae gadael gwaddol a chyflawni buddiannau cyffyrddadwy i'r gymuned leol yn ffocws allweddol i'r cwmni ac yn eistedd wrth wraidd pob datblygiad. Ymgorfforir y dull hwn ym Mholisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol Morganstone ac mae'n dylanwadu ar bob gweithgaredd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r effaith a'r cyrhaeddiad ar draws Cymru mewn cymunedau lleol wedi bod yn eang eu hystod gyda chynlluniau tai'n cael eu datblygu ar y cyd â nifer fawr o gymdeithasau tai ledled Cymru gan gynnwys Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd, Linc Cymru, Pobl (Charter, Seren a Gwalia), Trivallis, Cymdeithas Tai Rhondda, Coastal Housing Group, Tai Wales and West Housing a Chymdeithas Tai Sir Benfro.

Cred Morganstone fod hyrwyddo cyfleoedd am hyfforddiant, cyflogaeth a chadwyn gyflenwi yng Nghymru'n cynnig cyfleoedd gwaith ac yn cefnogi'r economi leol yn y cymunedau y mae'r sefydliad yn gweithio ynddynt; wrth gael y fantais ychwanegol o gefnogi economi Cymru. Mae Morganstone wedi parhau i weithio'n agos gyda Cyfle ac Y Prentis i

gynyddu nifer y prentisiaid o 37 i 59 o gymunedau ar hyd a lled Cymru a'r gweithlu a gyflogir yn uniongyrchol o 85 i 120 o fewn Cymru gan gynnwys cyflogi 6 swydd hyfforddai a graddedig newydd. Mae Morganstone wedi gweithio'n agos gyda swyddfeydd cyflogaeth leol fel LIFT, Gweithffyrdd, Princes Trust a Coastal Housing ac wedi cynnig profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i bobl sydd wedi bod yn ddiwaith yn flaenorol. Caiff isgontractwyr a chadwyni cyflenwi eu chwilio'n weithgar o'r cymunedau y gweithiant gyda nhw sydd wedi arwain at roi buddsoddiad o 100% yn ôl i BBaChau Cymru.

Yn 2015, datblygodd Morganstone raglen Byd Addysg Gwaith sy'n hyrwyddo rolau a chyfleoedd eang ac amrywiol yn y diwydiant adeiladu gyda ffocws clir ar gyflwyno'r ymgyrch hon yn y cymunedau o amgylch eu datblygiadau. Ystyrir bod y rhaglen hon yn allweddol i gefnogi targed Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru erbyn 2021 ac yn hollbwysig i helpu gwrthdroi'r prinder sgiliau presennol a'r prinderau pellach a ragwelir yn niwydiant adeiladu Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd datblygiad parhaus o'r Rhaglen Addysg Byd Gwaith a chydweithredu gydag ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, colegau, prifysgolion a swyddfeydd gwaith yng Nghymru sydd wedi cyflwyno ystod eang o ddigwyddiadau gan gynnwys: sgysiau diogelwch mewn ysgolion cynradd, digwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion cynradd, diwrnodau 'Byd Gwaith', digwyddiadau menywod mewn adeiladu, ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau meithrin tîm a magu hyder, teithiau a chyflwyniadau ar y safle a darparwyd ystod o gyfleoedd profiad gwaith. Ym mis Ionawr 2017, datblygwyd llyfryn gyrfaoedd ac ymgyrch hysbysebu ar fyrddau poster a ddatblygwyd ar draws safleoedd gan ganolbwyntio ar hybu cyfleoedd mewn adeiladu, yn enwedig i fenywod ar draws Cymru.

Gweithia Morganstone yn agos gyda phartneriaid y gymuned leol a'r gymdeithas tai cyn ac yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae gan bob prosiect ei "dudalen we gymunedol" ei hun sy'n galluogi cymunedau i gael diweddariadau cyson yn ogystal â diwrnodau agored, holiaduron adborth, cylchlythyrau, postio llythyrau'n draddodiadol a hysbysfyrddau cymunedol.

Gweithreda'r sefydliad ddull 'llawr gwlad' o ymgysylltu â'r gymuned gyda strategaethau cymunedol wedi'u teulwra ar gyfer pob datblygiad sy'n canolbwyntio ar anghenion y cymunedau lleol a rhanddeiliaid amryfal e.e. Wales Action Week, Age Cymru, Prostate Cymru, Hosbis Tŷ Olwen, Chwaraeon Anabledd, Ymchwil Canser Cymru, Clwb Rygbi Treforys, Llamau, Cronfeydd Bwyd Cymru, Clwb Criced Sir Benfro.

Yn 2016-17, ochr yn ochr â'r mentrau hyfforddiant ac addysg, trefnodd Morganstone ystod o brosiectau cymunedol tebyg i brosiectau DIY SOS, digwyddiadau gosod brics Cwmnïau Tai Cydweithredol, Ymwbyddiaeth Prostate Cymru, Sesiynau Bwyta'n Iach, Ymwbyddiaeth Iechyd Meddwl, diwrnodau agored mewn safleoedd, diwrnodau 'rhoi a chael', diwrnodau hwyl i'r teulu, ymweliadau Nadolig a'r Pasg ag ysbytai plant, adeiladu gwestai pryfed a digwyddiadau chwaraeon gyda'r nod o gefnogi cymunedau lleol. Arweiniodd y dull rhagweithiol hwn o gyrraedd cymunedau lleol at gynnydd mewn buddsoddiad cymunedol o ran nawdd cymunedol, cyfraniadau elusennol, llafur mewn da a nwyddau o £56,477 (2015-16) i £91,663 (2016-17).

Canlyniadau a chyflawniadau:

- Buddsoddiad o £48,240,730 yn economi Cymru
- Lluosydd lleol Cymru o £1.98
- BBaChau Cymru – cyfraniad o 100%
- 900 o oriau llafur mewn da
- £28,865 o lafur mewn da/rhoddion mewn nwyddau
- £62,798 o gyfraniadau a rhoddion i sefydliadau Cymru
- 3 phrosiect 'rhoi ac ennill'
- Rhaglen addysg 'Byd Gwaith' – 29 ysgol, datblygwyd digwyddiadau gyrfaedd ac adeiladu ac ymgyrch hysbysebu gyrfaedd
- Digwyddiadau cymunedol – 31
- 2 ddigwyddiad cadwyn gyflenwi lleol – fe'i mynychwyd gan dros 300 o gyflenwyr newydd o Gymru
- 59 prentis
- 946 o wythnosau prentis
- Cyflogwyd 6 hyfforddai
- 94 wythnos hyfforddai
- 17 o leoliadau profiad gwaith
- Rhoddwyd swyddi cyflogaeth i 6 o bobl ddiwaith e.e. Lift
- Datblygu Prentis Technegol ar y Cyd ac Ymadawyr Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog

Rhaglenni

- Hyfforddiant – 593 o ddiwrnodau hyfforddi
- Sgôr gyfartalog CCS y cwmni – 41; Gwobr Efydd, Imble Lane, PHA
- 100% o fusnes mynych ac adborth gwych gan gleientiaid sy'n sicrhau buddsoddiad parhaus mewn cymunedau lleol a gweithlu adeiladu Cymru e.e.

"Gydag adnoddau ymroddedig, prin mewn sefydliad o'r maint hwn, mae Morganstone wedi rhoi'r gymuned gan gynnwys, ei thrigolion, ei busnesau a'i hysgolion, wrth wraidd pob prosiect maen nhw wedi ymgymryd ag ef. Mae'r sefydliad wedi mynd y tu hwnt i gydymffurfio â gofynion buddiannau cymunedol ac wedi ymddwyn fel partner go iawn wrth gyflwyno cynlluniau a phrosiectau gan fod o fantais i nifer fawr o rannau o'r gymuned ar hyd cyflawniad ein prosiectau. Timau safle Morganstone yw'r cymdogion mwyaf ystyriol ac maen nhw'n ymgysylltu'n weithgar gyda'r gymuned." - Clare Watkins, Swyddog T,R&T, Coastal Housing Group

Antonia John

Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned

Morganstone

Ff: (07983) 214295

E: antonia.john@morganstone.co.uk

GWOBR RHAGORIAETH CWSMERIAID

Mae'r wobwr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n cymhell dulliau gwych o droi at wasanaethau cwsmeriaid sy'n gallu dangos lefelau bodlonrwydd uchel i'r gwasanaeth a gyflawnwyd. Dangosant ymgysylltiad y gweithwyr mewn gwasanaeth cwsmeriaid, a dangosant welliannau ar draws y busnes.



Newid, ymgysylltu, gwella Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

Mae Tai Dewis Cyntaf yn darparu tai â chymorth i bobl ddiarffwrdd sy'n eu galluogi i fyw yn annibynnol yn y gymuned. Fe'i sefydlwyd ym 1988 i ddechrau er mwyn darparu tai i bobl gydag anableddau dysgu sy'n ailgartrefu o sefydliadau arhosiad hir, mae'r sefydliad wedi galluogi unigolion i fyw yn annibynnol fel aelodau gwerthfawr yn eu cymuned leol. Ers hynny, mae Dewis Cyntaf wedi arallgyfeirio a bellach yn darparu tai i ystod llawer ehangach o denantiaid gan gynnwys anaf a gafwyd i'r ymennydd, anableddau corfforol a chyn-filwyr y gallai fod arnynt angen cefnogaeth wrth adael y Lluoedd Arfog. Mae eu hangerdd a'u gwerthoedd i ddarparu tai arbenigol ar gyfer y rhai mwyaf diardiffryn yn cymhell y sefydliad i chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella safonau a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl. Mae ymgysylltiad a sail gwerthoedd cryf y tîm wedi'u harwain i gael un o'r lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid uchaf ar draws y wlad.

Deunaw mis yn ôl, datblygodd Dewis Cyntaf strategaeth i uno'r gwasanaethau tai, cynnal a chadw a gweinyddol i ffurfio tîm gwasanaethau cwsmeriaid. Y nod oedd cynyddu bodlonrwydd y cwsmeriaid gydag atgyweiriadau, lleihau amserau aros, darparu swyddogaeth rheoli tai mwy ymatebol a mwy o ymgysylltiad rhwng tenantiaid a staff.

Nid oedd y prosiect heb ei heriau, ac roedd hi'n anodd cyfuno rolau mor amrywiol mewn un tîm, ond mae pob aelod o'r tîm yn angerddol am y gwasanaethau a ddarparant ac yn gysylltiedig â gweithrediad y prosiect i sicrhau y datblygwyd y gwasanaethau ymhellach.

Darparwyd hyfforddiant helaeth i uwchsgilio'r tîm a chynhaliwyd diwrnodau datblygu i gefnogi'r gwahanol bersonoliaethau a chodi hunanymwbyddiaeth.

Gan ystyried adborth y tenantiaid, cyflwynodd Dewis Cyntaf system apwyntiadau atgyweirio. Galluogodd y system hon i denantiaid gael apwyntiadau mwy cyfleus ac mae wedi arwain at leihau'r amser apwyntiadau cyfartalog yn ddramatig. Dilynir pob atgyweiriad gyda galwad ffôn i gadarnhau bodlonrwydd ac mae'r dull hwn wedi arwain at fwy o ymgysylltiad rhwng y gymdeithas a'r tenantiaid.

Ochr yn ochr â hyn, diweddarodd Dewis Cyntaf ei gynghorau tenantiaid yn radical i Glybiau Ivor Voice a newidion nhw eu cyfathrebiadau gyda thenantiaid trwy weithio ochr yn ochr â nhw i gyflwyno'u cylchlythyr eu hunain y maen nhw'n berchen arno ac sy'n cynnwys yn bennaf eu straeon nhw a'r pethau sy'n bwysig iddynt fel tenant Dewis Cyntaf.

Gwnaed nifer o newidiadau i'r gweithdrefnau a awgrymwyd ac a weithredwyd gan y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid eu hunain gydag ychydig gyfarwyddyd gan aelodau uwch, sydd wedi arwain at arbedion cost, arbedion effeithlonrwydd a gwell mesurau - pob un wedi cael effaith gadarnhaol ar y sefydliad ac yn fwy pwysig ar y tenantiaid. Mae'r tîm wedi sefydlu systemau monitro ar gyfer cytundebau tenantiaeth i sicrhau bod pob cam o denantiaeth newydd yn gynhwysfawr sydd wedi gweld cynnydd yn y data cydraddoldeb a ddelir sydd bellach yn 100%. Mae hyn yn ein galluogi ni i deilwra gwasanaethau i amrywiaeth o denantiaid. Gan fod y tîm yn cwmpasu ystod mor amrywiol o swyddogaethau, dechreuon nhw ddefnyddio system rheoli tasgau er mwyn sicrhau y cwblheir pob tasg ar amser. Trwy eu parodrwydd i wella gwasanaethau'n barhaus, mae ganddynt feysydd targedig ar gyfer gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd ac mae hyn yn cynnwys gweinyddu asesiadau risg tân, dyledwyr oedrannus ac ôl-ddyledion rhent.

Mae'r tîm wedi dechrau e-ffeilio mewn ymgais i fod yn ddibapur a fydd unwaith eto'n creu arbedion effeithlonrwydd pellach ac yn galluogi'r sefydliad i gydymffurfio â deddfwriaeth fel Diogelu Data yn fwy effeithlon. Wrth wneud y newidiadau hyn, mae'r tîm wedi parhau'n gadarnhaol ac yn gysylltiedig ac wedi gweld cynnydd ym modlonrwydd y gweithwyr.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae gwelliannau a wnaed yn y tîm gwasanaethau cwsmeriaid wedi arwain at gynnydd mewn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r tîm wedi rhagori wrth weithredu a dilyn i fyny ar atgyweiriadau y gellir ailgodi amdanynt ac wedi cyrraedd llwyddiant wrth adennill 89% o'r atgyweiriadau y gellir ailgodi amdanynt. Mae cynnydd mewn ymgysylltiad wedi arwain at ôl-ddyledion rhent isel sef 0.55% o'r rhent y gellir ei gael. Mae gan y sefydliad gwynion agored o sero ac yn sgil dilyn i fyny'r holl gwsmeriaid i raddio'u lefelau bodlonrwydd, maen nhw wedi cyrraedd adborth o 91% o'r rhai sy'n cael gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi hyder i Dewis Cyntaf fod eu dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u dilysu. Dengys eu hystadegau diweddaraf

- Fodlonrwydd o 100% gyda'u safonau gwasanaeth
- Cadw 99% o apwyntiadau ar amser
- 98% wedi'u cwblhau i safon uchel
- 99% yn fodlon gyda'r contractwr
- Targed o 100% i gwblhau galwadau mewn argyfwng

Mae tystiolaeth gref i gefnogi cyflawniadau'r tîm, ers ei gychwyn mae'r meysydd canlynol wedi cynyddu mewn perfformiad

- mae bodlonrwydd mewn cyfathrebiadau wedi codi o 85%-96%
- mae bodlonrwydd mewn gwasanaethau cyffredinol wedi codi o 91% i 99%
- cododd teimladau'r cwsmeriaid fod y gymdeithas tai yn landlord da o 92% i 99%

Bu'r tîm yn hynod lwyddiannus wrth roi anghenion y tenantiaid wrth wraidd y gwaith a wnânt, sydd wedi gweld yr ystadegau perfformio uchaf yn eu cyfnod cofnodi.

Donna Lloyd-Williams

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

Ff: (029) 2071 3762

E: donnalloyd-williams@fcha.org.uk



Together we can – tîm cysylltu â chwsmeriaid

Cartrefi Melin

Mae Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid Cartrefi Melin yn cynnwys 13 o ymgynghorwyr profiadol, sy'n ymroi i ddarparu rhagoriaeth gwasanaethau cwsmeriaid i dros 4000 o gartrefi, gan sicrhau bod y cwsmeriaid wrth wraidd cyflwyno gwasanaethau a newid penderfyniadau. Gan ganolbwyntio ar daith y cwsmer, nid yn unig trwy fodloni disgwyliadau ond rhagori arnynt. Mae amgylchiadau'r cwsmeriaid yn unigryw, ac mae Melin yn teilwra gwasanaethau i'w cefnogi.

Cafodd Cartrefi Melin rywfaint o adborth tîm rhagorol, gan ddangos ymgysylltiad tîm mewn gwasanaethau cwsmeriaid.

Ymhlith y sylwadau diweddar:

“Roeddech yn llawn cymorth a dealltwriaeth”

“Bob tro roeddwn i'n cysylltu â Melin, roeddwn i'n cael gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol bob tro, diolch”

“Mae'r staff ym Melin yn gyfeillgar bob amser ac yn hynod effeithlon a llawn cymorth”

Wrth graidd y sefydliad mae'r ethos 'gwneud y peth iawn i'n trigolion'. Mae'r tîm yn ymroi i ddarparu ateb i gwsmeriaid yn ystod cyswllt cychwynnol, gan wneud beth bynnag y mae ei angen i ddatrys yr ymholiad, mae grymuso staff wedi bod yn hollbwysig, gan sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant, systemau a mynediad cywir i atgyfeiriadau am wybodaeth/cefnogaeth.

Wrth i dlodi gyrraedd anterth, felly hefyd y mae cyswllt ymddygiadau humanleiddiol. Trwy dynnu rhwystrau, siarad yn agored â thrigolion a thynnu'r stigmâu sydd ynghlwm ymaith, mae'r tîm wedi achub bywydau. O sicrhau bod y rhai mwyaf diamddiffyn yn cael eu blaenoriaethu a'u diogelu, gweithia Melin yn agos gyda'i dimau mewnol i sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu dwysáu ac y rhoddir cefnogaeth.

Mae Melin yn deall bod anghenion y trigolion yn newid o ddydd i ddydd. Gan weithio gyda grwpiau o drigolion a staff, maen nhw wedi nodi rhai meysydd pellach lle gellir gwneud gwelliannau i wella taith y cwsmer.

Gyda'r newidiadau i ddiwygio lles yn prysur agosáu, gweithiodd y sefydliad gydag Incwm a Chynhwysiant i wella'r prosesau ar gyfer delio ag ymholiadau rhent, gan gynnwys sefydlu trefniadau i dalu ôl-ddyledion, tasg oedd yn perthyn i'r Swyddogion Incwm. Yn dilyn hyfforddiant, mae'r Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid yn cyflwyno trefniadau i dalu ar sail y cyntaf i'r felin, nid oes rhaid i drigolion aros mwyach am alwad yn ôl, ac mae'r tîm yn lleddfu pryderon yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent, rhywbeth y gwyddwn ei fod yn broblem i drigolion.

Mae Melin yn ymfalchïo yn ei gariad i wneud y peth iawn. Credant eu bod yn chwarae rôl hollbwysig wrth helpu trigolion i greu a chynnal cartref. Defnyddiant ymatebion i arolygon bodlonrwydd i gadw i fyny gyda safbwyntiau eu cwsmeriaid, mae'r Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid yn ymchwilio ac yn defnyddio'r adborth i ffurfio'r gwasanaethau ar sail anghenion y trigolion. Mae rhai o'r rhain wedi cynnwys:

- Cynyddu/gwella sianelau cyswllt i drigolion, gan gynnwys Facebook, sgwrsio byw, ffôn/testun, e-bost a gwefan
- Gan ddeall bod atgyweiriadau'n bwysig i drigolion, mae Melin wedi gwneud nifer o welliannau i'r gwasanaethau hyn, ac yn ddiweddar datblygwyd ap 'Snap It Send It' a fydd yn galluogi'r trigolion i roi gwybod am atgyweiriadau (gyda lluniau), gan symleiddio'r broses.
- Cynnig/trefnu apwyntiadau atgyweirio y tu allan i oriau gwaith arferol gan gynnwys y penwythnosau i gefnogi trigolion sy'n methu bod ar gael trwy'r wythnos.
- Yn dilyn peilot llynedd, mae Melin yn cynnal noson agored hwyr bob yn ail wythnos er mwyn i'r trigolion allu cysylltu â'r sefydliad a siarad ag ymgynghorydd.

Mae Melin yn deall er mwyn darparu gwasanaethau i'r safonau y mae ar ein trigolion eu hangen, rhaid wrth gydweithredu effeithiol ac effeithlon. Mae gan y "sefydliad" berthynas wych gyda'r timau sy'n eu galluogi i ddefnyddio staff lle bo angen er mwyn datrys problemau. Yn ddiweddar, maen nhw wedi cymryd perchnogaeth o wasanaeth y tu allan i oriau Melin, gan sicrhau gwasanaethau di-dor i drigolion 24 awr y dydd.

Ac nid yw pethau'n stopio yn y fan honno, mae ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig i'r tîm, yn eu hamser hamdden mae aelodau'r tîm yn gwirfoddoli mewn lloches leol i'r digartref yn darparu bwyd, diod a chlust cyfeillgar i'r sawl sydd eu hangen. Gyda'u profiad mewn tai, gallant gynnig cefnogaeth ac arweiniad o gwmpas materion tai.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Melin wedi gweld cyflawniadau mewn nifer o feysydd ar draws y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid, yn eu plith:

Mae'r ymholiadau yr ymdrinnir â nhw ar sail ateb y galwadau cyntaf wedi cynyddu i anterth; yn 2014, roedd hyn tua 47%, mae hwn bellach dros 85%.

Gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent; mae hyn bellach yn 1.2%, mae Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid yn chwarae rôl allweddol wrth gasglu ôl-ddyledion rhent, gan roi'r gallu i Swyddogion Incwm ganolbwyntio ar yr achosion anodd i gyrraedd hynny a chwblhau mwy o weithgareddau wyneb yn wyneb gyda thrigolion.

Am y tro cyntaf ers i Melin gofnodi data, gwelodd y "sefydliad" ostyngiad mewn galwadau a chynnydd mewn sianelau cyswllt eraill sy'n gyfwerth â thros 30% o ryngweithiadau.

Cafwyd cynnydd mewn lefelau bodlonrwydd ar draws yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â'r Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid, dyma nhw:

- Holwyd y trigolion ynghylch pa mor fodlon oedden nhw â gallu'r staff i ddelio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithlon, mae hyn yn gyson dros 80%, rhywbeth y bydd Melin yn parhau i wella.
- Rhoddwyd y dasg i'r tîm ateb galwadau ymhen 15 eiliad, mae eu dangosydd perfformiad allweddol wedi'i osod ar 92% a chyflawnir neu ragorir ar hyn yn gyson, mae'r adroddiad diweddaraf yn dangos bod y sefydliad ar 97%.

Rhiannon Elston

Rheolwr Tîm Cysylltu â Chwsmeriaid

Cartrefi Melin

Ff: (01495) 745910

E: rhiannon.elston@melinhomes.co.uk



Mi-space (UK) Ltd

Gweithio ar ran Tai Tarian

Ym mis Mawrth 2017, cwblhaodd Mi-space contract Ailweirio Trydanol pedair blynedd i Dai Tarian (a adwaenwyd yn flaenorol fel Cartrefi NPT). Roedd y prosiect yr ail un o ddwy fenter cynnal a chadw cynlluniedig graddfa fawr a gynhaliwyd gan Mi-space ar ran Tai Tarian, y prosiect arall oedd prosiect adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Roedd y prosiect ailweirio a cheginau ac ystafelloedd ymolchi'n gysylltiedig â chartrefi oedd yn cael eu preswyllo a olygai y byddai gwir llwyddiant y gwaith yn cael ei fesur o ran 'profiad y cwsmeriaid'.

Cyn dechrau ymgymryd â chyfres o weithdai er mwyn i brofiadau a gwersi a ddysgwyd o'r prosiect ceginau ac ystafelloedd ymolchi a ddechreuwyd flwyddyn ynghynt allu cael eu rhoi ar waith i'r model cyflawni ar gyfer y prosiect ailweirio. Dogfennodd Mi-space a Thai Tarian yr hyn oedd yn gwneud y contract ceginau ac ystafelloedd ymolchi'n llwyddiant yn ogystal â chofnodi pa agweddau ar gyflawniad y prosiect allai gael eu gwneud yn well, gan arwain at Gynllun Ansawdd sy'n canolbwyntio ar 'Ragoriaeth Cwsmeriaid' a ddefnyddiwyd fel asgwrn cefn pob agwedd ar y prosiect o gychwyn i gwblhau. Dyma'r ffactorau allweddol a sefydlwyd gan Mi-space yn ystod y gweithdai:

- Cyfathrebu clir a syml: sefydlodd tîm y prosiect egwyddor o "ddweud PWY ydyn ni, dweud BETH rydym yn ei wneud, dweud PAM rydym yn ei wneud, dweud PRYD byddwn ni'n dechrau ac yn gorffen – a

chadw'n haddewidion". Trwy sefydlu'r hyn a ddaeth yn ddatganiad o fwriad ar gyfer y prosiect, rhoddodd Mi-space yr amcan allweddol hwn ar waith i bopeth wnaethon nhw ar y prosiect a mesuron nhw eu perfformiad eu hunain yn erbyn y datganiad syml ond effeithiol hwn.

- Yn benodol i anghenion y preswlydd: trwy fodiwl hyfforddiant rhagoriaeth cwsmeriaid a gyflwynwyd i staff Mi-space, datblygwyd sgil 'gwrando empathig'. Diffinnir gwrando empathig fel rhoi sylw i rywun arall gydag empathi er mwyn "ceisio deall, cyn cael eu deall". Wrth ddefnyddio'r hyfforddiant hwn yn yr holl gyfathrebiadau gyda'r preswlydd, roedd Mi-space yn gallu gwir werthfawrogi anghenion a phryderon unigol y trigolion, ac addasu eu dull lle bo angen er mwyn i'r trigolion a'r gweithlu fwynhau rhyngweithiad mwy llwyddiannus yn ystod y gosodiad.
- Ailweirio gyda pharch: Mewn gweithdy penodol i wella sut gallai gweithgaredd mor mewnlifol gael ei berfformio gyda'r lefel ofal fwyaf i'r preswlydd, sefydlodd eu timau gosod eu hunain nifer o ganllawiau oedd yn cynnwys:
 - mwyhau'r defnydd o ddiogelwch llawr, gorchuddion celfi a chynwysyddion dros dro ar gyfer nwyddau gwerthfawr y trigolion. Cynigiwyd symiau digyfngiad o orchudd llawr a chafodd gorchuddion y celfi i bob tîm eu golchi'n fasnachol yn gyson.
 - Gan ddefnyddio'r llinell glo "ymddygiadau gwyh", rhestrodd eu peirianwyr nodwedddion a chmau gweithredu i'w defnyddio a fyddai'n sicrhau profiad gwyh i gwsmeriaid fel; parcio'n ystyriol, cyflwyno pob aelod o'r tîm wrth iddynt gyrraedd, gweithio mor dawel â phosibl, gwybod enwau'r trigolion, gan gymryd dim ond y swm angenrheidiol o offer a deunyddiau i'r eiddo
 - "Oes unrhyw beth arall allaf eich helpu chi gyda?" - gan gymryd ysbrydoliaeth o frandiau sy'n enwog am wasanaeth cwsmeriaid da, gofynnodd peirianwyr Mi-space y cwestiwn hwn i bob aelwyd cyn gadael eu heiddo.

O ran effaith cyn ac wedi ar eu gweithlu, adroddodd y peirianwyr fod yr egwyddorion a ddefnyddiwyd ar y prosiect wedi gwneud prosiect llawer haws ei fwynhau. O ganlyniad, cafodd salwch ac absenoliaeth y prosiect eu lleihau'n fawr ac ni chafodd y tîm yr un yn gadael yn ystod y prosiect.

Canlyniadau'r dull gwasanaeth cwsmeriaid gwell hwn yn ystod yr ailweirio i Dai Tarian oedd symiau uchel yn llenwi arolygon (90%) yn ogystal â sgorau cyson uchel (cyfartaledd o 99% ar gyfer da iawn/da). Mesurodd yr arolwg brofiad y trigolion o'r gwasanaeth, nid eu bodlonrwydd. Mae hwn yn ddull gwell o droi at yr holiadur 'bodlonrwydd' safonol sy'n cymell cyflawniad gwasanaeth y tu hwnt i fodlonrwydd.

Canlyniadau a chyflawniadau:

	C1	C2	C3	C4	C5	C6	C7	C8	C9	C10	%
Da lawn	83	84	85	74	76	85	81	81	82	87	94%
Da	3	3	2	12	9	2	5	6	5	0	5%
Gwael	1	0	0	1	2	0	1	0	0	0	1%
Annerbyniol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0%
Dim ateb	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0%
	87	87	87	87	87	87	87	87	87	87	

“Mae Mi-space wedi perfformio sawl contract cynnal a chadw cynlluniedig i Dai Tarian yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Tuedd gyson o ran eu gwasanaeth i’w trigolion yw eu lefel bodlonrwydd cwsmeriaid cyson uchel a gyflawnwyd trwy ddull sy’n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Yn un o’r prosiectau diweddaraf a gyflawnwyd i Dai Tarian gan Mi-space, roedd bodlonrwydd y tenantiaid yn y 90au uchel yn gyson gyda niferoedd da yn dychwelyd. Gwnaeth y lefel bodlonrwydd cwsmeriaid hon Mi-space yn bartner dibynadwy i Gartrefi NPT”

- Karl Jones, Uwch Goruchwyliwr Gwaith Mawr

AJ Eaton

Cyfarwyddwr Adrannol

Mi-space UK Ltd

Ff: (07940) 784450

E: aeaton@mi-spaceuk.com

GRYMUSO A CHYNNWYS CYMUNEDAU

Mae'r wobwr hon yn cydnabod dulliau llwyddiannus o gynnwys, grymuso a chefnogi tenantiaid a thrigolion i ffurfio gwasanaethau, cymell gwelliannau a chyflawni newid ystyrlon mewn sefydliad neu yn y gymuned.



Shaftesbury Youf Gang

Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Heddlu Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd ac Energize Media

Mae 11 o bobl ifanc arloesol Shaftesbury'n helpu gwella'u hamgylchedd lleol.

Dechreuodd swyddog cymorth cymunedol yr Heddlu, Janet Woodward 'Youf Gang' Shaftesbury yn 2015 ac mae 11 o blant lleol brwdfrydig naw i 14 oed bellach yn cymryd rhan.

Dywedodd Charlie Young, aelod o Youf Gang **"Mae gennym ddiddordeb yn y gymdogaeth leol ac mae gennym arwyddair o 'wneud Shaftesbury yn lle brafach i fyw ynddo'. Cynhaliwn gyfarfodydd misol ac rydym eisoes wedi cyflawni sawl sesiwn casglu sbwriel yn yr ardal."**

Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi cefnogi'r grŵp trwy gyflenwi offer newydd gan gynnwys offer codi sbwriel, menig, siacedi gwelededd uchel a chypyrddau clo yn y ganolfan gymunedol. Yn ogystal, mae wedi ymgysylltu â nhw i gael gwybod eu safbwyntiau a helpu ffurfio'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau.

Mae'r Youf Gang yn cynnal sesiynau codi sbwriel ar strydoedd a gerddi'r ardal gyda chefnogaeth partneriaid sy'n cynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Cymunedau yn Gyntaf, Energize Media a rhieni.

Dywedodd Richy Davies, swyddog cymorth cymunedol Heddlu Gwent: **"Mae'r Youf Gang yn glod nid yn unig iddynt hwy eu hunain ond i'r gymuned leol hefyd. Bu'n bleser gweithio gyda'r bobl ifanc a'u harwain i ddyfodol ffyniannus gobeithio."**

Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi bod yn cefnogi Youf Gang ers y ddwy flynedd diwethaf oherwydd maen nhw'n grŵp anhygoel o bobl ifanc sy'n fodelau rôl i bobl eraill yn eu harddegau. Maen nhw'n dangos beth ellir ei wneud pan fyddwch yn gweithio gyda'ch gilydd i gael hwyl a gofalu am eich cymuned.

Yn ogystal, cefnogir eu gwaith gan gyngor y ddinas. Mae'r aelod cabinet dros wasanaethau cymunedol, gwaith a sgiliau, y cynghorydd Roger Jeavons, wedi canmol gwaith Youf Gang. Dywedodd y byddai'n wych pe gallai pobl eraill ddilyn eu harweiniad mewn wardiau ar draws y ddinas. **"Mae'n galonogol iawn clywed am y bobl ifanc gymunedol hyn sy'n fodlon cyd-dynnu i helpu gwella'u hamgylchedd lleol. Maen nhw'n enghraifft wych o'r da y mae pobl ifanc yn ei wneud ar draws y ddinas. Da iawn a phob lwc i'r dyfodol."**

Yn gefndir i hyn, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru'n dangos bod yna bocedi amddifadedd sylweddol yn Shaftesbury. Mae tair o'r pedair ardal gynnyrch ehangach haen is yn Shaftesbury wedi'u graddio'n amddifad o ran 'amgylchedd ffisegol'. Ar wahân i'r amddifadedd hwn, mae'r ward wedi'i ffocysu ar Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Shaftesbury 1, sydd wedi'i raddio'n ddifreintiedig o ran 'incwm', 'diogelwch cymunedol', 'amgylchedd ffisegol' a 'thai'.

Canlyniadau a chyflawniadau:

- Mae'r Youf Gang yn esiampl wych o gymdeithas tai'n gweithio gyda'r heddlu a'r trigolion i wella'r amgylchedd, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio gyda demograffig sy'n gyffredinol anodd ei gyrraedd. Mae'r prosiect wedi dyfarnu £595 o Gronfa Bartneriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent i gynyddu ymgysylltiad ieuencid seiliedig ar chwaraeon.
- Mynychwyd ffeiriau haf a Nadolig i hyrwyddo cynaliadwyedd a recriwtio aelodau ychwanegol. additional members.

- Dechreuwyd tîm pêl-droed, gyda'i fathodyn clwb ei hun a chit a noddwyd.
- Cynhaliwyd gwaith gyda thrigolion cynllun tai gwarchod Shaftesbury Court i wella'u cyfleusterau.
- Cynhaliwyd gwaith i helpu mynd i'r afael â stereoteipiau am bobl ifanc yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y ddinas.

Mae Youf Gang wrthi'n gweithio tuag at ennill statws elusenol.

Richy Davies

Swyddog Diogelwch Cymunedol

Heddlu Gwent

Ff: (07464) 653018

E: richy.daves@gwent.pnn.police.uk



UNITY – uno Casnewydd gan ysbrydoli ieuencid yfory

Cartrefi Dinas Casnewydd gyda Charter Housing (Grŵp Pobl) a Chyngor Dinas Casnewydd

Mae UNITY yn fforwm ieuencid dan arweiniad pobl ifanc 14-25 oed. Maen nhw'n canolbwyntio ar ddatblygiadau yn y sector tai, materion sy'n effeithio ar y bobl ifanc a'r cymunedau maen nhw'n byw ynddynt. Mae UNITY yn lle i bobl ifanc gael llais, her, dylanwad a ffurfio tai a gwasanaethau cymunedol yng Nghasnewydd. Mae'r fforwm yn brosiect partneriaeth rhwng Cartrefi Dinas Casnewydd, Charter Housing Association a Chyngor Dinas Casnewydd.

Sefydlwyd UNITY ym mis Medi 2015 ond fe'i lanswyd yn swyddogol mewn Digwyddiad Cymunedol Casnewydd ym mis Gorffennaf 2016. Mae ganddynt 17 o aelodau cofrestredig sy'n cwrdd pob pythefnos.

Ymhlith barnau pobl ifanc ar UNITY mae:

'Rydym am wybod safbwyntiau a barnau pobl eraill ar Dai'

'Rydym am roi yn ôl i wneud pethau'n well yn y dyfodol'

'Mae UNITY yn fy ngwneud i'n hapus ac yn hyderus'

'Golyga UNITY y gallaf helpu pobl eraill'

'Gwna UNITY imi deimlo'n well amdanaf fy hun'

'Rwy'n cymryd rôl weithgar, gan helpu i wneud newidiadau'

'Teulu yw UNITY'

Mae'n gam yn y cyfeiriad cywir i wneud newid'

'Mae UNITY yn newid bywydau!'

Mae UNITY wedi darparu llais, wedi ymgyrchu ac wedi cael dylanwad mewn perthynas â Diwygio Lles ac yn benodol, y toriadau i'r Lwfans Tai Lleol a'r Credyd Cynhwysol i bobl ifanc. Mae UNITY wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau, gan roi gwybod i Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru am eu safbwyntiau a dylanwadu'n drwm ar ddull Llywodraeth Cymru o ymgynghori â phobl ifanc ar y pwnc hwn. Fel ffordd o godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc eraill, mae UNITY hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â UK Charity Fixers i ddatblygu mat diod gyda gwybodaeth ac arweiniad arnynt ac wedi gosod y rhain mewn manau lle mae pobl ifanc e.e. clybiau ieuencid, bariau, colegau ac ati. Mae mwy o wybodaeth am y prosiect parhaus hwn i'w gweld fan hyn:

<http://www.fixers.org.uk/news/16112-11208/housing-benefit-crisis.php>

Mae UNITY hefyd wedi helpu ffurfio gwasanaethau, er enghraifft, ymgynghori â Chartrefi Dinas Casnewydd ar eu gwefan a strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr a gweithio gyda Charter Housing ar Gytundebau Llety ar y Cyd. Dywedodd Andrew Frame, Rheolwr Cymunedau Cynaliadwy yn Charter Housing, **"Mae Unity wedi ein helpu i ffurfio'n cynllun rhannu person ifanc. Gwelais fod y fforwm yn seinfwrdd gwych ar gyfer ein syniadau ar lety ar y cyd. Roedden nhw'n dderbyngar iawn i'r wybodaeth a ddarparwyd o gwmpas Diwygio Lles. Crëwyd argraff arnaf yn sgil eu natur gadarnhaol a phragmatiaeth wrth drafod yr heriau y bydd Diwygio Lles yn esgor arnynt, yn enwedig gan mai eu grŵp oedran nhw fydd yn cael ei effeithio gwaethaf ganddo".**

Mae UNITY wedi ymgymryd â gwaith partneriaeth gyda fforymau a gwasanaethau ieuencid eraill i bobl ifanc ac wedi cwrdd â seneddwr lleol a chynrychiolwr awdurdodau lleol. Cymerodd UNITY ran mewn dadl gwasanaeth lleol gyda Phenathiaid Gwasanaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Diben y ddadl oedd helpu ffurfio'r ddarpariaeth addysg a gwasanaeth ieuencid yng Nghasnewydd. Awgrymodd UNITY y dylid rhoi mwy o

bwyslais ar annog astudiaethau galwedigaethol a phrentisiaethau yn ogystal â mynd i'r afael â lefelau iechyd meddwl a bwlio mewn ysgolion fel blaenoriaeth. Enghraifft arall o hyn oedd pan fynychodd UNITY Uwchgynhadledd Ieuenctid y Gymanwlad Enghreifftiol gyda'r Gymdeithas Gymanwlad Frenhinol a hefyd mynychodd y Senedd i gwrdd a meithrin perthynas gyda'u ACau lleol.

Er mwyn cael gwybod mwy am UNITY, ewch i:
<https://vimeo.com/20924189>

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae UNITY wedi cael effaith wych yng Nghasnewydd a Gwent. Mae wedi dylanwadu ar Gartrefi Dinas Casnewydd a Charter Housing ar lefel weithredol a chorfforaethol, gan wneud yn siŵr bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed a'i ystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Yn ogystal â hyn, mae gwaith UNITY o ran y Lwfans Tai Lleol a diwygio lles sy'n effeithio ar bobl ifanc wedi cael dylanwad yng Nghasnewydd gyda'r bartneriaeth ledled Gwent a chyda gweithgor dan 35 oed Llywodraeth Cymru. Mae Ymgyrch Lwfans Tai Lleol UNITY'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc yng Nghasnewydd a'r ardaloedd o'i hamgylch ac mae'r ffurflen wedi helpu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ystyried ymhellach effeithiau diwygio lles ar bobl ifanc.

Mae Gartrefi Dinas Casnewydd wedi dod i ystyried UNITY fel grŵp i 'fynd ato' at ddibenion ymgynghori, yn enwedig yng ngoleuni'r gwaith a wnaethant i helpu ffurfio darpariaeth addysg a gwasanaethau ieuenctid yn y ddinas.

Yn ogystal, mae UNITY wedi creu cynllun gweithredu 12 mis gyda thargedau i ymgysylltu a darnau gwaith allweddol ar draws y flwyddyn i wella Casnewydd trwy ymgysylltu â gweithgareddau sy'n helpu mynd i'r afael â digartrefedd, tipio anghyfreithlon, materion amgylcheddol a llawer mwy.

Mae UNITY yn ddull modern o droi at gyfranogiad tenantiaid sydd hefyd yn galluogi ar gyfer datblygu sgiliau a datblygiad personol. Mae'n berthynas tymor hir, ddwy ffordd seiliedig ar werthoedd gwaith ieuenctid craidd a meithrin gallu. Mae a wnelo UNITY â chael llais ieuenctid gwirioneddol i ymgynghori ag ef a gweithio ochr yn ochr er mwyn datblygu mentrau a phrosiectau dylunio'n seiliedig ar angen. Mae'n darparu budd i bawb ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ond yn bwysicach i bobl ifanc.

Jonathan Conway

Rheolwr Perthynas Cymunedol

Cartrefi Dinas Casnewydd

Ff: (01633) 227754

E: jonathan.conway@newportcityhomes.com



Own 2 feet...living

Cartrefi Cymunedol Bron Afon

Llywodraeth Cymru, Gwella Bywydau a Chymunedau 2016 – “y farn yw y dylai gwasanaethau tai adlewyrchu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio ac nid anghenion y sefydliad sy'n eu cyflawni”.

Mae Tŷ Cyfle'n ddatblygiad tai arloesol sy'n cefnogi pobl ifanc i annibyniaeth gydag 8 cartref cychwynnol i bobl 16 i 24 oed, gyda Chanolfan Cysylltiad Cymunedol ar y llawr gwaelod yn darparu hyfforddiant, dysgu anffurfiol a rhaglenni cyflogadwyedd 'tameidiol' i drigolion a'r gymuned leol.

Yn arloesol am ei fod yn cael ei arwain gan bobl ifanc, gydag atebion i atal digartrefedd ac mae'n seiliedig ar egwyddorion cydweithredol. Hyrwydda gynhwysiant, gan ymateb i anghenion pobl ifanc Torfaen. Mae'n dyst i'r lefel gydweithredu, cefnogaeth a phartneriaeth uchel rhwng y gymuned a Bron Afon, gan fynd i'r afael â heriau prinderau tai mewn ffordd greadigol, gydweithredol a arweinir gan y gymuned. Gall y cynllun ddangos ei effaith wrth newid bywydau pobl.

Methodd tenantiaethau llawer o bobl ifanc am amryw resymau yn y flwyddyn gyntaf. Gofynnwyd y cwestiwn sut gallwn dorri'r cylch hwn o denantiaethau wedi methu? Pwy sy'n gwybod yn well na'r bobl ifanc eu hunain? Roedden nhw'n glir iawn, penderfynon nhw eu bod eisiau datblygu prosiect a oedd yn fath o dai trawsnewidiol, gan bontio'r bwlch rhwng cymorth hostel 24 awr a byw yn gwbl annibynnol. Bu rhaid iddo fod yn gynaliadwy a chael ei arwain gan bobl ifanc.

Tŷ Cyfle .. Own 2 Feet Living ..

Cwblhawyd gwaith adnewyddu helaeth ar adeilad segur, fe'i dyluniwyd gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Datblygon nhw gytundebau a pholisiau tenantiaeth – roedd yn ymdrech gwbl gydweithredol!

Trwy gwmpasu'r broses a'r fframwaith Teuluoedd yn Gyntaf, rhoddodd y rhaglen gymorth iddynt y sgiliau yr oedd arnynt eu hangen i fyw yn annibynnol.

Dysgant:

- Reoli eu harian
- Talu'r biliau
- Coginio prydau iach ar gyllideb.
- Bod yn gymydog da
- Y rhaglen meddyliau iach, cyrff iach.
- Y rhaglen perthnasoedd mwy diogel

Y Camau Nesaf - Parhau i ddysgu o Dŷ Cyfle

- Grymuso pobl ifanc i greu 'newid mewn camau' yn y sector tai. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi llywio'n agos ddull Bron Afon o ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc sydd ynghlwm ym mheilot dan 35 oed Bron Afon.
- Ffocws y Pwyllgor Rheoli a leuencid Afon yw codi ymwybyddiaeth o Ddiwygio Lles, archwilio atebion tai creadigol, gan gynnwys llety ar y cyd a threialu modelau tai newydd.
- Bydd Own 2 Feet Living, Cam 2, yn darparu 12 cartref newydd, o adeiladwaith arloesol fel ffordd ymarferol o gynhyrchu tai cost isel cysurus y gellir ei ailadrodd mewn gwahanol fannau.

Tenant Tŷ Cyfle (22 oed), **“Arferwn fod yn ddigartref. Bu rhaid i mi gyrraedd y gwaelod. Gwelais Tŷ Cyfle a chefais fy nenu gan y gefnogaeth oedd yn cael ei chynnig, nid dim ond fel rhywle i fyw. Mae'n wych rhedeg y lle hwn fel cwmni cydweithredol, mae'n gwneud ichi deimlo'n bwysig a chaiff ein barn eu hystyried o ddifrif. Rydw i bellach yn meddwl yn fyw cadarnhaol am y dyfodol”.**

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae Tŷ Cyfle'n parhau i gael ei redeg ar egwyddorion cydweithredol y Pwyllgor Rheoli, sy'n cynnwys leuencid Afon a'r trigolion ifanc. Ymgorfforir y prosiect yn llwyr ac mae'n rhan annatod o'r gymuned.

Canlyniadau:

- O gyflwr adfeiliedig, daethpwyd ag ef yn ôl i ddefnydd, gan gyflawni dull dwy haen o gyflenwi a chefnogi.
- Crëwyd Cwmni leuencid Cydweithredol arloesol gyda Phwyllgor Rheoli.
- Proses Dyraniadau, Cytundeb Tenantiaeth a Pholisi Rheoli wedi'u teilwra gyda system goleuadau traffig unigryw i orfodi unrhyw doriadau i denantiaeth.
- Cynaliadwyedd tenantiaeth o 100% gydag ôl-ddyledion rhent o sero.
- Pobl ifanc yn cymryd rhan yn weithgar mewn EET neu Wirfoddoli.
- Prosiect tai hunanreoli'n bennaf gyda llai o oriau rheoli tai i'r sefydliad.
- Symud ymlaen llwyddiannus o 100%.

Maria Jones

Rheolwr Pobl Ifanc a Theuluoedd

Cartrefi Cymunedol Bron Afon

Ff: (01633) 620238

E: maria.jones@bronaafon.org.uk



Tîm TAG (Grŵp Aseswyr Tenantiaid)

Cymdeithas Tai Rhondda

Tîm TAG (Grŵp Aseswyr Tenantiaid) uchelgeisiol newydd Cymdeithas Tai Rhondda yw Y rôl hollbwysig wrth brofi gwasanaethau ac adrodd yn ôl ar y ffordd y gall y sefydliad wella ar gyfer ei denantiaid a'r gymuned ehangach. Gweithiodd y Gymdeithas gyda grwpiau ffocws, ymgynghorwyd â thenantiaid ac aelodau'r gymuned a gofynnwyd iddynt sut roedden nhw wir am helpu'r sefydliad i ffurfio a gwella gwasanaethau er mwyn iddynt allu rhoi grŵp hyfforddedig a brwdfrydig ar waith a fyddai'n dangos buddiannau diriaethol yn glir.

Lansiwyd TAG ym mis Ebrill 2016 ac yn ystod y pymtheg mis diwethaf, mae wedi gweithio ar 18 prosiect, pob un gyda'r nod o wella gwasanaethau i gymunedau'r Gymdeithas yn Rhondda Cynon Taf a Chwm Cynon sydd â lefelau sylweddol o dlodi plant, arwahanwydd cymdeithasol, amddifadedd a diweithdra. Mae tîm TAG yn sianelu eu hegri gwirfoddoli a'u hangerdd i helpu pobl eraill ar draws RhCT ac mae hon yn gyfrwng ar gyfer gwir newid trwy weithio gyda phartneriaid a gwrando go iawn.

Un o gyflawniadau'r grŵp oedd prosiect ymchwil a gynhaliwyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddynodi pam nad oedd trigolion hŷn yn troi at eu gwasanaeth ar-lein 'Ceisio Cartref RhCT'. Dyma'r brif ffordd i bobl hŷn droi at dai rhent cymdeithasol yn RhCT felly mae iddi effaith bellgyrhaeddol. Cyfarfu'r grŵp gydag aelodau hŷn y gymuned oedd yn methu defnyddio'r system electronig ar-lein hon, oedd yn golygu nad oeddent yn gallu mynegi diddordeb mewn eiddo a allai fod wedi bodloni eu hanghenion; gan arwain at goli cyfleoedd a rhestr aros llonydd. Wrth reswm roedd yna effeithiau uniongyrchol o ran eiddo gwag, cymunedau ansefydlog a cholli refeniw a allai fod wedi'i ail-fuddsoddi yn y ddarpariaeth gwasanaeth tai.

Nododd TAG y rhai ar y rhestr aros oedd heb droi at eu gwasanaethau ar-lein, gan greu holiadur a threulio dros 80 o oriau'n siarad â'r rhai a effeithiwyd. Ceision nhw ddeall eu rhesymau am beidio ag ymgysylltu na dangos diddordeb mewn eiddo addas er mwyn iddynt allu ystyried sut i'w cywiro.

Ymhlith y cyflawniadau eraill mae:

- Cryfhau brand a chanfyddiad – tynnu ymaith unrhyw gyfeiriadau at CBL, CHR neu Ddatrysiaid Tai
- Newidiadau i'r wefan – gwella llywio a gwybodaeth
- Cefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein yn ystod y sesiynau cynhwysiant digidol a drefnir yn Llyfrgell Pontypridd.
- Llunio taflen Ceisio Cartrefi RhCT, a dargedir yn benodol tuag at bobl hŷn.
- Sylw yn y cyfryngau cymdeithasol ar ddiweddariadau i wasanaethau ac annog mynediad (nid oedd hyn ar waith cyn hynny oherwydd y dybiaeth oedd nad oedd pobl hŷn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol).

Roedd un aelod o TAG ynghlwm â'r prosiect ymchwil uchel ei broffil, gan roi gwybod am yr effaith a'r profiad ar Gredyd Cynhwysol, gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Chartrefi Cymunedol Cymru, yn cyflwyno i Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd ym mis Mawrth 2017. Defnyddiodd Grŵp TAG sesiynau grwpiau ffocws a helpodd ffurfio'r cwestiynau a ofynnwyd, ochr yn ochr â chefnogi'r gwaith o gyflwyno sesiynau sydd wedi gwneud argymhellion am newidiadau i leddfu proses Credyd Cynhwysol.

Dynododd TAG fod naws ac iaith tîm Casglu Incwm Cymdeithas Tai Rhondda'n rhy anodd i'r tenantiaid eu deall ac addasodd hyn yn unol â'r Ymgyrch Plain English; ers gwneud y newidiadau hyn, mae'r sefydliad wedi adrodd ynghylch cynnydd mewn ymgysylltiad casglu incwm.

Mae TAG yn parhau i weithio gyda Thîm Cynnal a Chadw Cymdeithas Tai Rhondda ar eu Safonau Gosodadwy, a ddefnyddir wrth ailosod eiddo gwag. Mae TAG wedi dynodi dyblygu yn y ddogfen ac mewn meysydd eraill lle mae angen manylder mwy penodol ac mae bellach yn gweithio gyda chontractwyr y Gymdeithas i wneud fideos byr 'sut mae gwneud' gyda gwybodaeth am sut i gynnal cartref yn well.

Mae gwirfoddolwyr TAG yn gwneud gwahaniaeth, maen nhw'n esiampl ddisglair o sut i rymuso unigolion sy'n cymryd rhan wrth ffurfio gwasanaethau. Mae pob un o aelodau TAG wedi cael eu cyfran o drafferthion gydol oes ond trwy drallod, wedi sianelu eu cariad ac wedi ymroi o'u hamser yn fodlon, rhai aelodau gyda salwch corfforol a meddyliol gwanychol.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Ochr yn ochr â'r uchod, mae cyflawniadau eraill o waith TAG wedi cyrraedd yn bellach ac mae'r canlyniadau'n cynnwys:

- Dros 400 awr o amser gwirfoddoli; sesiynau hyfforddiant, gweithio gyda phartneriaid, siarad fel gwestai mewn cyfarfodydd a gwella gwasanaethau.
- Adolygu'r iaith a ddefnyddir mewn deunydd hyrwyddo, llythyrau a pholisïau, yn ogystal â gwell defnydd o wasanaethau digidol ac amlgyfrwng wrth hyrwyddo.

- Cymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch ymwelwyr yn ystod adnewyddiad swyddfa'r Gymdeithas. Bu darparu hyfforddiant achrededig a gwella'r gweithle i staff ac ymwelwyr yn arwyddocaol.
- Creu unedau newid cewynnau, sgriniau digidol, gwelliannau i fynediad a chysur a nawr yn cynnal digwyddiadau cymunedol.
- Bydd y newidiadau i wasanaeth Ceisio Cartrefi RhCT yn galluogi llawer mwy o drigolion ar draws y fwrdeistref i droi at y rhestr aros a gwneud defnydd llawn o'r gwasanaeth. Bydd hyn yn effeithio ar atal digartrefedd, gan wella ymgysylltiad yn y gwasanaeth a rhoi llais i aelodau hŷn y gymuned.
- Symleiddio polisiau'r sefydliad gan arwain at well dealltwriaeth a chynnig mwy o ddiogelwch i staff a thenantiaid.

- Cefnogi polisi 'Delio ag Achwynwyr Blinderus' y Gymdeithas, gan ei wneud yn gryf ac yn fwy grymus.
- Helpu grymuso ac ymgysylltu ag aelodau cymunedol ynysig gyda'u cymdogion, gyda Chymdeithas Tai Rhondda a sefydliadau eraill a chynyddu gwirfoddolwyr y sefydliad.

Lian Carter

Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau

Cymdeithas Tai Rhondda

Ff: (01443) 424212

E: lian@rhondda.org

CYNYDDU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH MEWN TAI

Mae'r wobwr hon yn cydnabod gwaith sefydliadau tai wrth gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector. Byddan nhw wedi datblygu dulliau o fynd i'r afael ag amrywiaeth diffyg mewn arweinyddiaeth, cynnydd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithlu a chreodd ddiwylliant gweithio sy'n dathlu ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth.



Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent

Gwalia Care and Support (Grŵp Pobl)

Cyfloga Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent ddau weithiwr cymorth sy'n darparu cefnogaeth a chynghor uniongyrchol i gymunedau sipsiwn a theithwyr, awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid allweddol yng Nghasnewydd, Torfaen a Blaenau Gwent. Dyma'r unig Wasanaeth Sipsiwn a Theithwyr ymroddedig a ariannwyd gan Cefnogi Pobl ac a ddarperir gan gymdeithas tai yng Nghymru. Sefydlwyd y gwasanaeth ym mis Ebrill 2016 yn dilyn astudiaeth yn dwyn y teitl "Anghenion Cymorth Cysylltiedig â Thai Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwent".

Sefydlwyd Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent ac mae'n parhau i esblygu ar sail anghenion y gymuned a dystiwyd trwy ymchwil, ymgynghori a monitro canlyniadau'n barhaus. Mae cyd-gynhyrchu gyda'r gymuned yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth gwasanaeth gyda'r nod o adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth yn y gymuned i greu cymunedau cynaliadwy a diwylliannol briodol.

Mae cefnogaeth a chynghor ar gael i awdurdodau lleol, rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau eraill i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr yn unol â

deddfwriaeth ac arweiniad gan gynnwys Deddf Tai (Cymru) 2014, Teithio at Ddyfodol Gwell a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Sylwadau gan Gyngor Dinas Casnewydd:

Pa effaith mae'ch ymwneud â Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent wedi'i chael ar eich sefydliad?

"Cyn sefydlu Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent, nid oedd gwasanaeth cymorth ymroddedig i sipsiwn a theithwyr yng Nghasnewydd. Er gwaetha'r ffaith fod gan sawl aelod o'r gymuned anghenion cymorth, ychydig oedd yn cael cymorth priodol".

"Mae Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent hefyd wedi chwarae rôl hollbwysig wrth ddatblygu safle sipsiwn a theithwyr Casnewydd. Maen nhw wedi sicrhau bod y gymuned yn gwybod am y broses o wneud cais am y safle ac wedi cefnogi pobl wrth wneud hynny. Galluogodd hyn i ni fod yn hyderus y bu pawb sydd â'r angen potensial am lain wedi bod yn gallu gwneud cais am un".

Pa effaith mae Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent wedi'i chael ar eich grŵp cleientiaid?

"Bu modd i Wasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent ddarparu cefnogaeth arbenigol, ymroddedig. Maen nhw wedi gallu datrys sawl mater hirsefydlog, fel danfon post, i deuluoedd yr wyf yn ymwybodol ohonynt. Gan nad ydynt yn rhan o'r awdurdod lleol, gall Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent hyrwyddo'n llawer mwy effeithiol ar gyfer teuluoedd ar faterion megis gwneud cais am dai neu ganiatâd cynllunio, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod gwirionedd eu hamgylchiadau'n cael ei gydnabod. Ymddengys bod Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent yn un dibynadwy a gwerthfawr ymhlith y gymuned sipsiwn a theithwyr yng Nghasnewydd, sy'n gyflawniad o ystyried y swm cymharol fyr o amser y mae wedi bod ar waith."

Unrhyw sylwadau eraill:

Mae Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent yn bartner allweddol yn natblygiad safle rhent cymdeithasol Casnewydd. Mae llawer o'r teuluoedd sydd wedi gwneud cais am lain ar y safle hwnnw

wedi bod yn ddiartref ers blynyddoedd lawer a heb fyw ar safle awdurdodedig erioed. Bydd angen swm enfawr o gefnogaeth arnynt wrth baratoi i fyw ar y safle o ran deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn ogystal â chefnogaeth i wneud cais am fudd-daliadau i dalu eu rhent. Ar ôl i safle gael ei ddatblygu, bydd angen cefnogaeth ar deuluoedd i addasu i fywyd ar safle swyddogol yn ogystal â gyda phethau fel trefnu gwasanaethau, rheoli biliau ac ati. Yn fy marn i, Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent sydd yn y lle gorau i wneud y gwaith hwn oherwydd mae wedi meithrin perthnasoedd da gyda'r teuluoedd ac maen nhw'n teimlo y gallant ymddiried ynddo i drafod materion sensitif fel arian."

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae 59% o aelwydydd sipsiwn a theithwyr dynodedig yng Ngwent wedi troi at y gwasanaeth ac mae rhieni o leiaf 129 o blant wedi cael cefnogaeth.

Mae gan 98% o ddefnyddwyr gwasanaeth lythrennedd gwael, mae gan 42% gyflwr iechyd ac nid yw 93% mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae 85% o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael cefnogaeth i reoli llety, 64% rheoli arian, 13% diogelwch am eu hunain a phobl eraill, 12% teimlo'n ddiogel, 5.1% rheoli perthnasoedd, 5.1% cymryd rhan mewn cyflogaeth, 4% am iechyd corfforol, 2.6% cymryd rhan mewn dysgu ac addysg, 1.3% teimlo'n rhan o'r gymuned a 1.3% am fyw ffordd o fyw iach a gweithgar.

Cafodd y gwasanaeth ei dderbyn yn dda yn y cymunedau sipsiwn a theithwyr, croesawant y presenoldeb wythnosol ar safleoedd ac maen nhw'n falch fod yr Awdurdodau Lleol wedi gweithredu ar ganfyddiadau'r astudiaeth y gwnaethant gyfrannu ati. Fel y tystiwyd uchod, mae canran fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi dynodi cyflwr iechyd ac mae lefelau uchel heb fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol nad yw'r canlyniadau'n adlewyrchu anghenion y gymuned. Nid oes gan y gwasanaeth y gallu i fodloni holl anghenion cymhleth y gymuned ac mae wrthi'n ymgeisio am gyllid ychwanegol i ehangu'r gwasanaeth.

Rebecca Preston

Arweinydd Sipsiwn a Theithwyr Gwent, Gweithiwr Cymorth Sipsiwn a Theithwyr Gwent

Gwalia Care and Support

Ff: (0777) 3250015

E: rebecca.preston@gwalia.com



WISH - Menywod mewn tai cymdeithasol – rhwydwaith datblygiad proffesiynol

WISH Rhanbarth Gogledd Cymru gyda WISH GB

Menywod mewn Tai Cymdeithasol (WISH) Gogledd Cymru: rhwydwaith yw hwn sy'n darparu datblygiad personol a phroffesiynol i fenywod sy'n gweithio mewn tai cymdeithasol a sectorau cefnogol.

Pam lansio?

"Er bod ein gweithlu'n amrywiol, nid adlewyrchir hyn yn ein harweinyddiaeth sy'n aros yn rhy wyn, yn rhy hen ac yn rhy wrywaidd. Edrychwch arnaf i." Llywydd CIH ar y pryd, Steve Stride, Tai 2014

"Mae menywod yn cyfrif am fwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth a'r gweithwyr yn y sector tai cymdeithasol, ac eto, maen nhw'n parhau i gael eu tangynrychioli mewn rolau rheoli ac uwch. Mae cynrychiolaeth y menywod yn cynyddu wrth i ni symud i lawr haenau hierarchaeth y sefydliad." Adroddiad A Woman's Place in Housing Chwarae Teg, Chwefror 2016

Rhaid i hyfforddi ac ysbrydoli benywod cyfredol yn weithwyr yn ogystal â'r genhedlaeth nesaf o fenywod mewn eiddo fod yn uchel ar agenda pawb.

Mae mesurau cyni sy'n golygu cadw staff, denu'r ymgeiswyr gorau, annog cymhelliant lefel uchel a hyrwyddo tai fel dewis gyrrfa dda i fenywod yn mynd yn anos ei gyflawni.

Os na fodlonir yr heriau hyn, mae'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i gyrraedd gwir gydraddoldeb yn ein gweithle.

Lleisiwyd yr heriau uchod gan uwch weithwyr proffesiynol i'r aelodau bwrdd a'n sefydlodd a ganed WISH Gogledd Cymru.

"..mae'n bwysig bod gennym sefydliadau fel WISH sy'n hyrwyddo tegwch a chydaddoldeb yn y gweithle. Mae WISH Gogledd Cymru'n haeddu cydnabyddiaeth". Lesley Griffiths, Aelod Cynulliad Wrecsam ac Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru.

"Mae WISH yn rhoi cyfle gwych i unigolion o'r un anian rannu arfer gorau..mae'r adborth rydw i wedi'i gael wedi bod yn gadarnhaol iawn ac rwy'n disgwyl i WISH dyfu o nerth i nerth." Andrew Bowden, Prif Weithredwr, Cartrefi Conwy.

Lansiwyd WISH ym mis Hydref 2016 i annog datblygiad personol a phroffesiynol i fenywod gyrraedd gwir botensial eu gyrfa trwy feithrin doniau a galluoedd nad ydynt bob amser yn cael eu dal gan gymwysterau papur.

Arweinir WISH gan fwrdd o ddeuddeg menyw o'r sector cyhoeddus a phreifat. Cynhelir 6-8 digwyddiad y flwyddyn.

Mae gan WISH 60 o aelodau'n barod gan gynnwys Grŵp Cynefin, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Conwy, Wales and West, Cartrefi Conwy, Ynys Môn a Thai Gogledd Cymru, cwmnïau sector preifat a myfyrwyr tai.

Ymhlith rhai o'r materion yr aeth WISH i'r afael â nhw mae:

- Oes digon o fenywod yn dewis tai fel gyrfa?
- Comisiynodd WISH ffilm fer i'w dangos mewn ysgolion i arddangos y gwahanol rolau i fenywod mewn tai cymdeithasol.
- Oes gan fenywod syniad clir o lwybr eu gyrfa a sut i'w cyflawni?
- Sgyrsiau gan fenywod blaengar y diwydiant am eu llwybrau gyrfa, heriau a gwersi a ddysgwyd – er mwyn ysbrydoli/annog menywod eraill yn y diwydiant.
- Oes gan fenywod ddiffyg hyder i wneud cynnydd pellach?
- Gweithdy gan yr awdur a'r siaradwraig ysgogol ryngwladol, Molly Harvey (Pwnc y gofynnwyd amdano mwyaf gan aelodau).
- All menywod 'gael y cyfan'?
- Gweithdy gwydnwch, sut i ddelio'n effeithiol gyda phwysau bywyd a gwaith.
- A llawer mwy! Gweithdai ffeithiol, dan arweiniad y diwydiant, mae sesiynau hyfforddiant a siaradwyr wedi'u cynllunio – wedi'u dewis o adborth a roddwyd gan gynulleidfaoedd WISH.

"Mae'r cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol dros y 18 mis diwethaf wedi bod yn ddi-ben-draw; astudio am radd tai..sesiynau WISH i enwi dim ond rhai". Claire Twamley, a gyrhaeddodd Rownd Derfynol

Gwobr Gweithiwr Tai Proffesiynol Newydd CIH Cymru 2017.

Anogwn wrywod i fynychu'n digwyddiadau gan helpu deall rhai o'r gwahanol heriau a deimlir gan fenywod.

Mae'r dyfodol i WISH yn cynnwys ehangu ar draws Cymru a chydweithredu gyda sefydliadau ychwanegol fel CIH, WEN a CHC, gan sicrhau ein bod yn gwella anghydraddoldeb rhyw mor effeithiol â phosibl gyda'n gilydd. Bydd WISH yn cefnogi menywod yn eu gyrfaedd presennol ac yn y dyfodol. Megis dechrau arni mae WISH!

"Mae wedi bod yn wych gweld WISH Gogledd Cymru'n datblygu..o'r dechrau mae eu dull cyfeillgar a chynhwysol wedi creu rhywbeth arbennig iawn. Heb os, bydd hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i fenywod sy'n gweithio mewn tai cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.." Helen White, Cadeirydd – Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Canlyniadau a chyflawniadau:

Roedd y canlyniadau canlynol o ganlyniad uniongyrchol i sefydliad WISH Gogledd Cymru:

- Rhwydweithio - cynhaliwyd digwyddiadau lle ysbrydolwyd y menywod a fynychwyd yn uniongyrchol i ddod yn wirfoddolwyr ac yn aelodau bwrdd ar gyfer sefydliadau elusennol megis aelodau bwrdd Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru a Chymdeithasau Tai
- Datblygiad personol a phroffesiynol - mae holl ddigwyddiadau WISH yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth er mwyn i fenywod wireddu eu potensial i'r eithaf. Trwy'r digwyddiadau rhwydweithio hyn, mae WISH wedi cael sylwadau cadarnhaol trwy arolygon adborth bod eu haelodau'n teimlo'u bod wedi'u grymuso i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol yn rhagweithiol a gwella'u hunanhyder.
- Arfer gorau ar y cyd - mae nifer o siaradwyr ysgogol ac arweinyddiaeth ryngwladol ysbrydoledig megis Lesley Griffiths, Paul Johnson (3DK Solutions) a John Walton (Green Bottle Solutions - hyfforddwr aur y Gemau Olympaidd) wedi rhannu nid dim ond eu dysgu eu hunain ond hefyd eu harbenigedd a'u gwybodaeth hynod glodwiw i gefnogi ac ysbrydoli aelodau WISH.
- Anogwyd menywod mewn ysgolion i ystyried gyrfa mewn tai cymdeithasol – datblygu fideo addysgol a rennir gyda phlant ysgol ar hyd a lled ardal Gogledd Cymru i hyrwyddo'r cysyniad y gall benywod weithio a chael gyrfa flaengar mewn tai gan weithio mewn rolau amrywiol ar draws y sector.

Nikki Waud
Cadeirydd

WISH Gogledd Cymru

Ff: (07590) 961855

E: nikki.waud@seddon.co.uk



Equality Street

Tai Calon Community Housing

Cydraddoldeb ac amrywiaeth yw'r edefyn euraidd ar hyd Tai Calon. Ffurfia sail i bopeth a wneir gan y sefydliad. Roedd cydnabod ei bwysigrwydd yn golygu y dyfarnwyd i Dai Calon wobwr a logo 10 her erbyn 2020 CIH, mae'r sefydliad bellach yn cynnwys y logo ar ei holl ddogfennau corfforaethol i ddangos pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ar lefel strategol, mae Tai Calon wedi gweithio'n helaeth ar gynyddu gwybodaeth staff ac aelodau'r bwrdd. Mae'r holl staff wedi cael dwy rownd o hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth i aelodau bwrdd Tai Calon hefyd gael hyfforddiant ac mae ganddynt Bencampwr Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cyfrifoldeb Pencampwr Cydraddoldeb y Bwrdd yw gwneud yn siŵr fod yr holl benderfyniadau a wneir gan y bwrdd yn cael eu gwneud gan ystyried barn ar gydraddoldeb.

Mae Tai Calon yn rhoi gwybod am ddangosyddion perfformiad allweddol i'r bwrdd yn ymwneud â data cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Erbyn hyn, mae angen i bob strategaeth, polisi a gweithdrefn gael asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gwblhau. Mae'r asesiad o effaith yn sicrhau bod pob dogfen/cynnig wedi ystyried pob nodwedd warchoddedig ac wedi addasu arferion lle bo'n briodol. Adolygir yr asesiadau hyn o effaith yn gyfnodol er mwyn gwneud yn siŵr nad oes effeithiau andwyol o'r polisi.

Cydnabyddodd Tai Calon fod ymwybyddiaeth gynyddol o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle'n angenrheidiol ac felly lluniwyd cynllun tymor hir. Ymhlith rhai o'r camau gweithredu yn y cynllun mae:

- Ymgorffori cydraddoldeb ym mrandio Tai Calon. Ar gyfer pob dull cyfathrebu a chyhoeddiad, defnyddir lluniau/graffeg o bobl gyda'r holl nodweddion gwarchoddedig – fe'i gelwir yn 'Equality Street'.
- Gosod murlun 5 x 3.5 metr o gymeriadau Equality

Street gan ddangos y cyswllt rhwng cydraddoldeb a gweledigaeth a gwerthoedd Tai Calon a hyrwyddo cydraddoldeb staff, tenantiaid a'r gymuned.

- Ymgorffori mewn dogfennau corfforaethol yr enfys LGBT+, y logo cyfeillion dementia (y mae'r sefydliad yn gwneud gwaith helaeth gyda nhw) a'r logo ymgyrch rhuban gwyn a hyrwyddir gan y sefydliad unwaith eto. Dylunnir hyn i ddangos bod Tai Calon yn gefnogwyr brwd o bob agwedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gan ddefnyddio Yammer yn fewnol i hyrwyddo erthyglau ar gydraddoldeb ac i annog trafodaeth. Mae erthyglau fel enghreifftiau o wahaniaethu mewn siopau yn creu trafodaethau gyda staff bob amser ac felly'n codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a gwahaniaethu.
- Cysylltu gydag ymgyrchoedd cenedlaethol fel 'act FAST' (strôc). Dangos posteri o gwmpas yr adeilad sy'n ddwyieithog, yn cynnwys modelau sy'n amlddiwylliannol ac o wahanol ryweddau.
- Cysylltu â hyrwyddo cydraddoldeb yn fewnol fel Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Mae hyrwyddo hyn ar bob plattfform cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at fenywod eithriadol o wahanol ddiwylliannau, crefyddau, gwledydd a phroffesiynau. Derbyniwyd y rhain yn dda ar y cyfryngau cymdeithasol gyda swydd newydd yn cael ei dangos bob awr.
- Cynnal sawl cyfarfod allanol megis Cyfarfod Gr p Anabled. Mae'r cyfarfod hwn er mwyn i aelodau'r gymuned gyfarfod a thrafod unrhyw wahaniaethu, arfer gorau neu i godi ymwybyddiaeth o broblem benodol.
- Gan ddarparu gwersi Cymraeg am ddim o fis Medi i aelodau staff, bydd Tai Calon yn talu am y cwrs ac yn rhoi amser i staff fynd i'r gwersi yn ystod oriau gwaith.
- Darparu gwersi iaith arwyddion i staff er mwyn sicrhau y bydd pob aelod o'r gymuned yn gallu cyfathrebu'n effeithiol wrth ddelio â Tai Calon.

Defnyddia Tai Calon ddata i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau a chyfleoedd gwaith, gan sicrhau nad oes unrhyw nodwedd warchoddedig yn cael ei thangynrychioli. Mae'r sefydliad wrthi'n ymgymryd â phroffil cydraddoldeb manylach o'i denantiaid i wneud yn siŵr bod eu gwasanaethau'n gweddu orau i'r gymuned a'i hanghenion.

Mae Bwrdd Tai Calon, yr Uwch Dim a'r staff i gyd yn cydweithio i annog a dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb, gan sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol i bawb.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Yn 2016, cafodd Tai Calon radd goch o'i archwiliad mewnlol o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Trwy waith caled a chyson, mae'r sefydliad wedi cael dyfarniad gwyrdd eleni gyda dim ond 3 mân argymhelliad a ddynodwyd eisoes yn eu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae polisiâu a phrosesau wedi newid ers i gwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ddod yn orfodol. Dangoswyd hyn gan y polisi atgyweiriadau yn diwygio'i atgyweiriadau heb fod yn argyfwng o benodiad 60 diwrnod i benodiad 20 niwrnod.

Dangosodd yr asesiad o effaith y gallai canlyniad y weithdrefn wreiddiol fod wedi esgor ar ganlyniad mwy i rai nodweddion gwarchoddedig ac felly dylid ei ddiwygio.

Heb os, mae'r staff yn Tai Calon wedi sylweddoli ar bwysigrwydd cynnal data proffilio o safon o denantiaid oherwydd gallant ymgynghori'n haws gyda thenantiaid y gymuned nawr er mwyn casglu eu safbwyntiau. Mae'r ymgynghori wedi dod llawer yn haws ac mae bellach yn fater o arfer.

Bydd canlyniadau'r eitemau eraill a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth fel 'Equality Street' yn cael eu gweld gydag amser wrth i Tai Calon fynd yn gwmni mwy ymwybodol o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Sarah Freeman

Swyddog Polisi

Tai Calon Community Housing

Ff: (01495) 294865

E: sarah.freeman@taicalon.org

Cydnebydd y wobr hon ddatblygiadau newydd sy'n cyflawni lefelau uchel o adeiladu ac ansawdd dylunio, gan wneud cyfraniad ystyrion at gynyddu'r cyflenwad tai a gwella fforddiadwyedd, ar raddfa genedlaethol neu yn yr ardal leol. Mae nhw'n cynnwys dyluniad arloesol ac yn dangos sut mae gweithio gyda'r gymuned wedi sicrhau cefnogaeth leol ac wedi darparu gwerth am arian.



Wenallt Uchaf, Dolgellau

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Yn uchel i fyny'r dyffryn, yn edrych dros dref hardd Dolgellau yng Ngwynedd gwledig, mae Wenallt Uchaf, sef datblygiad tai cymdeithasol fforddiadwy hollol syfrdanol. Fe'i hadeiladwyd gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd, y gymdeithas tai fwyaf yng ngogledd Cymru - mae'r deuddeg tŷ'n gymysgedd o gartrefi dwy a thair ystafell wely, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2017.

Mae galw mawr ar draws Gwynedd am dai dwy ystafell wely yn dilyn cyflwyno'r dreth ystafell wely, ac ar adeg yr adeiladu roedd 42 teulu yn Nolgellau a gafodd eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu tanbreswyllo.

Gweithiodd CCG ochr yn ochr ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar hyd y cynllun er mwyn sicrhau bod eu hamcan ar y cyd, i ddarparu tai fforddiadwy i'r rhai mewn angen yn cael ei gyflawni. Mae gan y cartrefi Adran 106 i sicrhau y byddant yn cael eu darparu i drigolion lleol am rent fforddiadwy bob amser. Er bod y datblygiad o fewn y ffin ddatblygu, penderfynwyd mynd am fforddiadwyedd o 100% yn hytrach na'r 50% (y mae'r awdurdod cynllunio'n gofyn amdano).

Adeiladwyd y cartrefi'n draddodiadol a chyflawnwyd Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3, Diogelu Drwy Ddylunio, Cartrefi Gydol Oes a chyflawnwyd gradd o A yn yr EPCs.

Yn ogystal, cyflwynodd CCG system ffotofoltaidd 2Kw i bob cartref a fydd yn cynorthwyo'r tenantiaid gobeithio wrth leihau eu biliau trydan gan £125 y flwyddyn o bosibl. Gyda phrif gyflenwad nwy, gwres canolog, digonedd o inswleiddiad yn y to, y waliau a'r lloriau, mae'r cartrefi'n hynod effeithlon.

Roedd ymgynghori â swyddog cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n hollbwysig i lwyddiant y datblygiad. Galluogodd CCG i wybod eu bod nhw ar y trywydd iawn gyda'u dyluniad ac ymgorfforwyd eu hargymhellion yn y cynllun. Wedi'i leoli'n uchel yn y dyffryn, roedd hi'n bwysig sicrhau y byddai'r datblygiad yn edrych yn ddymunol o bob ongl.

Roedd CCG hefyd yn gallu gweithio gyda'r ecolegydd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar y safle. Dyluniwyd ardal bioamrywiaeth warchoddedig yn y cynllun, a fydd yn cynnig cynefin i fywyd gwylt a phlanhigion brodorol. Yn ogystal, mae blychau ystumod wedi'u hadeiladu yn waliau'r cartrefi a choed derw aeddfed eu cadw.

Mae hwn yn ddatblygiad tai fforddiadwy y mae trigolion, cymuned leol Dolgellau a'r holl randdeiliaid sydd ynghlwm yn eithriadol o falch ohono.

Cymeradwyaeth

"Roeddem yn arfer byw mewn cartref rhent preifat ac roedd gennym wir broblemau gyda'r tŷ a effeithiodd ar ein hiechyd. Achosodd lawer o straen i'r ddau ohonom. Gwnaethom wario llawer o'n harian yn ceisio cadw'r tŷ'n gynnes, yn delio gyda materion lleithder, ac yn mynd i'r afael â thwll yn y to. Y peth gorau am y tŷ yw bod ein hiechyd wedi gwella'n barod, gallwn nawr ymlacio a mwynhau ein cartref. Ni allwn fod wedi gofyn am well dechreuad i'n babi."

Angharad Davies, 7 Wenallt Uchaf

"Allen ni ddim bod yn hapusach yn ein cartref newydd. Mae gennym ardd hyfryd lle gall ein plant maeth a'n cŵn fwynhau. Roedd gormod o gywilydd arnaf i wahodd cyfeillion a theulu i'm cartref arall oherwydd roedd yn cwmpo ar led, ond nawr rydw i'n gofyn pobl draw drwy'r amser. Rydw i ar ben fy nigon ac yn teimlo cymaint o fraint i fyw mewn cartref mor brydferth."

Anne Cook, 2 Wenallt Uchaf

“Mae’r cartrefi newydd hyn yn brydferth, mae eu golwg, y lleoliad a theimlad yr ystâd yn rhywbeth arbennig iawn. Mae’n amlwg bod gan y tenantiaid eisoes ymdeimlad mawr o falchder yn eu cartrefi newydd ac roedd hi’n bleser cwrdd â rhai ohonynt ddydd Gwener. Bydd y rhain yn gartrefi cysurus, cynnes a chlyd i’r teuluoedd, ac yn helpu diwallu’r galw lleol am dai fforddiadwy.”

Yr Arglwydd Dafydd-Elis Thomas, AC Dwyfor Meirionnydd

Canlyniadau a chyflawniadau:

Nod y datblygiad hwn oedd bodloni’r angen am eiddo rhent cymdeithasol yng nghymuned wledig Dolgellau - a gyflawnwyd gyda deuddeg teulu lleol yn symud i mewn.

Nododd yr awdurdod lleol yr angen am gartrefi rhent cymdeithasol yn yr ardal. Cyflwynwyd y ffigurau canlynol ym mis Hydref 2015:

- 17 teulu ar y rhestr aros am eiddo dwy ystafell wely
- 14 teulu ar y rhestr aros am eiddo tair ystafell wely

Seiliwyd y datblygiad a’r math o unedau a adeiladwyd ar y ffigurau hyn.

Creodd y datblygiad sawl cyfle hyfforddiant a chyflogaeth a buddiannau i’r gymuned ehangach:

- Cefnogwyd 7 prentis ac 1 hyfforddai ar y cynllun gan gynnwys 1 trydanwr, 1 plymer, 4 plastrwr, 1 briciwr a saer coed dan hyfforddiant
- Crëwyd 45 wythnos hyfforddi fel rhan o gontract
- Cefnogodd y contract 61% o lafur yng Ngwynedd, 86% o lafur yng ngogledd Cymru
- Ar gyfartaledd, arhosodd 88% o wariant isgontractwyr yng Nghymru (61% yng Ngwynedd)
- Lleoliadau profiad gwaith ar gyfer tri cheisiwr gwaith unigol (dwy wythnos yr un) o’r Ganolfan Byd Gwaith
- Cydweithredwyd gyda choleg lleol i gynniig ymweliadau safle â myfyrwyr adeiladu a chynigiwyd dau leoliad profiad gwaith i ddwy blastrwaig dan y cynllun ‘Atebion Creadigol’.
- Gosod cegin newydd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr gerllaw

Huw Evans

Rheolwr Datblygu ac Adeiladau Newydd

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Ff: (01248) 677182

E: huw.evans@ccgwynedd.org.uk



Leonard Charles

Morganstone gyda Coastal Housing Group

Mae Leonard Charles yn ailddatblygiad yn sgil adnewyddu hen siop adrannol Leonard Charles ar Oxford Street, Abertawe. Adeiladwyd y siop ar ddechrau’r 1970au ac roedd yn gyrchfan siopa fawr yn Abertawe am nifer fawr o flynyddoedd. Yn anffodus, dirywiodd y siop ynghyd â llawer o’r ardaloedd masnachol ac adwerthu o’i hamgylch yn ystod y 1980au a’r 1990au gan gau i’r cyhoedd yn 2013. Erbyn hynny, roedd ochr allanol y siop ei hun wedi gwaethgu ac yn cyfrannu at ymddangosiad tila ac wedi’i esgeuluso cyffredinol rhannau o Oxford Street.

Mewn partneriaeth â Coastal Housing Group, cyflwynodd Morganstone y safle fel bargaen i adfywio adeilad tirnod yn Abertawe a chyfrannu at adfywiad ehangach Canol Dinas Abertawe. Roedd y prosiect yn cynnwys:

- tynnu’r adeilad yn ôl i’w ffrâm;
- trawsnewid y llawr adwerthu llawr gwaelod yn ôl i faes parcio tanddaearol;
- trawsnewid y llawr gwaelod yn ddefnydd masnachol 5920 troedfedd sgwâr
- trawsnewid y 3 llawr uchaf yn 26 o fflatiau preswyl oedd yn cynnwys 2 fflat deulawr;
- ychwanegu 4ydd llawr newydd i ddarparu 6 fflat.

Aeth y prosiect i’r afael â’r anghenion a’r gofynion penodol canlynol:

- Cyfle am adfywiad;
- Darparu eiddo preswyl fforddiadwy yng Nghanol Dinas Abertawe;
- Cefnogwyd Leonard Charles gan Lywodraeth Cymru trwy gronfa a grëwyd i ddarparu cartrefi llai o faint i bobl oedd yn cael eu heffeithio gan y cymhorthdal ystafell wely sbâr dan ddiwygiadau lles llywodraeth y DU.
- Yn rhannol o ganlyniad i’r uchod, y fflatiau yw’r rhai cyntaf y mae Coastal wedi’u clustnodi i deuluoedd gyda phlant ifanc. Er eu bod yng nghanol y ddinas, nid oes rhaid i’r plant fynd ymhell i chwarae yn yr awyr agored mewn lle di-draffig gan fod yr adeilad yn agos at y lle agored newydd ei dirweddu ar Gae’r Vetch ac ymhen pum munud o daith gerdded o lan y môr a’r traeth.

Cydweithiodd Coastal, Morganstone a'r tîm dylunio'n agos o'r cychwyn ar ddyluniad a manyleb yr adeilad. Roedd y prosiect yn gofyn am arolygon cymhleth o'r ffrâm goncrit bresennol yn ogystal ag ail-ddylunio ac ailfodelu mewnol sylweddol o'r gofynion awyru ar gyfer y maes parcio ar y llawr gwaelod. Trawsnewidiwyd ymddangosiad allanol yr adeilad gan gladin sgrin law, ffenestri a llenfuriau newydd. Darparodd yr amlen allanol newydd berfformiad thermol oedd uwchlaw'r gofynion rheoliadau adeiladu. Gosodwyd gwaith nwy canolog i ddarparu gwres a dŵr poeth fel y ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni gofynion ynni'r adeilad.

Cyflawnodd y Tîm Prosiect ar y Cyd waith ymgynghori helaeth gyda thrigolion lleol gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol cyn cynllunio. Cynhaliwyd hyn trwyddo gyda'r gwaith yn cael ei drefnu i ffitio i mewn gyda'r busnesau o amgylch fel y parlwr angladdau gerllaw; postio llythyrau a chylchlythyrau rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â'r 20 o fusnesau a thrigolion lleol o amgylch y datblygiad; hysbysfwrdd cymunedol, tudalen gwefan y prosiect a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r prosiect yn ymroi i fuddiannau cymunedol a mentrau recriwtio a hyfforddi targedig gan gynnwys cefnogi elusennau lleol a sefydliadau chwaraeon, ymgysylltu ag ysgolion cynradd lleol, ymweliadau ag ysbytai plant, digwyddiadau gyrfaedd adeiladu, prosiect celf stryd PCDDS, lleoliadau graddedig, cyflogi pobl oedd yn ddiwaith cyn hynny, prentisiaethau ac wythnosau lleoliad gwaith.

“Mae'r gwaith celf stryd eithriadol i'r palisiau, sydd wedi'i gynnwys ar ganolfan arfer gorau CCS, ynghyd â pholisi drws agored tîm y safle a dull cyfeillgar wedi helpu creu awyrgylch cadarnhaol gyda chymdogion a rhanddeiliaid a fydd yn gadael delwedd gadarnhaol o'r diwydiant.” Brian Jones
Monitor CCS

O gwblhau, cynhaliwyd Gweithdai Gwersi a Ddysgwyd gyda'r gadwyn gyflenwi, y dylunwyr a'r cleient a lledaenwyd y wybodaeth o'r rhain. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad llawn o'r strategaeth tân ar y cyd â Rheoli Adeiladu yng ngoleuni tân Tŵr Grenfell.

Roedd ansawdd y dyluniad yn ysgogwr mawr i'r Tîm Prosiect ar y Cyd a Chyngor Dinas Abertawe. Gweithiodd Tîm y Prosiect yn galed i ddod o hyd i atebion creadigol a gyflwynodd ddyluniad ansawdd uchel mewn cyllideb heriol. Yr hyn a gyflawnwyd yw adeilad nad yw ond yn cynnig llety safon uchel i drigolion ond mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd adeiledig ehangach ac adfywiad yr ardal amgylchynol.

Canlyniadau a chyflawniadau

- Enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth leol, y cleient, y contractwr, y tîm dylunio a'r gadwyn gyflenwi
- Dyluniad ansawdd uchel
- Gwireddwyd y gwaith adnewyddu ac ansawdd y dyluniad
- Daethpwyd ag adeilad segur yn ôl i ddefnydd
- Ail-grëwyd ffrynt stryd gweithgar
- Adfywiad o'r ardal ehangach
- Aed i'r afael â'r angen am dai a chefnogwyd teuluoedd a effeithiwyd gan y Dreth Ystafell Wely
- Defnyddio dulliau adeiladu modern
- Sgôr CCS o 40 a Thystysgrif Cydymffurfiaeth y Tu Hwnt i Berfformiad
- Darparu 32 o fflatiau rhent fforddiadwy
- Darparu lle llawr masnachol i gynorthwyo gydag adfywio a chreu swyddi ehangach
- Mentrau buddiannau cymunedol:
- Ymgysylltu ag ysgolion cynradd – sgysiaau am ddiogelwch safleoedd a gyrfaedd adeiladu, poster, rhoi gwobrau
- 7 digwyddiad adeiladu a gyrfaedd
- 4 ymweliad ag ysbyty Treforys – Nadolig gyda Siôn Corn, Cwningen y Pasg a bagiau rhoddion
- Cystadleuaeth rygbi tag Clwb Rygbi Treforys
- Rhoddion elusennol lleol – Aren Cymru, Hosbis Tŷ Olwen Treforys, Cronfa Fwyd Abertawe
- Rhoddion/nawdd elusennol £9,436
- Llafur/nwyddau/gwasanaethau mewn da £3,390
- Prosiect celf stryd PCDDS a ddyluniwyd o gwmpas hanes Abertawe
- Gwariant o 94% ar BBaChau Cymraeg
- Gwariwyd 99% o werth y contract yng Nghymru
- Dargyfeiriwyd 100% o wastraff o safleoedd tirlenwi
- Prosiect Gweithdai Gwersi a Ddysgwyd

Antonia John

Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned

Morganstone

Ff: (01554) 779123

E: antonia.john@morganstone.co.uk



Pentref Gardd Loftus

Lovell gyda Grŵp Pobl a Chyngor Casnewydd

Cynllun eithriadol yw Pentref Gardd Loftus sy'n cyflawni 250 o gartrefi newydd sy'n llwyr gyfuno'r cymdeithasol, rhent canolradd/marchnad, cartrefi ar werth a chydberchnogaeth. Fe'u hadeiladwyd ar hen safle Ffatri Ceblau Pirelli, ac mae'n fenter arloesol rhwng Grŵp Pobl, Cyngor Casnewydd, Llywodraeth Cymru a Lovell.

Roedd gan Pobl weledigaeth uchelgeisiol i ailddiffinio'r hyn allai gael ei gyflawni ar safle anghyfannedd mewn ardal heriol o Gasnewydd ac roedd eisiau 'creu lle y byddai pobl yn dyheu i fyw ynddo'. Er mwyn gwireddu eu gweledigaeth, roedd angen iddynt fod yn fentrus a gwneud llawer mwy na dim ond adeiladu cartrefi ansawdd uchel, wedi'u dylunio'n dda.

Roedd Lovell am sefydlu amgylchedd lle gallai'r gymuned ffynnu, gan roi cymaint o bwyslais ar yr amgylchedd allanol â'r cartrefi eu hunain. Roedd y swm helaeth o dirweddu'n gofyn i Lovell fabwysiadu dull arloesol, moesegol o reoli a chynnal a chadw, gan ddiogelu'r weledigaeth i genedlaethau'r dyfodol mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy.

Roedd Pobl am symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol o ddylunio'r isadeiledd a dull 'tocynistaidd' o droi at yr amgylchedd wedi'i dirweddu, sydd wedi arwain at gynifer o ddatblygiadau diflas a di-enaidd, a chreu Pentref Gardd i Gasnewydd lle mae'r dirwedd allanol cyn bwysiced â'r cartrefi eu hunain. Fe'u dyluniwyd gyda lle gwyrdd canolog, lleoedd parcio y tu ôl i'r cartrefi gan roi teimlad taclus i'r strydoedd coediog, plannu cyfeillgar i'r amgylchedd a chyda'r dŵr glaw yn cael ei gynaeafu a'i ryddhau i nodwedd ddŵr ganolog, dyluniwyd y cartrefi gan ddefnyddio dull 'ffabrig yn gyntaf' heb y gofyniad am dechnolegau 'cysylltiol'.

Bu rhaid i'r tîm oresgyn gwrthwynebiad lleol hir yn ymwneud â chysylltiad y stryd â'r cartrefi newydd ac roeddent yn angerddol o ran eu dymuniad i gyflawni cynllun tai clir a fyddai o fantais i'r gymuned gyfan. Cyflawnon nhw hyn trwy ymgynghori helaeth ac a ystyriwyd yn ofalus gyda'r gymuned leol ac ystyriaethau dylunio.

Mae Pobl wedi gostwng y rhestr aros sylweddol yng Nghasnewydd trwy'r datblygiad hwn trwy ddarparu 60% o'r cartrefi fel rhai fforddiadwy heb unrhyw Grant Tai Cymdeithasol i drigolion a fyddai fel arfer yn cael trafferth camu ar yr ysgol eiddo. Darparwyd dewis eang o gartrefi yn amrywio o fflatiau 1 ystafell wely i gartrefi teuluol 4 ystafell wely, gyda'r eiddo ar gael ar draws pob deiliadaeth. Cynigiwyd 19 cartref yn bennaf trwy gydberchnogaeth ar sail gydweithredol ac mae cartrefi o wahanol ddeiliadaethau wedi'u britho ar hyd y datblygiad i sicrhau cymuned hollol integredig a chynhwysol.

Mae cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned leol wedi bod yn annatod i ddatblygiad prosiect y Pentref Gardd, gyda phwyslais cyfartal ar ddatlhu hanes y safle a'r pwysigrwydd i'r ardal leol - ymrwymiad a adlewyrchwyd yn glir wrth enwi'r datblygiad er anrhydedd i Ruby Loftus o Gasnewydd. Daeth Ruby'n enwog yn y 1940au pan gafodd ei pheintio gan yr arlunydd rhyfel, sef y Fonesig Laura Knight a aeth ymlaen i fod yn un o ddelweddau mwyaf eiconig y rhyfel ac mae'r datblygiad newydd yn dathlu'r cof amdani a gorffennol y safle.

Yn ogystal, mae stori Ruby Loftus wedi'i choffáu trwy gyfres o brosiectau cymunedol, gan gynnwys murluniau graddfa fawr a grëwyd gan fyfyrwyr celf Coleg Gwent ar gyfer palisiau'r safle adeiladu. Mae gweithgareddau eraill y gymuned wedi cynnwys sgysiaid mewn ysgolion, dechrau clybiau garddio, creu arwyddion arafu er diogelwch a gweithio gyda cholegau addysg bellach lleol.

"Rydym yn hynod gyffrous o weithio gyda'n partneriaid i ddod â'r pentref gardd hwn o'r 21ain ganrif i Gasnewydd. Mae llawer mwy i Bentref Gardd Loftus na dim ond cartrefi fforddiadwy. Yn ogystal â chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol, bydd LGV yn gymuned gynhwysol lle gall pobl ffynnu a themlo'n falch o fyw a thyfu gyda'i gilydd"

- Amanda Davies, Prif Weithredwr, Grŵp Pobl

Canlyniadau a chyflawniadau:

Wrth ddatblygu Pentref Gardd Loftus, mae Lovell yn falch o fod wedi cyflawni'r manteision canlynol i'r ardal leol:

- Ennill 'Datblygiad Preswyl Gorau'r Flwyddyn'; - Gwobrau Eiddo Insider Wales, gydag un o'r beirniaid yn crybwyll y 'bydd yn lle gwych i fyw ynddo'.
- Cael eu cynnwys ar y Rhestr Fer am Wobr 'Prosiect y Flwyddyn – Adeiladau' Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (2016-2017)
- Cyflawni pob cartref fforddiadwy heb Grant Tai Cymdeithasol.
- Cael 18 prentis i gwblhau, sy'n gyfwerth â thros 800 o wythnosau prentisiaeth.
- Cyflogi 4 o bobl ar y prosiect oedd yn ddi-waith cyn hynny.
- Darparu 31 o leoliadau gwaith o Goleg Gwent yn y crefftau canlynol – gwaith coed, plymwaith, gwaith brics a thrydanol
- Darparu profiad adeiladu mewn gwaith tir i 4 o bobl o'r ganolfan byd gwaith

- Sicrhau bod 3 o bobl leol o Gasnewydd ar y cynllun prentis ar y cyd
- Sicrhau 3 lleoliad graddedig.
- Darparu 108 wythnos o brofiad gwaith.
- Cwblhau 4 NVQ – Rheolwr Safle Dan Hyfforddiant sydd wrthi'n cwblhau NVQ Lefel 6 gyda NHBC.
- Ymgysylltu â thros 200 o blant ysgol lleol trwy sgysiau hanes, ymweliadau safle a chyfweliad gyda dwy ddynes oedrannus a weithiodd yn y ffatri.
- Cael eu dewis gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru am ei Gynllun 'Galluogi Dim Gwastraff' – ailgylchu helaeth ar y safle gyda 90% o wastraff adeiladu'n cael ei aildefnyddio.
- Defnyddio 90% aruthrol o gyflogaeth leol.
- Ennill Gwobr Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol a Chenedlaethol Lovell 2017.

Gemma Clissett

Cyfarwyddwr Partneriaethau Rhanbarthol

Lovell

Ff: (07816) 138239

E: gemma.clissett@lovell.co.uk

Mae'r wobwr hon yn cydnabod arferion a dulliau llwyddiannus a chreadigol sy'n ailfeddwl gwasanaethau er mwyn cyflwyno gwell canlyniadau a chynyddu effeithlonrwydd. Dangosant arferion a dulliau sy'n mynd i'r afael â phroblem neu angen penodol, "cyn ac ar ôl" sefyllfaoedd sy'n arddangos gweithrediad llwyddiannus, a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr a gwerth am arian.



Outside in – preventing homelessness together

Charter Housing (Grŵp Pobl) gyda Thîm Digartrefedd Cyngor Caerffili

Prosiect cydweithredol yw hwn rhwng Tîm Rhenti ac Atebion Ariannol Charter Housing a Thîm Digartrefedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Wrth wraidd y prosiect, mae ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd a achosir trwy ôl-ddyledion rhent difrifol. Mae'r berthynas gref rhwng timau yn y ddau sefydliad wedi golygu trwy ymgysylltu ac asesu'n gynnar, gall Charter Housing atal troi allan a diogelu tenantiaethau.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i gyflawni gwaith atal digartrefedd. Gwnaed cyswllt blaenorol dim ond gyda thîm Digartrefedd Caerffili gan Charter Housing pan gadarnhawyd dyddiad troi allan (gwarant) gan y llys.

Er mis Mawrth 2016, gweithredwyd y trefniant gweithio newydd lle:

- Nad yw Tîm Rhenti Charter yn gallu ymgysylltu gyda thenant ac maen nhw ar y cam o fynd ag achos i'r llys am wrandawiaadau cymryd meddiant. Dyma ddechrau'r broses troi allan o bosibl.
- mae gorchymyn (cymryd meddiant) llys wedi'i ohirio blaenorol am ôl-ddyledion rhent wedi'i dorri ac mae'r taliadau cytûn wedi'u colli gan y tenant.

Mae Tîm Rhenti Charter yn anfon atgyfeiriad e-bost at Dîm Digartrefedd Caerffili. Maen nhw'n codi'r achos yn syth ac yn cychwyn cyswllt trwy ymweliadau â'r cartref, galwadau ffôn, post ac e-bost. Cynghorant y tenant o ran pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa, pa mor agos gallen nhw fod at fynd yn ddigartref, beth mae hyn yn ei olygu a sut gallant helpu.

Bu'r ymyriad yn gadarnhaol dros ben. Mae Caerffili wedi ymgysylltu ag atgyfeiriadau Charter Housing i wneud ceisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn, gan wneud hawliadau am fudd-dal tai, nodi hawliau eraill i fudd-daliadau a throi at y gronfa ddigartrefedd. Cafwyd gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent, cynnydd yn incwm y cartref, ac ymgysylltiad â landlordiaid, ac yn bwysicach na dim, mae wedi atal tenantiaid rhag colli eu cartrefi.

Mae'r ymgysylltiad holistaidd hwn a'r bartneriaeth newydd yn ateb arloesol sy'n gweithredu yn y camau cynnar. Dengys tystiolaeth mai newidiadau mewn budd-daliadau, aelwyd, cyflogaeth, materion iechyd a chynnydd mewn dyledion yw'r prif resymau y mae tenantiaid yn cwmpo'n ôl ar eu rhent.

Nid yn unig y mae'r bartneriaeth gyda Digartrefedd Caerffili wedi cynyddu cynaliadwyedd ariannol y rhai a atgyfeiriwyd, ond i lawer o denantiaid, mae wedi atal digartrefedd yn sgil troi allan, sy'n costio 24 miliwn o bunnoedd y flwyddyn i economi Cymru. Cynigia'r fenter seiliedig ar gymorth hon ateb rhagweithiol, priodol a sensitif i denantiaid, y mae llawer ohonynt yn ddi-amddiffyn. Ceisia ailadeiladu perthynas gadarnhaol rhwng Charter Housing a'i denantiaid.

Mae'r ganmoliaeth hon gan dîm Digartrefedd Caerffili'n tynnu sylw at y broses:

"Roeddem yn ymwneud â'r tenant 'LT' ar ddau achlysur. Bu yn y ddalfa ac ar ôl cysylltu ag 'NC' [Rheolwr Gwasanaethau Llys Charter], prawf a'i gymydog, gwnaeth gyswllt. Aethom i'r llyfrgell a gwneud hawliad newydd am Fudd-dal Tai a gofynnwyd am daliad wedi'i ôl-ddyddio a gefnogwyd gan lythyr wrthyf innau'n trafod sgiliau llythrennedd a phroblemau iechyd meddwl parhaus y gŵr bonheddig. Rhoddwyd ôl-daliadau budd-dal tai o dros £3000 iddo glirio'i ôl-ddyledion".

Heb yr ymyriad ar y cyd hwn, mae'n debygol y gallai'r tenant hwn fod wedi'i droi allan. Gweithiodd Tîm Caerffili gyda'r tenant i gadw'u cartref a chynnal sefydlogrwydd yn eu bywyd pan oedden nhw'n mynd trwy gyfnod anodd.

Bu perthnasoedd cryf rhwng adrannau'n hollbwysig. Cefnogwyd y tîm Digartrefedd yn dda gan yr adran Budd-daliadau Tai yng Nghaerffili, ac fel y dangoswyd yn yr achos uchod, mae hyn wedi helpu gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.

Ni fu erioed adeg fwy tyngedfennol i landlordiaid cymdeithasol gydbwyso calon gymdeithasol gyda phen masnachol. Nid yn unig y mae diwygiadau lles fel y dreth ystafell wely, y terfyn budd-daliadau, Credyd Cynhwysol a thoriadau mewn budd-daliadau yn ei gwneud hi'n anos i'r rhai ar incwm cyfyngedig dalu eu rhent mewn pryd, ond mae hefyd yn herio'r sefydliad ymhellach i gasglu'r incwm rhent blynyddol o £22 miliwn i ddarparu cartrefi a gwasanaethau hanfodol.

Mae'r bartneriaeth arloesol hon yn rhannu adnoddau ac yn dangos y cryfder wrth weithio'n gydweithredol i ddiogelu cartrefi'r tenantiaid, eu bywydau a'u teuluoedd, yn ogystal â darparu gwerth am arian.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Ers dechrau'r bartneriaeth (Mawrth 2016), o'r achosion a gysylltodd gyda thîm Digartrefedd Caerffili, cafodd pob un o'r 8 eu hatal rhag cael eu troi allan.

Gwnaeth yr ôl-ddyledion wneud cyfanswm o £7,821 gyda'i gilydd a dyma oedd y canlyniadau llwyddiannus:

- cyflawni cyfradd ymgysylltu o 100%
- Cyngor Caerffili yn helpu Charter Housing Association i glirio tri chyfrif rhent yn llawn gyda £6,656 yn dod i law mewn Budd-dal Tai a Thaliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi'u ôhl-ddyddio/heb eu hawlio.
- Lleihau ôl-ddyledion rhent ar y pum cyfrif oedd yn weddill gan 82% yn gyffredinol, a gyflawnwyd hefyd trwy gymorth Caerffili o ddyfarnu Budd-dal Tai a Thaliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi'u hôl-ddyddio. Ar gyfer y £1,405 o ôl-ddyledion rhent oedd yn weddill, gwnaed cytundebau newydd gyda Charter i glirio.

Yn ôl y 'Troubled Families Costs Database' (2013), amcangyfrifir bod cymdeithasau tai fel Charter yn gwario £8,000 ar gyfartaledd mewn costau troi allan uniongyrchol. Mae'r costau hyn yn cynnwys rhent/ôl-ddyledion heb eu talu, costau atgyweirio, colledion rhent pan fo'r eiddo'n wag, amser staff a chostau llys/gweinyddu. Fodd bynnag, efallai mai cost ddynol enfawr digartrefedd yw'r gost fwyaf ac ni ellir esgeuluso hyn. Amcangyfrifir ei fod yn costio £24 miliwn y flwyddyn i economi Cymru i ddarparu llety dros dro, prosesu ceisiadau i'r digartref a rhoi cefnogaeth ar ôl i bobl gael eu troi allan.

Mae gan y prosiect atal digartrefedd llwyddiannus a chydweithredol hwn ddull sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n gweithio'n hollistaidd gydag amgylchiadau unigol tenantiaid Charter Housing, gan eu cefnogi nhw i aros mewn cartref y gallent fod wedi cael eu troi allan ohono'n flaenorol.

Angela Nansera

Rheolwr Gweithrediadau (Rhenti)

Charter Housing (Grŵp Pobl)

Ff: (07905) 201097

E: angela.nansera@charterhousing.co.uk



Tîm Cartrefi Newydd

Tai Sir Fynwy

Wrth ddadansoddi cynhaliaeth tenantiaeth, cydnabyddodd Tai Sir Fynwy fod tenantiaid cychwynnol yn anghymesur yn fwy tebygol o fod mewn ôl-ddyledion, yn cael trafferth gyda chyfrifoldebau tenantiaeth ac yn dod â thenantiaethau i ben mewn ffordd ddi-gynllun. Roedd hyn yn aneffeithlon ar gyfer Tai Sir Fynwy, yn drawmatig i denantiaid ac yn golygu goblygiadau difrifol i'w partneriaid. Ystyriwyd mai dull dramatig a deinamig oedd i'r ateb cost effeithiol. Roedd Tai Sir Fynwy'n benderfynol o fod yn arweinwyr ac nid yn ddilynwyr sector.

Cafodd Tai Sir Fynwy wared ar ei hen safon ddi-rym a chyflwynwyd un blaengar yn y sector, ar sail gwario i arbed, gan lwyddo i fodloni'r cwsmeriaid. Cred Tai Sir Fynwy fod ganddo'r safonau ailosod uchaf yng Nghymru os nad y DU, gan gynnwys addurn llawn ym mhob eiddo a charpedi ym mhob fflat. Allan â'r hen a chyflwyno'r tîm Cartrefi Newydd ym mis Mai 2016 gan ddarparu gwasanaeth wedi'i drawsnewid i denantiaid cychwynnol.

Ymwelodd Tai Sir Fynwy â landlordiaid cymdeithasol y DU i chwilio am arloesedd, cynhalion nhw arolwg a chyflwiliadau gyda thenantiaid, a siaradon nhw gyda chydweithwyr a phartneriaid. Treuliyd amser yn saerño dull newydd o wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud pethau'n iawn, gan roi i bawb beth oedden nhw eisiau ac ychydig eto. Er mis Hydref 2016, mae Swyddogion Cartrefi Newydd ymroddedig yn cyflwyno'r gwasanaeth rheoli tai cychwynnol newydd, o gyn-denantiaeth i'r ymweliad naw mis; dim ond pan fydd tenantiaethau'n dod yn sicr y mae tenantiaid yn symud i dimau incwm a chymdogaeth y sefydliad.

Mae'r swyddogion yn cwblhau asesiad manwl cyn-tenantiaeth 'It's all about you', sy'n dal anghenion a risgiau tenantiaeth, asesiad ariannol gydag archwiliad credyd, ffocws 'rhent yn gyntaf' a seren canlyniadau a chynllun gweithredu. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr ar y cam hwn am eu 'cyfradd RAG', gan benderfynu ar lefel y gefnogaeth byddant yn ei chael gan eu Swyddog Cartrefi Newydd, a gwneir atgyfeiriadau llwybr cyflym i wasanaethau ariannol/cymorth yn ôl yr angen.

Mae Tai Sir Fynwy wedi gwella'r ffordd maen nhw'n cyfathrebu hefyd, yn ystod ymgynghoriad, dywedodd y tenantiaid iau wrth y sefydliad am ddefnyddio gwahanol

gyfryngau, felly datblygon nhw animeiddiadau – darparodd actorion lleol uchelgeisiol leisiau gan roi profiad defnyddiol ar gyfer eu ceisiadau i'r coleg. Datblygwyd tudalen gwefan 'tenant newydd' oedd yn cynnwys ffilmiau, manylion y tîm a lluo o ddogfennau defnyddiol.

Gan wrando ar adborth y tenantiaid, tynnodd Tai Sir Fynwy'r holl weinyddiaeth nad oedd wir ei angen ar y diwrnod cofrestru. Crëwyd 'taflen cerdded o gwmpas' i sicrhau bod y tenantiaid yn cael eu cyflwyno'n gywir i ystafelloedd ac offer. Gwneir cais am fudd-daliadau a grantiau wrth gofrestru, gan gynnwys DAFs, ond fel arall mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar eiddo a'r cyfreithiol, gan alluogi'r tenantiaid i ganolbwyntio ar symud i mewn.

Yn ystod yr ymweliad un mis, mae'r staff yn casglu data mewnwelediad y tenantiaid, gwybodaeth werthfawr am anghenion digidol, ariannol a chymdeithasol ac yn cwblhau arolwg cwsmeriaid. Adolygir cyfrifon rhent a thrafodir atgyfeiriadau i wasanaethau cynhwysiant/cynnwys.

Mae perthnasoedd yn allweddol i Swyddogion Cartrefi Newydd sy'n cario baich achosion o ddim mwy na 100 o denantiaethau, gan roi iddynt y gallu i dreulio amser manwl gyda thenantiaid, gan ddod o hyd i atebion ar y cyd i faterion ac anawsterau, fel Credyd Cynhwysol, a dysgu rheoli eu cartref newydd.

Yn yr ymweliad 9 mis, adolygir y denantiaeth a rhoddir gwybod i'r tenantiaid a fyddant yn symud ymlaen i denantiaeth sicr ai peidio. Gofynnir i'r tenantiaid gwblhau eu hail seren canlyniad gan ddarparu data ansoddol gwerthfawr a ddefnyddir i fesur llwyddiant y gwasanaeth. Mae adborth y tenantiaid yn gadarnhaol dros ben a chaiff y staff eu cymell gan ac maen nhw'n ymroi i gyflwyno gwasanaethau.

Cymeradwyaeth:

Monmouthshire HomeSearch: **"mae'r tîm Cartrefi Newydd wir wedi gwrando ar ein sylwadau a'n syniadau i wella'r system. Mae'r newidiadau wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar ganlyniadau, ein perthynas, a'n hymgeiswyr"**.

Mind Sir Fynwy: **"Hoffwn ddiolch i bawb oedd ynghlwm pan symudodd D yn ddiweddar. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed i sicrhau bod ei fflat yn cynrychioli popeth roedd ei eisiau ac yn iawn o ran y ddaeryddiaeth. Gobeithio y bydd hyn o gymorth iddo drawsnewid i fyw yn annibynnol.. – gweithio mewn partneriaeth ar ei orau"**!

Mr G, tenant: **"Diolch yn fawr am eich holl help - allwn i ddim bod wedi gofyn am ragor o gefnogaeth..mae symud i mewn i'm cartref newydd wedi fy ngwneud i'n fwy cyffrous a hapus nag yr wyf i wedi bod erioed"**.

Mr S, tenant: **"Mae popeth o'r safon uchaf, rydw i wedi cael bywyd newydd, allech chi ddim â bod wedi gwneud yn well – newidiodd Tai Sir Fynwy fy mwyd"**

Gweithredwr Gwasanaethau Adeiladu: **“Rwy’n cymryd cymaint yn fwy o falchder yn yr hyn rydyn ni’n ei wneud i’n tenantiaid nawr, fe fyddwn i’n symud i mewn i un o’n cartrefi ailosod yfory, dyna pa mor dda ydyn nhw”.**

Canlyniadau a chyflawniadau:

O adroddiad diwedd blwyddyn 2016/17:

Ôl-ddyledion Tenantiaid Cychwynnol: Ym mis Mehefin 2016, roedd ôl-ddyledion cychwynnol yn sylweddol uwch na’r lefel ôl-ddyledion cyffredinol, ar 3.73% o gymharu â 2.6%. Lleihawyd ôl-ddyledion tenantiaid cychwynnol gan ddwy ran o dair ym mis Mawrth 2017 i 1.29% ac mewn gwirionedd roedden nhw’n is na’r lefel ôl-ddyledion cyffredinol. At hynny, mae nifer y tenantiaid cychwynnol mewn ôl-ddyledion bron wedi haneru o 65% ym mis Mai 2016 i 33.92% ym mis Mawrth 2017.

Diwedd tenantiaethau cychwynnol: Cwmpodd diwedd tenantiaethau cychwynnol y flwyddyn yn ddramatig i 11 yn 2016/17 o 26 yn 2015/16, gostyngiad o 58%. Mae llawer llai o NoSPs yn cael eu rhoi i gychwynwyr ac ni chyflwynwyd yr un Adran 21 i denantiaeth gychwynnol yn y flwyddyn gyntaf o wasanaeth.

Arolygon bodlonrwydd: Yn ystod 2016/17, mae 100% o denantiaid yn adrodd eu bod yn ‘fodlon’ neu’n ‘fodlon iawn’ gyda’u cartref newydd.

Tenantiaethau cychwynnol estynedig: Lleihaodd nifer y tenantiaethau cychwynnol estynedig fel canran o’r cyfanswm gan draean (o 6.94% i 4.09%) ac mae mwy na 95% o denantiaid cychwynnol bellach yn symud ymlaen i denantiaethau sicr.

Tystiolaeth arall: Mae gwell perthnasoedd swyddog/tenantiaid wedi arwain at lai o denantiaid yn colli apwyntiadau wedi’u trefnu ymlaen llaw, gyda chyfartaledd o ddim ond tri apwyntiad NHO yn cael eu colli fesul mis. Gwnaeth y swyddogion dros 70 o atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol mewnlol ac allanol ar gyfer y 200+ o denantiaid cychwynnol y gweithion nhw gyda nhw yn 2016/17.

Yr eisin ar y gacen: Mae amserau ailosod Tai Sir Fynwy wedi cwmpo o 35 niwrnod i 21, mae eu trosiant tenantiaeth wedi cwmpo o 11% i 7.2%. Mae’n cadw gwella!

Julie Nicholas

Rheolwr Cartrefi Newydd

Tai Sir Fynwy

Ff: (01495) 767178

E: julie.nicholas@monmouthshirehousing.co.uk



Achubwyr Lle Gwag

Cymoedd i’r Arfordir gyda Chymdeithas Tai Newydd, Tai Sir Fynwy, Tai Calon Community Housing ac United Welsh

Mae datblygu ac adfywio cymunedol yn llwyddiannus dim ond os oes ganddo ystyr i’r bobl sy’n byw yn ein cymunedau. Ond sut mae sicrhau bod ein prosiectau’n arwyddocaol i’n tenantiaid? Mae ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu’n offer defnyddiol, ond allwn ni gyrraedd pwynt lle mae adfywio’n cael ei gychwyn yn wirioneddol gan y cymunedau eu hunain?

Allwn ni ddod o hyd i ddull lle daw’r gymdeithas tai’n un actor ar y llwyfan y mae’r trigolion yn ei gyfarwyddo?

Dyna’r dull sy’n cael ei arloesi gan Achubwyr Lle Gwag. Fe’i sefydlwyd tair blynedd yn ôl gyda chyllid y Loteri Fawr. Mae Achubwyr Lle Gwag yn mynd i gyfeiriad newydd yn 2017, gan symud ymlaen fel gwasanaeth ar y cyd rhwng partneriaid cymdeithasau tai.

Mae’r model gwasanaeth ar y cyd yn cael ei ddefnyddio’n llwyddiannus i archwilio ar draws sawl cymdeithas tai trwy Barcud. Mae’n ffordd arloesol o gyflwyno gwasanaeth a sicrhawyd yn flaenorol gan gwmnïau allanol. Fodd bynnag, mae Achubwyr Lle Gwag yn ffordd o gyflwyno gwasanaeth newydd sy’n plethu â buddsoddiad cymunedol a gweithgareddau adfywio. Mae’n ychwanegu at fentrau cymunedol ac adfywio trwy ymgysylltu gyda thrigolion fel sefydliad annibynnol. Galluoga hyn i gymdeithasau tai gymryd cam yn ôl wrth i’r trigolion symud eu blaenoriaethau eu hunain ymlaen ar gyfer manau agored. Mae’r

swyddogion Achubwyr Lle Gwag yn ofalus i wneud yn glir y gallai neu na allai'r gymdeithas tai ariannu unrhyw un o'r gwelliannau, ond bod yna lifoedd ariannu posibl ar gael. Mae hyn yn cynnal y brwdfrydedd ond yn rheoli'r disgwyliadau. Mae'n osgoi dechrau'r sgwrs am ddefnyddio lle agored ar sail yr hyn y mae'r gymdeithas tai eisiau ei weld neu'n gallu ei ariannu, sy'n rhoi cyfyngiadau ar syniadau o'r dechrau. Mae'n berthnasol i drafodaeth am unrhyw le agored sydd o fewn cyrraedd y cyhoedd, ni waeth beth yw'r berchnogaeth.

Nid ymgynghoriaeth adfywio allanol mohono. Fe'i gweithredir gan y cymdeithasau tai er lles tenantiaid a thrigolion yn unig. Ei brif bwrpas yw addysg, wedi'i chyfeirio at bobl sydd efallai heb fod yn agored i weithgareddau addysgol. Mae'n canolbwyntio ar frwdfrydedd y trigolion i weld rhywbeth gwell yn eu cymunedau ac yn eu paratoi nhw gyda gwybodaeth am effeithiau e.e. newid hinsawdd, chwarae naturiol, dyluniad stryd da, tyfu bwyd lleol, draenio trefol a manau gwyrdd.

I rai grwpiau, mae'r wybodaeth hon ar ei phen ei hun yn ddigon i fynd ati, er enghraifft gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus i ddechrau grŵp codi sbwriel. Aeth grŵp arall at bot ariannu bach i blannu coed ffrwythau treftadaeth yn eu hardal leol. Hwyrach fod gan gymunedau eraill gynlluniau mwy cynhwysfawr, a gellir eu rhoi trwyddo i weithio gydag ymgynghorwyr cymunedol ac amgylcheddol, fel Cadwch Gymru'n Daclus, Groundwork neu Eggseeds. Anogant y grwpiau i ymgymryd ag ymchwil ac ymgynghori eu hunain er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r cynlluniau. Yna, cynhyrchant gynlluniau amlinellol cost fras, a fu'n destun ymgynghori, cynlluniau ar gyfer gwelliannau y gallant geisio am gyllid ar eu cyfer, gyda'r gymdeithas tai fel un cyllidwr posibl.

Beth sy'n arloesol am Achubwyr Lle Gwag:

- Cyflwyniad lled braich sy'n galluogi trigolion i benderfynu ar eu blaenoriaethau'n annibynnol
- Gwybodaeth gynhwysfawr am ddefnyddiau lle agored eraill a'u heffeithiau, gan alluogi'r trigolion i wneud penderfyniad cwbl ddeallus
- Sesiynau wedi'u teilwra yw gweithdai a gyflwynir yn y gymuned
- Mae'r trigolion eu hunain yn mynd trwy bob cam o brosiect adfywio - gan gynnwys ymgysylltu, ymgynghori â phobl leol, ceisiadau am gyllid – er mwyn bod yn hunan-gynhaliol a chreu rhwydweithiau cymunedol
- Gall y grŵp trigolion weithio'n uniongyrchol gydag ymgynghorwyr y gymuned a'r amgylchedd i lunio cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer yr ardal leol, heb gyfyngiadau rhagdybiaethau a chyllidebau'r gymdeithas tai
- Gall y canlyniadau fod yn syml ac yn isel o ran cyllideb, e.e. grŵp casglu sbwriel unwaith y mis, neu ddigwyddiad plannu blodau
- Gall cymdeithasau tai godi'r dyluniadau ar gyfer cyflawni os ydyn nhw'n ffitio gyda'u meysydd blaenoriaeth a chyllidebau.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae canlyniadau'r tair blynedd gyntaf yn cynnwys:

Sefydlwyd 56 prosiect cymunedol ffurfiol ac aed â nhw trwyddo i'r cam dylunio. Cyd-gynhyrchwyd adroddiadau prosiect grymus rhwng y cyfranogwyr a sefydliad cefnogol, a oedd yn cwmpasu perchnogaeth o'r tir, dyluniadau, costau a materion cynaliadwyedd. O'r rhain, aeth 23 ymlaen i fod yn gyfansoddiadol. Ymgysylltodd 948 o denantiaid a thrigolion â'r rhaglen ddysgu.

Cynnydd o 80% yng ngallu a hyder y cyfranogwyr i ddatblygu cynlluniau prosiect. Cydlynid cymunedol – adroddodd 90% o gyfranogwyr ostyngiad mewn rhwystrau rhwng grwpiau yn eu cymuned leol ac adroddodd 75% o'r cyfranogwyr gynnydd yn eu rhwydweithiau cymdeithasol.

Adroddodd 90% gynnydd sylweddol mewn dealltwriaeth o'r amgylchedd, yn y cyd-destun lleol ac ehangach. Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a darparwyr gwasanaeth eraill ar atebion – adroddodd 90% fwy o ddealltwriaeth o ddarparwyr gwasanaeth lleol.

Canlyniadau ers Achubwyr Lle Gwag Rhan II

Dynodwyd dros 30 o ddarpar brosiectau dan arweiniad tenantiaid newydd er mis Ebrill 2017, cynhaliwyd 11 ymgynghoriad a chyflwynwyd 3 gweithdy. Mae rhyw 55 o denantiaid newydd eisoes wedi cymryd rhan.

Rachel Morton

Swyddog Adfywio Cymunedol

Cymoedd i'r Arfordir

Ff: (01656) 762431

E: rachel.morton@v2c.org.uk

DEFNYDDIO TECHNOLEG A HYRWYDDO CYNHWYSIANT DIGIDOL

Mae'r wobwr hon yn cydnabod sefydliadau tai sy'n dangos defnyddiau arloesol o dechnoleg neu'n datblygu prosiectau sydd wedi cynyddu cyfraddau mabwysiadu technoleg, gan leihau anghydraddoldeb neu eithriad digidol. Dangosant ddyluniad arloesol, eu bod wedi gweithio gyda'r gymuned i sicrhau cefnogaeth leol ac wedi darparu gwerth am arian.



Taith weithio chwim Melin

Cartrefi Melin

Dechreuodd Melin ar daith weithio chwim ddwy flynedd yn ôl, sydd wedi cymell arbedion effeithlonrwydd busnes ac wedi gwella gwasanaeth cwsmeriaid i'w drigolion ar raddfa eithafol.

Yn wreiddiol, roedd Melin mewn sefyllfa lle'r oedd eu gweithlu uniongyrchol cyfan (oedd yn cynnwys 40 o beintwyr, trydanwyr, peirianwyr nwy a phlymeriaid) yn ymweld â'r swyddfa bob bore er mwyn codi eu taflenni gwaith am y diwrnod o'u blaenau, gan dreulio amser gwerthfawr yn teithio yn hytrach na chyflawni atgyweiriadau. Yn ogystal, roedd pob un o'u staff yn y swyddfa'n treulio oriau di-ben-draw wrth eu desgiau'n ymgymryd â thasgau gweinyddol yn lle cyflawni gwasanaethau gwerthfawr i'r trigolion.

Sefydlodd Melin weithgor o staff gwirfoddol yn gyflym er mwyn nodi sut i symud ymlaen, gan sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr drwy'r sefydliad er mwyn i bawb deimlo'n rhan o'u taith weithio chwim.

Edrychodd y sefydliad ar lawer o wahanol ddewisiadau, gan amrywio o atebion technegol a hyd yn oed ymweld â sefydliadau eraill i benderfynu ar arfer gorau.

Sylweddolodd Melin fod angen i'r hyn oedd yn rhaid iddynt ei wneud fod yn iawn iddynt hwy a gweddu i'w

diwylliant cynhwysol gan weithio hefyd gyda'u systemau TG presennol i wella'r hyn roedd ganddynt yn barod.

Roedd eu ffocws cychwynol ar eu gweithlu uniongyrchol, i gyfyngu ar eu hamser teithio i gyflawni mwy o atgyweiriadau, ac felly cael yr effaith fwyaf ar wasanaethau'r rheng flaen. Felly, gweithiodd Melin yn agos gyda'r darparwr system rheoli tai i ddod y gymdeithas tai gyntaf yng Nghymru i roi'r ateb gweithio symudol TotalMobile(TM) ar waith gyda'u gweithlu uniongyrchol. Roedd hwn yn brosiect o flwyddyn sy'n galluogi staff yn y pen draw i droi at eu gwaith pob dydd ar ddyfais llaw a chael mynediad uniongyrchol yn ôl i'r system rheoli tai, gan waredu ar yr angen i ddod i'r swyddfa o gwbl. Ac ni stopiodd Melin yn y fan honno.. ers hynny, maen nhw wedi rhoi TM ar waith i reoli dyledion, rheoli cwsmeriaid, archwiliadau ar adeiladau a thimau diogelwch cymunedol er mwyn i'w gwasanaethau cwsmeriaid allu cynnal eu dyletswyddau o ddydd i ddydd pan fyddan nhw allan ar hyd y lle, yn hytrach na diweddarau eu systemau yn ôl yn y swyddfa. Grymusodd hyn y staff i weithio mwy yn ôl eu menter eu hun, gan gyflwyno gwasanaethau rheng flaen well ar y pwynt cysylltu uniongyrchol.

Blaenoriaeth arall oedd galluogi staff i droi at systemau o unrhyw le, boed i hynny fod o adref, cynlluniau gwarchod neu McDonalds hyd yn oed!!! Gwnaeth Melin eu gweinydd a'u hamgylchedd pen desg yn gwbl rithwir, gan alluogi'r staff i droi at systemau craidd o unrhyw leoliad, ar unrhyw ddyfais, unrhyw bryd. Golygai hyn y gallai'r sefydliad leihau nifer y desgiau yn eu swyddfeydd, gan alluogi pobl i weithio'n fwy effeithiol adref a lleihau swm y teithio a wneir gan staff, a wellodd y gwasanaethau i'r trigolion yn y pen draw. Er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau'n ddi-dor i drigolion ni waeth ble'r oedd y staff yn gweithio, cyflwynodd Melin hefyd gyfleusterau argraffu rhithwir ac uwchraddiodd eu systemau ffôn, sydd yn y pen draw wedi gwella'u taith cwsmeriaid.

O ganlyniad i'r prosiect hwn, enillodd Melin wobwr 'prosiect trawsnewid gweithle y flwyddyn' yng ngwobrau Diwydiant TG y DU yn 2016. Datganodd Swyddog Incwm a Chynhwysiant Melin **"pan fyddwn allan gyda'n trigolion, gallwn gynnig dull mwy**

holistaidd, trwy gyngor ar incwm ac atgyweiriadau, a gallwn gynnig cefnogaeth yn y fan a'r lle. Gallwn weld mwy o drigolion nag y gwelsom o'r blaen ac rydym yn llawer mwy cynhyrchiol gyda'n hamser"

Mae gweledigaeth ddeinamig Melin wedi galluogi'r sefydliad i wella'r gwasanaethau a ddarparant i drigolion yn ddramatig gan leihau costau, gwella'u hamgylchedd gwaith, lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd naturiol a chyflawni mwy o fodlonrwydd swydd a grymuso'r holl staff. Arwyddair eu sefydliad yw y 'gallwn gyda'n gilydd' ac maen nhw wedi dangos eu bod yn gallu heb os nac oni bai!

Canlyniadau a chyflawniadau:

Mae ateb gweithio symudol Melin yn arbed dwy awr y dydd ar gyfartaledd fesul aelod o staff gweithlu uniongyrchol trwy ddileu gwaith papur, teithio di-fudd a thrwy symleiddio'r llyf gwaith a dal data. Mae hynny'n golygu y gwneir 20% yn fwy o atgyweiriadau y dydd i'r trigolion! Yn ogystal â hyn, cododd bodlonrwydd o ran sut yr ymdrinnir â'r atgyweiriadau o 68% ym mis Ebrill 2016 i 86% ym mis Ebrill 2017. Yn yr un modd, mae canran yr atgyweiriadau a gwblhawyd 'yn iawn y tro cyntaf' wedi codi o 87% ym mis Ebrill 2016 i 99% ym mis Ebrill 2017.

Mae'r sefydliad yn arbed tunnelli fetrig o ollyngiadau CO2 y mis yn sgil llai o deithio o ganlyniad i weithio o adref. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae eu hargraffu wedi lleihau gan hyd at 55% ym mhob adran ac mae 80,000 dalen o bapur wedi'u harbed yn ystod y 6 mis diwethaf!

Yn ogystal, mae'r effaith ar staff swyddfa Melin wedi trawsnewid diwylliant y sefydliad ac mae morâl wedi codi o ganlyniad. Mae canlyniadau'r ddau fusnes wedi gwella, megis ôl-ddyledion rhent yn gostwng o 1.8% ym mis Ebrill 2016 i 1.43% ym mis Ebrill 2017, yn ogystal â chanlyniadau ymgysylltu â staff, gyda Melin yn cyflawni safle 37 ar restr y sefydliadau dielw gorau i weithio iddynt y Sunday Times ar gyfer 2017!

Sharon Crockett

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgynghoriaeth Busnes

Cartrefi Melin

Ff: (01495) 745910

E: sharon.crockett@melinhomes.co.uk



Dull Charter o droi at gymunedau digidol

Charter Housing (Grŵp Pobl) gyda chymdeithasau tai lleol, Cymunedau yn Gyntaf, trigolion a chyllidwyr

Mae taith Charter i gymunedau digidol cynhwysol wedi bod yn un hir. Gan ddechrau yn 2005 i geisio lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith tenantiaid hŷn trwy eu hannog i fynd ar-lein, dysgodd y sefydliad yn gynnar bod angen rheswm i bobl fynd ar-lein. Roedd angen ennyn eu diddordeb er mwyn iddynt eisiau dysgu mwy na'r hanfodion.

Dyma oedd y man cychwyn i Charter, o ddangos i bobl hŷn sut gallant ddatblygu eu hobiau a'u diddordebau trwy wefannau a siopa ar-lein pan fo symudedd cyfyngedig neu anabledd yn golygu eich bod yn dibynnu ar bobl eraill felly mae'r dewis yn gyfyngedig, i ddefnyddio pethau hwyliog fel ymchwilio i goeden teulu neu ddatblygu sgiliau chwarae gemau trwy godio. Mae'r holl weithgareddau hyn yn datblygu llythrennedd digidol gan arwain at fywydau mwy diddorol, cynnydd mewn rhyngweithio cymdeithasol, mwy o gyflogadwyedd a gwell mynediad i wasanaethau.

Erbyn 2010, gwelodd twf y cyfryngau cymdeithasol ddefnydd graddol awtomatig o'r digidol – gwneud ceisiadau am fudd-daliadau, troi at y cyfryngau newyddion ac archebu gwyliau ar-lein. Golygai hyn, ar y cyd â symudiad y sefydliad tuag at foderneiddio gwasanaethau ar-lein, fod rhaid i denantiaid fod yn ddigidol llythrennog.

Penododd Charter ddau aelod o'r staff cymunedau digidol i yrru eu targed cynhwysiant digidol yn ei flaen; er mwyn cyflawni'r un ganran o drigolion Charter ar-lein â'r boblogaeth gyffredinol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau y gwnaeth neu y mae Charter yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd i gyflawni hyn;

- Datblygu prosiect diwifr cymunedol yn 2007 ar ystâd yng Nghasnewydd, gan roi mynediad am ddim i drigolion i erial diwifr cymunedol er mwyn eu hannog i fynd ar-lein. Cysylltodd 'Adeiladu eich cyfrifiadur eich hun', codio i blant a phrosiectau tebyg y trigolion a dangosodd arolwg 2016 fod 85% o'r tenantiaid wedi defnyddio'r rhyngwrwyd trwy gyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar. Dangosodd hyn fod gwaith crynodedig a chynaledig wedi cael effaith sylweddol.
- Datblygu Ap Charter yn 2013 gan alluogi tenantiaid i roi gwybod am atgyweiriadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a mwy 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Erbyn 2016, roedd bron i 1,000 o denantiaid wedi lawrlwytho'r Ap gan annog Charter i ddatblygu porth gwe wedi'i deilwra. **"Cefais ateb gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid mewn dwy awr trwy'r Ap, oedd yn wych."**
- Trefnu sioeau-ar-daith o gerbyd digwyddiadau diwifr er mwyn dangos i bobl sut i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn effeithiol, lawrlwytho'r ap ac arbed arian.
- Darparu cof bach rhad ac am ddim Charter wedi'u llwytho â safleoedd defnyddiol a gwybodaeth am sut i arbed arian. Mae hyfforddiant ar-lein wedi arbed cannoedd o bunnoedd y flwyddyn i denantiaid ar incymau isel **"Fyddwn i ddim wedi credu y byddai yna wefannau i gael pethau am ddim neu leihau'ch biliau."**
- Datblygu prosiect treftadaeth gan ddefnyddio hanes lleol a choeden deulu i ddatblygu sgiliau ymchwil, cyfathrebu a llythrennedd ar-lein.
- Cyflwyno cynlluniau benthycu gliniaduron a llechi a ychwanegir ato gan ffonau clyfar wedi'u hailgylchu sy'n gysylltiedig ag adborth y cwsmeriaid ar wasanaethau ac ati.
- Defnyddio straeon digidol i werthuso prosiectau a chyfathrebu materion i denantiaid
- Defnyddio'r rhydwethiau cymdeithasol i gefnogi gwaith prosiect e.e. grwpiau Facebook caeedig
- Symud y pwyslais i ddangos sut gall pobl wella'u rhagolygon gwaith. Mae cefnogaeth sgiliau gwaith digidol yn cael y tenantiaid yn barod i wirfoddoli, hyfforddi a cheisiadau am waith **"Darganfyddais bethau defnyddiol i'm helpu i wneud cais am swyddi ar-lein."**
- Helpu tenantiaid sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain i ddatblygu eu gwefannau eu hunain **"Rydym wedi dysgu cymaint."**
- Dod yn ganolfan gofrestredig yn 2017 i gyflawni hyfforddiant cyfrifiadurol TYGE. Mae'r cyfle hwn wedi'i gyflwyno i staff hefyd.
- Darparu hyfforddiant gan y tîm digidol i helpu'r staff i ddod yn ddigidol lythrennog, mae hyn yn cynnwys sesiynau amser cinio ar apiau, y cyfryngau cymdeithasol a sut i gael y gorau o'ch ffôn/llechen.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Dangosodd arolwg blynyddol o denantiaid er 2012 gynydd o 56% yn 2012 i 75% yn 2017. Cynyddodd rhagor o arolygon manwl ar ddwy ystâd lle'r oedd ffocws ar gael pobl ar-lein i 85% (Casnewydd) ac 83% (Y Coed Duon).

Mae'r fantais ariannol i denantiaid o'r cynllun benthycu gliniaduron a'r prosiect adnewyddu ffonau'n gwneud cyfanswm o fwy na £6,000 **"Mae cynllun y gliniaduron yn wych; byddwn yn ei argymhell i unrhyw un mewn angen"**.

Mae gwirfoddoli digidol wedi lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac wedi gwella sgiliau – **"Mae wedi rhoi hwb i mi ac wedi fy ngwneud i'n llawer hapusach"**.

Mae sesiynau galw heibio digidol wedi codi sgiliau, cynyddu rhagolygon gwaith, gwella iechyd meddwl a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol - **"Doeddwn i erioed yn credu y byddwn i'n dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur, ond maen nhw wedi dangos i mi y gallaf ei wneud"**.

Yn ogystal, cysylltodd Charter gyda thenantiaid anodd eu cyrraedd trwy gyfathrebu ar-lein, gweithio gyda dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi sawl tenant byddar. **"Mae bod ar Facebook wedi bod yn wirioneddol dda i mi."** **"Hoffwn i fod wedi gwybod am yr ap hwn yn gynt, mae'n wych,"** tenant Charter gyda nam ar y clyw.

Un canlyniad gwirioneddol gadarnhaol o'r prosiect hwn yw newid mewn safbwynt bod tenantiaid tai cymdeithasol yn cael trafferth i wneud pethau ar-lein, nid yw llawer o bobl sy'n defnyddio Facebook yn sylweddoli eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd. Unwaith y byddwch yn dangos i bobl, maen nhw'n ffynnu.

Bron Lloyd

Cyfarwyddwr Adfywio Cymunedol

Charter Housing (Grŵp Pobl)

Ff: (01633) 678546

E: bron.lloyd@charterhousing.co.uk

GWOBR GWEITHIO GYDA SECTORAU ERAILL

Mae'r wobwr hon yn cydnabod prosiectau a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda sefydliadau o'r tu allan i'r byd tai, megis iechyd ac addysg, sydd wedi arwain at ganlyniadau i bobl leol neu ddefnyddwyr gwasanaeth a gwerth am arian.



Heol Brynteg

United Welsh gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyflwynir cynllun tai â chymorth Heol Brynteg ym Mlaenau Gwent gan United Welsh mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

Pwrpas y cynllun yw cefnogi cleifion sy'n pontio o fyw mewn lleoliadau ward ysbyty tymor hir seiciatrig fforensig diogel i fyw yn y gymuned unwaith eto.

Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu sgiliau bywyd a symud tuag at fyw annibynnol gwydn, gan greu lle mewn gwelyau ar wardiau i'r rhai mewn angen a chreu arbedion cost sylweddol i'r bwrdd iechyd.

Mae Heol Brynteg yn cynnwys pum fflat ar wahân, pob un gydag ardal fyw a chegin, ystafell ymolchi ac ystafell wely ac mae staff United Welsh ar y safle 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

Mae'r model hwn yn rhoi i'r pum tenant eu cartref a'u hannibyniaeth eu hunain iddynt am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, ond mae hefyd wedi galluogi'r staff i ddatblygu perthynas therapiwtig gyda'r tenantiaid i gefnogi eu hanghenion cymdeithasol a lleihau'r risg o gael ail bwl iechyd meddwl, ac felly'n cynorthwyo gwaith Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol BIPAB.

Sefydlwyd Heol Brynteg fel rhan o'r fenter 'In One Place' – cydweithrediad rhwng BIPAB, wyth cymdeithas tai ac awdurdodau lleol Gwent gyda'r nod o ddatblygu a

darparu llety a gofal i'r rheiny gydag anghenion Gofal Iechyd Parhaus i unigolion mewn lleoliadau ward sydd bellach yn anaddas.

Yn 2015, daeth eiddo United Welsh ar gael ac fe'i cynigiwyd i gydweithrediad In One Place gan ei fod yn cael ei ystyried yn addas i letya pobl yr aseswyd bod ganddynt angen gofal iechyd sylfaenol, cymhleth.

Gweithiodd United Welsh yn agos gyda BIPAB i adnewyddu'r eiddo ac i nodi'r gofynion cymorth ar gyfer y tenantiaid newydd, ac mae'r model tai a gofal a sefydlwyd ym Mrynteg wedi cynhyrchu canlyniadau ystyrlon ers i'r tenantiaid cyntaf symud i'r cynllun ym mis Hydref 2016.

Un enghraifft yw Mark Davies, a fu'n byw mewn lleoliadau fforensig sicr am wyth mlynedd.

Cafodd Mark ei ddiagnosisio gydag afiechydon iechyd meddwl sy'n effeithio ar y ffordd mae'n gweld y byd. Effeithiodd ei orbryder ar ei allu i gyfathrebu a ffurfio perthnasoedd a phan adawodd y ward yn y lle cyntaf, cafodd Mark drafferth i wneud cyswllt llygaid a siarad gyda phobl eraill heb deimlo mewn trallod.

Yn ogystal, camddefnyddiodd Mark sylweddau i geisio rheoli ei emosiynau a gwnaeth ei ymddygiad yn ystod argyfwng iechyd meddwl ei wahanu oddi wrth ei deulu; gan effeithio ar iechyd meddwl ei rieni o ganlyniad.

Ers symud i Frynteg, mae trefniadau byw yn annibynnol Mark a'r gefnogaeth gan staff wedi'i alluogi i ddatblygu sgiliau DIY i greu ei gartref cyntaf; ailafael yn ei berthynas â'i deulu; dysgu coginio; rheoli ei gyllideb ei hun; dysgu nofio a cherdded gan arwain at golled pwysau o dair stôn; addysgu sgiliau digidol ac ailddechrau ymarfer ei ffydd. Mae bellach yn cyflwyno pregethau o flaen 70 a mwy o bobl ac yn ddiweddar, enillodd gwobr 'Dysgwyr y Flwyddyn' y tenantiaid.

Mae Mark wedi gwneud cymaint o gynnydd, mae ei Gynlluniau Gofal a Thriniaeth a gydlynwyd gan y Tîm Iechyd Cymunedol wedi'u gostwng o bob tri mis i chwe mis – cyflawniad enfawr o gofio bod y staff wedi teimlo bod angen i wely ward gael ei gadw ar agor i Mark yn y lle cyntaf.

Gallwch wylio Mark a'i fam yn siarad am eu profiadau o Frynteg am 6m:30 eiliad o'r ffilm hon: www.ow.ly/wa6X30dNUpo

Yn ogystal â'r effaith y mae cynllun Heol Brynteg yn ei chael ar fywydau'r tenantiaid, mae hefyd wedi arwain at arbedion cost sylweddol.

Mae pob fflat ym Mrynteg yn arbed £119,668 y flwyddyn mewn costau ysbyty, gan arbed cyfanswm o £598,340.*

*Ffynonellau ar gyfer arbedion cost: Cronfa ddata atal costau – Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus Trysorlys Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Cefnogi Pobl: Arweiniad dadansoddi buddiannau cost i bartneriaethau lleol.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Arweiniodd y tai a'r cymorth a ddarperir gan gynllun Heol Brynteg at sawl canlyniad cadarnhaol; gan wella bywydau'r tenantiaid a'u teuluoedd yn sylweddol a chreu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr asiantaethau dan sylw.

Mae pob fflat yn arbed £119,668 y flwyddyn mewn costau ysbyty; cyfanswm arbediad o £598,340.

Mae Brynteg hefyd yn creu lleoedd gwely ar wardiau i'r sawl mewn angen ac yn darparu amgylchedd i denantiaid ffynnu ynddo, sy'n eu galluogi i adfer eu hannibyniaeth a chynnal lles meddyliol da.

Dyweddodd Trudy Davies, mam Mark sy'n denant

"Mae Mark yn fachgen gwahanol ac wedi troi ei fywyd o gwmpas. Mae fel teulu fan hyn ac mae Emma (yr Arweinydd Tîm) yn ei drin fel brawd.

"Allwn i ddim credu'r peth pan enillodd wobr – llefais i! Rydw i mor falch."

Dyweddodd Tonia Malson, Rheolwr Contractau a Pherfformiad ar gyfer BIPAB: : **"Allen i ddim bod yn fwy cefnogol o waith tîm Heol Brynteg. Y tu hwnt i'r arbedion adnoddau a grëwyd gan y prosiect, mae'r cynllun yn gwella bywydau pobl."**

Dyweddodd Joanne Lewis-Jones, Swyddog Rhaglen In One Place BIPAB: **"Mae'r prosiect yn glod i effeithiolrwydd y cydweithredu rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Cymeradwywn ymrwymiad pawb dan sylw a gobeithio y daw Brynteg yn esiampl ar gyfer prosiectau'r dyfodol."**

Emma South

Arweinydd Tîm Heol Brynteg

United Welsh

Ff: (07494) 425553

E: emma.south@unitedwelsh.com



Nes Adref

Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

Mae Tai Dewis Cyntaf yn darparu tai â chymorth i bobl ddiamddiffyn sy'n eu galluogi i fyw yn annibynnol yn y gymuned. Fe'i sefydlwyd i ddechrau ym 1988 i ddarparu tai i bobl gydag anableddau dysgu sy'n ailgartrefu o sefydliadau arhosiad hir. Mae'r sefydliad wedi galluogi unigolion i fyw'n annibynnol fel aelodau gwerthfawr yn eu cymuned leol. Ers hynny, mae Dewis Cyntaf wedi arallgyfeirio a bellach yn darparu tai i'r sector ehangach gan gynnwys anafiadau a gafwyd i'r ymennydd,

anableddau corfforol a chyn-filwyr y gallai fod angen cymorth arnynt wrth adael y Lluoedd Arfog. Angerdd a gwerthoedd i ddarparu tai arbenigol i'r bobl fwyaf diamddiffyn yw beth sy'n cymhell Dewis Cyntaf i chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella safonau a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

Gan gydweithio i ddarparu cartrefi mewn gofal preswyl i bobl gydag ymddygiad heriol, mae "Nes Adref" yn bartneriaeth rhwng Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf, awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Cynigia'r tŷ amgylchedd wedi'i deilwra i anghenion y tenant a chefnogi partneriaid i gyflawni Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol. Mae'r cyfuniad pwerus hwn wedi gweld ymddygiadau sy'n herio yn lleihau'n ddramatig.

Yn aml iawn, mae pobl gydag ymddygiad heriol wedi'u lletya y tu allan i'r sir ac i ffwrdd o'u teuluoedd yn sgil diffyg lletya addas yn yr ardal. Mae partneriaeth "Nes Adref" yn cefnogi Deddfau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru gan eu bod yn darparu ateb amlasiantaeth tymor hir cydlynol o wella ansawdd bywyd pobl gydag anghenion cymorth a gofal iechyd cymhleth. Caiff pobl eu lletya yn yr ardaloedd tyfon nhw i fyny ynddynt a gallant integreiddio'n gywir i gymuned sydd â manteision enfawr iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae'r model wedi gweld canlyniadau anghredadwy sydd wedi

rhoi annibyniaeth a deiliadaeth sicr i denantiaid. Mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i ddangos y gall byw mewn 'tŷ cyffredin mewn stryd gyffredin' gyda'r gefnogaeth briodol gyflawni canlyniadau arwyddocaol i bobl gydag anghenion iechyd cymhleth ac ymddygiad heriol.

Tŷ cyffredin mewn stryd gyffredin - Dyna sut mae'n ymddangos ond mae Dewis Cyntaf a'i bartneriaid wedi dewis yn ofalus ac wedi addasu eiddo i ddarparu amgylchedd therapiwtig i leihau ymddygiad heriol. Ymhlith nodweddion nodweddiadol eiddo "Nes Adref" mae'r lleoliad a ddewiswyd i wneud y mwyaf o integreiddio cymdeithasol, ardal dawel (oherwydd gall sŵn fod yn sbardun) ac ôl traed mawr i ganiatáu ar gyfer ystafelloedd ymneilltuo i helpu rheoli ymddygiad heriol. Mae gan lawer o'r eiddo ystafelloedd golchi wedi'u haddasu, cawodydd cudd a sestonau toiledau a waliau solet arbenigol i leihau difrod.

Astudiaeth Achos – mae gan Brian Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig ac roedd yn byw yn Abertawe ond pan oedd yn 11 oed, aeth i ysgol breswyl arbenigol yn Basingstoke. Golygai'r pellter nad oedd mewn cysylltiad aml â'i deulu. Roedd angen llety newydd ar Brian, 19 oed erbyn hyn, felly gweithiodd Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu pecyn tai a chymorth a fyddai'n mynd i'r afael â'i broblemau ac yn lleihau ei ymddygiad heriol. Mae Brian bellach yn cyflawni ei weithgareddau byw pob dydd ei hun gan ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'i staff cymorth. Mae ansawdd ei fywyd wedi gwella ac mae ei ymddygiad heriol wedi lleihau'n sylweddol. Roedd Brian hefyd yn gallu gweld ei deulu llawer yn amlach, yn enwedig ei fam-gu ar ochr ei fam y mae ganddo berthynas sy'n bwysig iawn iddo.

Canlyniadau a Chyflawniadau:

Mae C2H wedi mynd i'r afael â materion yn hytrach na rheoli ymddygiad Brian gan arwain at lefelau cymorth is. Mewn un flwyddyn, mae'r costau cymorth wedi lleihau o £300,000 i £100,000.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf wedi darparu 38 lle gwely gan arwain at:

- 40 o bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain
- 30 o bobl yn dychwelyd o wasanaethau y tu allan i'r ardal neu wasanaethau lleol costus iawn
- Gwelliannau dramatig yn ansawdd bywyd
- Gostyngiadau mewn ymddygiad heriol
- Arbedion refeniw blynyddol sy'n gwneud cyfartaledd o fwy na £100,000 fesul tenant

Mae C2H wedi arwain at gyfranogiad cynyddol mewn ystod o weithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned, gan ddatblygu diddordebau a pherthnasoedd personol. Mae hyn wedi bod yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn amledd a dwyster ymddygiadau heriol. Mae teuluoedd wedi sôn ei bod hi'n haws iddynt dreulio mwy o amser gyda'u perthynas nawr eu bod nhw'n agosach at adref. Crybwyllodd un mam **"gwyh"** pan ofynnwyd iddi grynhoi ei phrofiad o'i merch yn symud i dŷ C2H gan ychwanegu **"mae'n hapusach, yn fwy hyderus ac mae ei hunan-barch wedi codi"**.

Dywedodd un comisiynydd **"Mae Nes Adref wedi rhoi i ni bartneriaethau cryf gyda gweledigaethau a blaenoriaethau cyffredin ac mae'n flaenoriaeth gomisiynu strategol allweddol. Rydym am barhau â'r model byw â chymorth a datblygu a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod o safon uchel"**.

Donna Lloyd-Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf

Ff: (029) 2071 3762

E: donnalloyd-williams@fcha.org.uk



Dewisiadau tai'r tîm camu i lawr

Datrysiadau Tai Conwy gyda Datrysiadau Tai Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gofal a Thrwsio Conwy a Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych

Mae Iechyd a Thai 2025 yn symudiad cydweithredol gyda phwrpas ar y cyd o ddod â diwedd ar anghydraddoldeb iechyd y gellid ei osgoi yng Ngogledd Cymru, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae partneriaid 2025 wedi nodi pum maes gwaith blaenoriaeth a all gyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac mae a wnelo un o'r rhain â "Rhyddhau o'r Ysbyty".

Mae hyn wedi cefnogi creadigaeth Tîm Camu i Lawr. Llwybr newydd yw hwn i wella'r llif cleifion yn Ysbyty Glan Clwyd a'r ysbytai cymunedol a wasanaethir gan y safle llym. Yn dilyn niferoedd cynyddol o gleifion yn mynd at y gwasanaeth iechyd a swm digynsail o'r cleifion hynny'n methu cael eu rhyddhau'n ddiogel i lety priodol, aeth BIPBC at Ddatrysiadau Tai Conwy i gyflwyno swyddog tai arbenigol a fyddai'n cael ei ymgorffori yn y Tîm Camu i Lawr.

Gweithiodd y swyddog tai ochr yn ochr â'r nyrsys cyswllt rhyddhau, therapyddion galwedigaethol, nyrsys ardal a ffisiotherapyddion ac fe'i rheolwyd yn uniongyrchol gan bennaethes y Tîm Camu i Lawr.

Rôl y swyddog tai oedd nodi cleifion mewn argyfwng tai lle'r oedd eu rhyddhau o'r safle'n debygol o gael ei ohirio. Y prif ffocws oedd ymyrraeth gynnar i gadarnhau natur yr argyfwng tai ac i benderfynu ar y rhwystrau i ryddhau.

Treuliyd swm sylweddol o amser yn 'cerdded y wardiau' a mynychu rowndiau bwrdd. Roedd hyn yn hollbwysig i hyrwyddo rôl y swyddog tai a hefyd er mwyn i'r swyddog tai ymgysylltu â chynllun yr

ysbyty, y jargon a'r ffyrdd o weithio sy'n unigryw i'r amgylchedd hwnnw.

Gweithiodd y swyddog tai'n agos gyda rheolwyr wardiau i ddatblygu ymddiriedaeth a dealltwriaeth o rôlau ei gilydd a sicrhau y gellir cynnig gwasanaeth o'r safon uchaf. Datblygodd y swyddog tai system atgyfeirio syml yn yr adran argyfwng brysur gan sicrhau y gallai cleifion gael eu hamlygu wrth gael eu derbyn gydag ychydig iawn o aflonyddwch i'r dasg anodd o nyrsio. Datblygwyd y system hon gydag amser ac mae wedi profi'n llwyddiannus wrth allu gweithio gyda chlaf trwy eu taith a sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu hystyried ar gyfer anghenion y claf.

Dyfyniadau'r bobl dan sylw;

"Roeddwn i'n trin claf digartref yn yr Adran Argyfwng. Roedd yn feddygol iach ond roeddwn i'n mynd i'w dderbyn i'r ysbyty oherwydd roeddwn yn poeni am ei ryddhau'n ôl i'r stryd. Cymerodd y swyddog tai amser i siarad gyda'r claf a thrafod ei ddewisiadau tai. Teimlais yn llawer mwy hyderus fod y gwasanaethau yno i'w cefnogi felly euthum ymlaen i'w ryddhau a olygai y gallai claf arall nad oedd yn feddygol iach gael y gofal a'r sylw angenrheidiol"

– Meddyg yn yr adran argyfwng.

"Cefais lawdriniaeth helaeth ac roeddwn yn isel iawn pan siaradais gyda'r swyddog tai ar y ward. Golygai'r amgylchiadau yn arwain at fy arhosiad yn yr ysbyty na allwn fynd yn ôl i dŷ fy mhartner ac roedd pethau gyda'm teulu yn flêr iawn. Gwnaeth siarad gyda'r swyddog fy helpu, roedden nhw'n wirioneddol glir ynghylch fy newisiadau ac roedden nhw'n amyneddgar gyda'r holl gwestiynau a ofynnais. Hyd hynny, teimlais fod pawb yn gwneud penderfyniadau drosof i ond dywedon nhw bopeth roedd angen i mi ei wybod ac yna gadael i mi wneud fy mhenderfyniadau fy hun. Yn y diwedd, bu modd imi fynd yn ôl at fy rheulu ond roedd gwybod bod yna ddewisiadau eraill o help imi wneud y dewis hwnnw" – Claf.

Mae'r arbedion a amcangyfrifwyd o £163,200 yn y cyfnod cyntaf o 6 mis yn dyst i fanteision y rôl.

Canlyniadau a chyflawniadau:

- Yn ystod 6 mis cyntaf y prosiect, cynorthwyodd y swyddog tai i ryddhau 80 claf. O'r rhain, roedd 45 yn ddigartref. Darparodd y swyddog tai asesiadau i awdurdodau lleol priodol
- O'r rhain, derbyniwyd 32 yn ddigartref a chynigiwyd gwasanaethau iddynt. Atgyfeiriwyd 6 i siroedd y tu allan i Gymru, gwrthododd 6 i ymgysylltu yn dilyn rhyddhau a chanfuwyd nad oedd 1 ohonynt yn ddigartref.

- Ystyriwyd bod 12 o'r cleifion hynny mewn angen blaenoriaeth a chynigiwyd llety argyfwng iddynt.
- O 3 achos angen blaenoriaeth pellach, cynigiwyd llety â chymorth i 2 ohonynt a chynorthwywyd 1 i'w tenantiaeth fyrddaliol sicr eu hunain yn syth o'r ysbty.
- Ers hynny, mae 6 wedi'u derbyn i brosiectau llety â chymorth, mae 3 wedi cael cynnig tenantiaethau tai cymdeithasol ac mae 2 wedi'u cynorthwyo i sicrhau eu tenantiaeth fyrddaliol sicr eu hunain.
- Ar gyfartaledd, canfuwyd bod cleifion digartref mewn angen blaenoriaeth yn treulio 30 diwrnod ychwanegol yn yr ysbty. Mae amcangyfrif cost o £400 y noson yn gyfwerth â £180,000.

- O gymharu, cafodd 9 o'r 15 claf mewn angen blaenoriaeth eu rhyddhau ar y dyddiad y daethant yn feddygol iach. Rhyddhawyd y 5 oedd yn weddill cyn pen 7 diwrnod. Cyfanswm ffigur o £16,800.
- Roedd amcangyfrif arbedion o £163,200 cyn pen 6 mis a chymorth hollbwysig yn cael ei gyflwyno i gleifion lle a phan fo angen.

Helen Thorneycroft

Swyddog Dewisiadau Tai

Atebion Tai Conwy

Ff: (0300) 124 0050

E: helen.thorneycroft@conwy.gov.uk



y mae tai'n gwneud cyfraniad hollbwysig at iechyd a lles. Roedd angen mwy o feddwl ar y wybodaeth a'r mewnwelediad hwn yn ymwneud â heriau penodol i bobl hŷn a wnaed yn ddiameddiffyn yn sgil materion iechyd cymhleth, colli'r synhwyrau, dementia, strôc ac ati. Mae'r ddealltwriaeth hon, ynghyd ag arbenigedd technegol tai, safonau proffesiynol, cydymffurfiaeth â rheoliadau, amserlenni gwaith arbenigol a chanlyniadau contractwyr dan oruchwyliaeth, yn hollbwysig i gael pethau'n iawn i'r cleient.

Mae pobl hŷn, ni waeth beth yw'r her iechyd, dal eisiau byw yn annibynnol. Golyga hyn mewn cartrefi sy'n rhydd o beryglon, yn gynnes, sych, hygyrch a hawdd eu rheoli. Er mwyn i'r canlyniadau hyn gael eu darparu'n llwyddiannus i fuddiolwyr, yna ni all fod ar sail 'un maint i bawb' ond ar sail wedi'i theilwra'n unigol sydd angen sylw gwaith adeiladu. Bwriad ein gwasanaeth yw cael y tŷ'n iawn fel cartref y gellir byw ynddo.

Mae dros dri deg o flynyddoedd o weithio mewn tai i bobl hŷn, cefnogi'r gwaith o ryddhau o ofal yn ddiogel ac arbedion osgoi costau ataliol i'r GIG wedi pwysleisio manteision gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, roedd mynd i'r afael â heriau iechyd mwy cymhleth yn bryder cynyddol ac roedd angen mwy o gydweithredu a gwybodaeth a sgiliau newydd. Yn hollbwysig, roedd angen i wasanaethau ataliol wella canlyniadau a gwneud ymyriadau cymunedol, gan weithredu'n amserol mor effeithiol ag y gallant fod, gan dynnu ymaith y potensial am niwed.

Yn ogystal, mae partneriaeth newydd Gofal a Thrwsio gydag RNIB Cymru ac Action on Hearing Loss Cymru hefyd wedi'i ymestyn yn ddiweddar i Gymdeithas Alzheimer Cymru a'r Gymdeithas Strôc er mwyn cyd-gynhyrchu'n well a targedu gwell o ran y gwasanaeth Rheoli'n Well. Er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol, datblygwyd partneriaethau effeithiol gyda thimau GIG a meddygfeydd teulu ar draws Cymru. Mae hyn yn helpu cael pobl hŷn sy'n cael trafferthion yn eu bywydau gydag afiechyd, a hefyd yn annog y sector iechyd i ddynodi pobl hŷn ddiameddiffyn a chanddynt gyflyrau iechyd sydd wedi'u gwaethgu gan dai gwael.

Rheoli'n well

Gofal a Thrwsio Cymru gydag RNIB Cymru, Action on Hearing Loss Cymru a phartneriaid mewn nifer o Fyrddau Iechyd, yn enwedig UBMU, UBUHB, CTUHB, CVUHB a BCUHBd

Roedd man cychwyn Gofal a Thrwsio'n seiliedig ar brofiad sy'n helpu pobl i fyw mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch, yn annibynnol, sy'n rhoi mwy o gyfleoedd iechyd a bywyd. Mae gan Gofal a Thrwsio hefyd arbenigedd a mewnwelediad ymarferol i'r ffordd

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar draws cymunedau Cymru ac atgyfeirir llawer trwy iechyd, meddyg teulu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly'n angen blaenoriaeth uchel. Yn aml iawn, mae'r buddiolwyr yn byw mewn cartrefi oer, llaith, anniogel, wedi'u cynnal yn wael. Mae'r ffaith y bydd gan y rhan fwyaf golled synhwyrdd dynodedig, strôc, Alzheimers ac weithiau cyfuniad o'r rhain yn gwneud byw yn annibynnol yn llawer mwy o her. Mae rhai'n dioddef allgáu cymdeithasol ac mae gan lawer fynediad gwael i wasanaethau'r brif ffrwd. Awgryma ein profiad ni nad yw anghenion tai'n cael eu hystyried yn aml o safbwynt gofal ac yn aml, nid yw colli'r synhwyrddau'n cael ei ystyried gan wasanaethau statudol y brif ffrwd.

Felly'r canlyniadau ar draws Cymru yw: gwell mynediad i wasanaethau; cael y gwasanaethau arbenigol, 'iawn', byw mewn cartrefi sy'n haws eu rheoli, dibyniaeth is ar wasanaethau'r GIG a'r meddyg teulu; mwy hyderus i ymdopi gyda cholli'r synhwyrddau; mwy o ddewisiadau creadigol i addasu'r cartref i fodloni angen hollbwysig.

Ariennir y gwasanaeth trwy Grant Trydydd Sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy am swm blynyddol o £438,250 gan ddefnyddio ymchwil o adroddiadau a luniwyd gan BRE, Age UK, Swyddfa Archwilio Cymru ac Uned Ymchwil y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol i gyfrifo elw gwerth ar fuddsoddiad. Swm yr ymyriad cyfartalog o'r gwasanaeth Rheoli'n Well yw £560 a'r gost uniongyrchol botensial i'r GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer trawma cwmpadau yw £116,225 fesul cleient. Ar gyfer dim ond 5% o'r cleientiaid mewn risg mwyaf, byddai'r elw'n £11.50 ar gyfer pob £1 a fuddsoddir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn sicrhau bod arbenigedd ystod o sefydliadau'n cyrraedd y cleient trwy bwyntiau cyswllt unigol yn y rheng flaen.

Canlyniadau a chyflawniadau:

Cyflwynir y gwasanaeth newydd gan Gofal a Thrwsio Cymru, ar y cyd ag RNIB Cymru ac Action on Hearing Loss Cymru. Ar ddiwedd Blwyddyn 1, recriwtiodd 13 o weithwyr achos, gan ddarparu gwasanaethau mewn 22 sir ac roeddent yn gysylltiedig â'r GIG ar draws 7 Bwrdd Iechyd. Cyfuna welliannau yn y cartref, lles ac arbenigedd adeiladu technegol pobl hŷn, gydag amrywiaeth o sgiliau i gynorthwyo buddiolwyr gyda cholli'r synhwyrddau. Y canlyniad yw byw yn annibynnol: yr her yw galluogi pobl hŷn i reoli'n well.

Hyd yma, mae wedi cynorthwyo 1,425 o bobl ddi-amddiffyn, mae gan 79% golled synhwyrdd, cafodd 1,136 fesurau atal cwmpadau, cafodd 270 eu helpu i wella gwres, cafodd cleientiaid £96,966 o incwm lles ychwanegol, a chwblhawyd £380,428 o addasiadau yn y cartref. Ar sail cyfrifiadau am 5% o'r cleientiaid mwyaf diamddiffyn, gydag ymyriadau cost isel a chyingor iechyd darbodus, caiff amcangyfrif o £11.50 i bob £1 a fuddsoddir ei arbed er mwyn osgoi cost ataliol y GIG.

Mae'r gwasanaeth newydd hefyd wedi helpu datblygu partneriaethau newydd rhwng tai, offthalmoleg a chlywedeg yn y GIG, gyda mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd y mae tai'n effeithio ar iechyd gwael. Mae gwell dealltwriaeth o golli golwg wedi effeithio ar addasiadau yn y cartref, gyda safonau Visibly Better yn rhoi mwy o ystyriaeth i oleuo, cysgod, arlliw a dyluniad.

Neil Williams

Pennaeth Cymorth a Datblygu'r Asiantaeth

Gofal a Thrwsio Cymru

Ff: (029) 2067 4830

E: neil.williams@careandrepair.org.uk